

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
# **y Swyddfa Gyfathrebiadau**

Am y cyfnod 01 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
# **y Swyddfa Gyfathrebiadau**

Am y cyfnod 01 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015

# Cynnwys


A

## Trosolwg

4 Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud
6 Neges y Cadeirydd

B

## Adroddiad Strategol

8 Uchafbwyntiau 2014/15
10 Edrych ymlaen at 2015/16
12 Adroddiad y Prif Weithredwr
16 Gwella canlyniadau i ddefnyddwyr
17 Y cynnydd sydd wedi'i wneud yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol
34 Ein cyfrifoldebau parhaus a'r adnoddau rydyn ni'n eu rheoli
44 Prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd
46 Adolygiad Ariannol
51 Sut rydyn ni'n gweithio a chyda phwy rydyn ni'n gweithio
56 Ein gweithwyr
57 Cyfrifoldeb corfforaethol
58 Adroddiad cynaliadwyedd

C

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

60 Bwrdd Ofcom
62 Cofrestr buddiannau i'w datgelu
62 Rhwymedigaethau pensiwn
62 Gwaith nad yw'n gysylltiedig ag archwilio'r cofnodion ariannol
62 Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol
62 Data absenoldeb salwch

D

## Datganiad Llywodraethu

64 Datganiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr
65 Y strwythur llywodraethu
70 Y fframwaith risg a rheolaeth
73 Datganiad cyfrifoldebau

E

## Adroddiad taliadau

74 Adroddiad taliadau

F

## Datganiadau Ariannol

79 Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd
80 Datganiad incwm a gwariant
81 Datganiad am y sefyllfa ariannol
82 Datganiad am newidiadau mewn ecwiti
83 Datganiad am y llifoedd arian parod
84 Nodiadau i'r cyfrifon

G

## Atodiad


113 Byrddau a Phwyllgorau Ofcom
116 Datganiadau rheoleiddio
122 Rhaglen ymchwiliadau
123 Safonau darlledu
125 Peirianneg sbectrwm a gorfodi
126 Trwyddedau sbectrwm
129 Cynaliadwyedd
131 Geirfa

# Trosolwg

## Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud

**Y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau annibynnol y DU.**



Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinellau sefydlog, ffonau symudol, y sectorau teledu a radio, gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau diwifr yn eu defnyddio.

Rydym yn ceisio gwneud yn siŵr bod busnesau ac unigolion yn y DU yn cael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebiadau a'u








bod yn cael eu hamddiffyn rhag twyll ac arferion cyfrwys, ond gan sicrhau, lle y bo'n briodol, bod cystadleuaeth yn gallu ffynnu.

Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf Swyddfa Cyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu o dan nifer o Ddeddfau Seneddol a rheoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddf yr Economi Ddigidol 2010 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai prif ddyletswydd Ofcom yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle y bo hynny'n briodol. Dyma sail llawer o'n gwaith. O ran gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn cael ei ddarparu yn y DU.

Rydym yn gysylltiedig â phennu rhai o'r agweddau mwy technegol ar reoleiddio, a rhoi cyngor ar y rheini, yn ogystal â gweithredu a gorfodi cyfraith cyfathrebiadau, cyfraith cystadleuaeth a chyfraith diogelu defnyddwyr.

Mae Ofcom yn cael ei ariannu drwy'r ffioedd a ddaw o'r diwydiant ar gyfer rheoleiddio darlledu, rhwydweithiau cyfathrebiadau a gwasanaethau post, a chymorth grant a ddaw gan Lywodraeth y DU ar gyfer rheoleiddio cystadleuaeth gydredol a rheoli'r sbectrwm radio. Rydym yn gweithio'n annibynnol, heb ddylanwad gwleidyddol.

## Beth rydyn ni'n ei wneud

Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw:

- sicrhau bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig, gan gynnwys gwasanaethau cyflym iawn fel band eang sefydlog a symudol;
- sicrhau bod y sbectrwm radio (y tonnau awyr sy'n cael eu defnyddio gan bawb o gwmnïau tacsis a pherchnogion cychod, i gwmnïau ffonau symudol a darlledwyr) yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol;
- sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o ansawdd uchel yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- sicrhau bod pobl sy'n gwylio'r teledu ac yn gwrando ar y radio yn cael eu hamddiffyn rhag deunyddiau sy'n achosi niwed neu dramgwydd. Rydym yn delio â chwynion am ddarllediadau radio a theledu ac yn asesu pob cwyn yn ôl y Cod Darlledu neu amodau trwydded neu godau perthnasol eraill;
- sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni teledu a radio, a rhag i neb darfu ar eu preifatrwydd; a
- sicrhau bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.




## Beth nad ydyn ni'n ei wneud

Mae gan Ofcom bwerau i orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr yn gyffredinol. Nid oes gan Ofcom bŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol am delegyfathrebiadau neu wasanaethau post, yn wahanol i deledu a radio. Ond rydym yn cynghori unigolion sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at y ddau gynllun dulliau amgen o ddatrys anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym.

# Neges y Cadeirydd

## Patricia Hodgson



Mae Ofcom wedi gwneud llawer i ysgogi arloesedd, buddsoddiad a gwasanaethau newydd yn sectorau cyfathrebiadau'r DU, rhywbeth a wnawn drwy annog gystadleuaeth a mynediad i'r farchnad.

Lle y mae tagfeydd cystadleuol hanesyddol wedi atal hyn, rydym wedi mynd i'r afael â'r rheini. Ond, wrth i wasanaethau a llwyfannau darlledu a thelegyfathrebiadau barhau i gydgyfeirio, efallai y bydd tagfeydd newydd yn ymddangos.

Rydym felly'n rhoi cychwyn ar adolygiad strategol sylweddol o farchnadoedd cyfathrebiadau digidol y DU. Drwy edrych ar farchnadoedd llinell sefydlog, symudol a band-eang yn gyffredinol, byddwn yn ceisio sicrhau bod y cymhellion ar gyfer buddsoddi yn aros yn gryf a'n bod yn lleihau rheoleiddio lle bynnag y gallwn wneud hynny. Nod yr adolygiad hwn, y cyntaf ers 2005, yn ceisio sicrhau y bydd fframwaith rheoleiddio Ofcom yn dal yn ymatebol i sector sy'n esblygu'n sydyn.

Ein nod, fel bob tro, yw sicrhau'r canlyniadau gorau i ddinasyddion a defnyddwyr y DU. Cystadleuaeth yw'r brif arf ond, os yw hynny'n methu, efallai y bydd yn rhaid ymyrryd. Mae targedau llym newydd ar Openreach o ran gosod a thrwsio llinellau, pwysau ar gwmnïau i ddelio'n well â chwynion a gweithredu ar alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael yn dair enghraifft o blith nifer sy'n dangos lle rydym wedi gweithredu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae gwasanaethau cyfathrebiadau o ansawdd da sy'n rhoi gwerth da am arian i fusnesau yn amcan canolog i Ofcom hefyd. Rydym wedi cychwyn prosiect i asesu a yw'r farchnad cyfathrebiadau'n diwallu anghenion busnesau bach a chanolig yn llawn. Rydym hefyd wedi lansio adolygiad marchnad o linellau ar brydles, gan gynnwys y defnydd mwyaf effeithiol o ffibr tywyll.

Mae band eang cyflym iawn a 4G ar gael erbyn hyn i dri chwarter yr holl gartrefi a busnesau. Mae Prydain wedi manteisio ar y technolegau hyn yn gynt nag unrhyw wlad Ewropeaidd arall, ac mae Ofcom yn benderfynol o wneud popeth y gall i gynnal y momentwm a mwy.

Gwelwyd newid sylweddol yn arweinyddiaeth Ofcom yn 2014/15. Gwnaethom groesawu Graham Mather a Stephen Hill i'r Bwrdd fel aelodau anweithredol newydd, a'r Farwnes










Noakes yn Ddirprwy Gadeirydd. Cafodd y profiad a'r arbenigedd yma ei gryfhau ymhellach gan Jonathan Oxley, a ymunodd â'r Bwrdd fel Cyfarwyddwr Grŵp, Cystadleuaeth. Ac ym mis Mawrth, ar ôl tywys y sefydliad yn llwyddiannus fel Prif Weithredwr dros dro am dri mis, ymunodd Steve Unger â'r Bwrdd yn barhaol.

Yn ymadael ag Ofcom a'i Fwrdd yr oedd Jill Ainscough, a hoffwn ddiolch iddi am dywys gweithrediadau Ofcom mor dda ers 2006. Yn olaf, ac yntau wedi bod yn rhan greiddiol o Ofcom ers ei sefydlu, gwnaethom ffarwelio ag Ed Richards. Mae dylanwad Ed ar Ofcom a'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio yn amhrisiadwy a'r cyfuniad o gymhelliant, brwdfrydedd a chreadigrwydd a gyflwynodd i'r rôl yn gwbl amlwg. Roeddwn wrth fy modd yn cael croesawu Sharon White i lenwi esgidiau Ed, sy'n dod â chyfuniad gwych o ddeallusrwydd, craffter a phrofiad gyda hi sy'n deillio o arwain sefydliadau cyhoeddus cymhleth. Bydd yn adeiladu ar enw da a record sylweddol Ofcom.



**Y Fonesig Patricia Hodgson, DBE**
Cadeirydd

# Adroddiad Strategol

## Uchafbwyntiau 2014/15

### Sicrhau buddsoddiad a chystadleuaeth effeithiol mewn band eang

Gwnaethom gyflwyno rheol newydd i hyrwyddo cystadleuaeth mewn band eang cyflym iawn drwy fynnu bod BT yn cynnal bwlch digonol rhwng ei brisiau band eang cyflym iawn cyfanwerthol a manwerthol. Dylai'r rheol helpu i ddiogelu buddsoddiad a darparu buddion i ddefnyddwyr (tudalen 22).

### Symleiddio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol

Gwnaethom barhau i symleiddio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol ar gyfer defnyddwyr busnes a domestig. Bydd ein penderfyniadau nid yn unig yn gwneud prisiau yn fwy tryloyw, ond dylent hefyd gynyddu cystadleuaeth a defnydd defnyddwyr o'r rhifau (tudalen 24).

### Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm

Yn ystod y flwyddyn, penderfynon ni ryddhau'r band 700MHz ar gyfer band eang symudol erbyn 2022. Gwnaethom hefyd osod y sylfeini i ddiwydiant ddefnyddio bylchau gwyn ar gyfer cymwysiadau di-wifr newydd (tudalennau 27 a 29).

### Helpu defnyddwyr i newid yn haws rhwng darparwyr cyfathrebiadau

Mae prosesau newid effeithiol yn ei gwneud yn haws ac yn fwy hwylus i ddefnyddwyr newid darparwr ac yn rhoi mwy o hyder iddynt wneud hynny. Mae hyn yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom, ac rydym yn parhau i weithio i sicrhau y rhoddir sylw i'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag newid. Cyflwynodd ein penderfyniadau blaenorol un broses newid ar gyfer gwasanaethau band eang a llais sefydlog ar draws rwydweithiau Openreach a KCOM, yn weithredol o fis Mehefin 2015 (tudalen 30)

### Sicrhau hawl defnyddwyr i iawn effeithiol

Gwnaethom gychwyn ymchwiliadau i brosesau delio â chwynion dau gwmni rhwydwaith symudol mawr. Mae un o'r rhain yn parhau. Arweiniodd y llall at Ofcom yn gosod cosb ariannol (tudalen 35).

### Mynd i'r afael â phroblem galwadau niwsans a chamwerthu

Gwnaethom barhau â'n rhaglen waith helaeth i ddiogelu defnyddwyr rhag galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael a hefyd cam-werthu gwasanaethau ffôn llinell sefydlog (tudalennau 35 a 36).







### Diogelu defnyddwyr rhag biliau annisgwyl o uchel

Mae canran y defnyddwyr sy'n wynebu biliau annisgwyl o uchel yn parhau i leihau. Gwnaethom gefnogi gwaith y llywodraeth yn cyflwyno terfyn atebolrwydd ar gyfer ffonau sy'n cael eu colli neu eu dwyn (tudalen 36).

### Trwyddedu teledu lleol

Gwnaethom drwyddedu 8 gorsaf teledu lleol newydd yn ystod y flwyddyn. Roedd oddeutu 34 trwydded (25 flwyddyn yn ôl) wedi cael eu dyfarnu erbyn diwedd mis Mawrth 2015, ac roedd 18 gorsaf deledu lleol ar yr awyr (tudalen 40).


### Diogelu plant a thrais cyn y trothwy

Gwnaethom weithredu yn erbyn sianeli am ddarlledu rhaglenni teledu a oedd yn anaddas i blant cyn y trothwy a gwnaethom gyhoeddi ymchwil ar agweddau defnyddwyr tuag at drais a ddangosir ar y teledu (tudalen 40).

### Adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau dros dro ar berfformiad y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus gan edrych hefyd ar ffyrdd posibl o'i gynnal a'i gryfhau i'r dyfodol (tudalen 41).

# Edrych ymlaen at 2015/16



Gwnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2015/16 ym mis Mawrth eleni. Roedd y ddogfen hon yn nodi'r holl waith y byddwn yn ymgymryd ag ef eleni.

Roedd hefyd yn darparu rhestr o flaenoriaethau y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn benodol dros y 12 mis nesaf. Darperir crynodeb byr o bob blaenoriaeth isod.

### Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol

Ym mis Mawrth 2015 cyhoeddasom adolygiad trosfwaol o farchnad cyfathrebiadau digidol y DU, i sicrhau bod gwasanaethau a darparwyr cyfathrebiadau'n parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr a busnesau. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn y Cylch Gorchwyl[1].

[1] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/telecoms/policy/digital-comms-review/DCR_Terms_of_reference_12_March_2015.pdf

### Sicrhau cystadleuaeth effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebiadau ar gyfer busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBaCh)

Rydym wedi cwblhau ein hasesiad cychwynnol o ganlyniadau'r farchnad ar gyfer BBaCh. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn dilyn cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a bennwyd. Mae hyn yn cynnwys gweithio tuag at gynnwys cynnyrch band eang busnes yn y Cod Ymarfer ar Gyflymderau Band Eang, ehangu ein porth busnes i helpu BBaCh i lywio drwy'r farchnad yn well ac ymgysylltu â'r Llywodraeth i helpu i sicrhau bod BBaCh yn gallu elwa o fand eang symudol. Byddwn hefyd yn cwblhau'r adolygiad o'r farchnad cysylltedd busnes, sy'n ymdrin â chynnyrch busnes llinellau ar brydles.

### Gwella'r broses o newid darparwyr ar gyfer defnyddwyr

Byddwn yn cwblhau ein gwaith yn rhoi trefniadau newid symlach ar waith ar gyfer 'newid sy'n cael ei arwain gan y darparwr sy'n ennill y cwsmer' ar gyfer llinellau lle mae'r ddau barti'n defnyddio rhwydweithiau copr BT neu KCOM. Rydym yn awyddus i sicrhau bod newid ar gyfer gwasanaethau ffôn symudol a gwasanaethau wedi'u bwndelu mor hawdd â phosibl i'r defnyddiwr. Byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar newid ym maes gwasanaethau symudol yn ddiweddarach yn yr haf a byddwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio gwasanaethau symudol a gwasanaethau wedi'u bwndelu, fel y bo'n briodol, yn ddiweddarach yn 2015.

### Monitro a sicrhau gwell perfformiad o ran ansawdd gwasanaeth a gwasanaeth i gwsmeriaid

Ym mis Gorffennaf 2014, gwnaethom osod safonau sylfaenol newydd ar Openreach, ac rydym yn monitro ei berfformiad yn erbyn ei rwymedigaethau yng nghyswllt gosod ac atgyweirio llinellau sefydlog. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith ar drefniadau gwneud iawn i ddefnyddwyr ar gyfer oedi wrth osod a thrwsio namau ar linellau sefydlog, er mwyn gwella profiad y defnyddiwr yn y maes hwn a thryloywder trefniadau darparwyr cyfathrebiadau lle y mae angen gwneud hyn.



## Diogelu defnyddwyr rhag niwed mewn amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys galwadau niwsans

Byddwn yn gweithredu yn erbyn galwadau niwsans drwy gyfrwng ein cynllun gweithredu ar y cyd gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae ein blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu[2] hwn yn cynnwys parhau â'n gwaith gorfodi wedi'i dargedu, gwella'n ffordd o ddod o hyd i'r rhai sydd y tu ôl i alwadau niwsans, gweithio gyda'r Llywodraeth a chyrff eraill i sicrhau y gweithredir yn gydgysylltiedig a gwella gwybodaeth i ddefnyddwyr. Byddwn hefyd yn parhau i ymchwilio i achosion o gam-werthu yn y sector.

## Adolygu'r ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol

Rydym yn cynnal adolygiad eang o'r ffactorau a allai gael effaith sylweddol ar allu'r Post Brenhinol i gynnig y gwasanaeth post cyffredinol yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad hwn yn delio â datblygiadau yn y farchnad parseli, safle'r Post Brenhinol yn y farchnad hon, a faint o welliannau o ran effeithlonrwydd y byddai'n dderbyniol disgwyl i'r Post Brenhinol eu cyflawni.

## Hyrwyddo darpariaeth well o ran gwasanaethau sefydlog a symudol i ddefnyddwyr preswyl a busnes

Byddwn yn datblygu dull gweithredu cyson ar gyfer adrodd am ddarpariaeth ac ansawdd y profiad o wasanaethau symudol sy'n adlewyrchu profiadau gwirioneddol defnyddwyr, a byddwn yn cyhoeddi metrigau sy'n benodol i gwmni i lywio'r dewisiadau sydd ar gael i ddefnyddwyr. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau band eang digon cyflym i ateb gofynion defnyddwyr yr oes sydd ohoni. Yn yr Adroddiad Seilwaith, nodwyd mai oddeutu 10Mbit yr eiliad y mae llawer o ddefnyddwyr yn ei gael ar hyn o bryd.

## Gweithio tuag at sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ryddhau'n brydlon a'i ddyfarnu'n effeithiol, gan gynnwys y bandiau 2.3GHz, 3.4GHz a 700MHz

Ein gobaith yw dyfarnu 190 MHz o sbectrwm yn y bandiau 2.3GHz a 3.4GHz yn ystod 2015/16, a byddwn yn gweithio i sicrhau y bydd y band 700MHz ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer data symudol erbyn 2022 (neu cyn hynny os oes modd).

## Cynrychioli safbwynt y DU mewn trafodaethau rhyngwladol ar ddefnyddio sbectrwm

Mae Ofcom yn cynrychioli'r DU mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm, gan gynnwys Cynadleddau Radiogyfathrebu'r Byd. Mae'r cynadleddau hyn yn cael eu cynnal bob ryw bedair blynedd ac maent yn datblygu cytundebau rhanbarthol a byd-eang ar y defnydd o sbectrwm. Bydd Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd nesaf yn cael ei chynnal am bedair wythnos ym mis Tachwedd 2015. Cyn y gynhadledd, mae Ofcom yn ymgysylltu â'r Llywodraeth a rhanddeiliaid i sicrhau bod safbwyntiau a barn y DU yn cael eu datblygu'n effeithiol yn unol â pholisïau a blaenoriaethau'r DU.

## Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau traddodiadol ac amgylcheddau ar-lein

Yn 2015/16 byddwn yn ymgymryd â sawl darn o waith i sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu trwyddedu'n cydymffurfio â'n rheolau. Er enghraifft, byddwn yn gwneud mwy o waith i fonitro'r gwaith gorfodi yn erbyn cynnwys teledu sy'n torri'r Cod Darlledu. Byddwn hefyd yn parhau i hybu diogelwch a gwarchodaeth plant ar-lein.

Ochr yn ochr â'r blaenoriaethau hyn, byddwn yn parhau i gynnal amrywiaeth o waith pwysig arall. Mae hyn yn cynnwys ein gweithgareddau gorfodi yn erbyn achosion o niwed i ddefnyddwyr neu ymddygiad gwrthgystadleuol, yn ogystal â'n gwaith i gwblhau'r trydydd adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Ceir y manylion llawn yn ein Cynllun Blynyddol: http://www.ofcom.org.uk/about/annual-reports-and-plans/annual-plans/annual-plan-2015-16/

Mae tabl yn nodi ein prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd ar gael ar dudalennau 44 a 45.

[2] http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/silent-calls/joint-action-plan/

# Adroddiad y Prif Weithredwr

## Sharon White




Mewn cabinet gwydr yn Amgueddfa Wyddoniaeth Llundain mae un o eiconau'r sector cyfathrebiadau.

Mae'n ffôn symudol arian trwm braidd gyda sgrin fach, un o'r dyfeisiau 3G cyntaf erioed, o'r flwyddyn 2005 fwy neu lai.

Ddegawd yn ddiweddarach a ffonau clyfar 4G llawer mwy pwerus a soffistigedig ym mhocedi pobl, mae'r darn yn yr amgueddfa yn hynodbeth, symbol o oes a fu.

Mae newid cyflym yn un o nodweddion cyson y maes cyfathrebiadau. Mae cyflymderau band eang sefydlog a symudol ar gyfartaledd wedi codi i lefelau nad oedd modd eu dychmygu ddegawd yn ôl. Mae'r DU ar y brig bellach ar gyfer darpariaeth symudol o'i gymharu â gwledydd yr EU5. Rydym yn elwa ar rai o'r prisiau isaf ar gyfer band eang llinell sefydlog a symudol, sydd wedi disgyn mewn termau real dros y ddegawd. Ac mae buddsoddi mewn gwasanaethau newydd fel band eang cyflym iawn a 4G a'u cyflwyno, yn cyflymu.

Mae'r manteision hyn wedi'u hategu gan fframwaith reoleiddio clir Ofcom, sydd wedi esblygu dros y blynyddoedd.

Ond i sicrhau bod y farchnad yn aros yn gystadleuol, bod cwmnïau'n buddsoddi ac yn gwasanaethu buddiannau defnyddwyr a busnesau, rydym wedi lansio adolygiad strategol sylweddol o gyfathrebiadau digidol. Ymunais ag Ofcom ar ddiwedd y cyfnod sy'n cael sylw yn yr Adroddiad Blynyddol hwn a'r adolygiad strategol hwn fydd un o'm prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, a'r un cyntaf.

Mae edrych yn ôl ar yr hyn y mae Ofcom wedi'i gyflawni dan arweiniad Ed Richards dros y 12 mis diwethaf yn fy atgoffa o'r fath fraint yw dod yn Brif Weithredwr.

### Cystadleuaeth a buddsoddi

Rydym wedi dal ati i sicrhau y ceir buddsoddi a chystadleuaeth effeithiol yn y sector cyfathrebiadau, sy'n helpu i ddarparu dewis, arloesedd a phrisiau is.

Yn 2014/15, cwblhaodd Ofcom nifer o adolygiadau i fand eang safonol a chyflym iawn i roi hyblygrwydd i gwmnïau fel BT bennu eu prisiau ond gan adael i gystadleuaeth ddatblygu hefyd. Mae tudalen 22 yr adroddiad hwn yn disgrifio'r gwaith hwn yn fanylach.

Nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith bod Virgin Media, BT, Sky a TalkTalk, yn ogystal â nifer o gwmnïau llai, yn yr un flwyddyn wedi cyhoeddi cynlluniau i fuddsoddi mewn seilwaith rhwydweithiau.

Rhan yn unig o'r darlun yw band eang sefydlog. I ateb y galw cyson am wasanaethau symudol, rydym yn canolbwyntio ar ryddhau sbectrwm a gwneud mwy o ddefnydd ohono, y deunydd crai sy'n sail i bob gwasanaeth diwifr.

Yn 2014/15, gwnaethom ragor o gynnydd i gynnal arwerthiant o ddau ddarn o sbectrwm yn ystod y deuddeng mis nesaf. Yn ogystal, rydym wedi dechrau paratoi ar gyfer rhyddhau darn mawr arall o sbectrwm gwerthfawr yn ystod y degawd nesaf. Ac rydym wedi cynnal treialon arloesol o dechnolegau 'mannau gwyn' newydd er mwyn gwneud mwy o ddefnydd a defnydd mwy effeithlon o'r sbectrwm presennol drwy rannu.

### Gwasanaeth ac ansawdd

Ni ellir dibynnu ar gystadleuaeth a buddsoddiad yn unig i lwyr wasanaethu buddiannau defnyddwyr a busnesau sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Lle y ceir tystiolaeth o broblemau neu gyfleoedd, mae Ofcom yn targedu ei waith rheoleiddio er mwyn gwella gwasanaethau.

Yn 2014/15 rhoesom ofynion newydd ar Openreach sy'n rheoli'r mynediad i rwydwaith ffôn BT. Roedd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i Openreach wella'r amseroedd aros ar gyfer gosod llinellau sefydlog a band eang newydd a gwaith atgyweirio.

Rydym wedi'i gwneud yn haws i gwsmeriaid llinell sefydlog a band eang ar rwydwaith Openreach newid darparwr. Am y tro cyntaf, mae hyn yn rhoi'r broses drosglwyddo yn nwylo'r cwmni y mae'r cwsmer yn symud ato. Un ffocws yn 2015/16 fydd ystyried cyflwyno'r egwyddor o newid 'dan arweiniad y darparwr sy'n ennill' y cwsmer' ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau eraill.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau cytundeb gyda'r cwmnïau symudol i ymestyn gwasanaethau llais a thestun i'r rhannau hynny o'r wlad lle y mae'r ddarpariaeth yn wael ar hyn o bryd. Gyda gwaith Ofcom i sicrhau darpariaeth 4G eang, bydd hyn yn golygu y bydd mwyafrif y DU erbyn diwedd 2017 yn cael gwasanaeth da gan wasanaethau llais symudol, testun a data cyflym.




Yn y gwasanaethau post - sy'n hanfodol i ddefnyddwyr ac economi'r DU ill dau - gwnaethom gynnal adolygiad i effaith cystadleuaeth ar ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gasglu a dosbarthu llythyrau i bob cyfeiriad yn y DU chwe diwrnod yr wythnos am bris fforddiadwy ac unffurf yn ddaearyddol. Daethom i'r casgliad nad yw'r gwasanaeth cyffredinol dan fygythiad ar hyn o bryd. Ond byddwn yn parhau i adolygu a monitro'r gwasanaeth yn ofalus yn 2015/16 ac mae gennym bwerau i gamu i mewn yn gyflym os bydd raid.

Maes ffocws penodol arall yw busnesau bach a chanolig (BBaCh), sy'n dibynnu'n drwm ar wasanaethau cyfathrebu. Yn 2014/15, gwnaethom lansio cynllun BBaCh, i helpu i sicrhau bod busnesau bach yn cael eu gwasanaethu'n effeithiol gan gystadleuaeth yn y sector cyfathrebiadau. Ar y cyd â hyn, gwnaethom lansio porth ar-lein sy'n cynnwys cyngor wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer BBaCh ar ddewis darparwr newydd a gwybodaeth ar negodi contractau telegyfathrebiadau. Mae ein gwaith ar BBaCh yn parhau yn 2015/16.

## Gwybodaeth i ddefnyddwyr

I wneud dewisiadau gwybodus am ba wasanaeth a chyflenwr i'w ddewis, mae defnyddwyr angen gwybodaeth a chyngor diduedd o safon uchel.

Yn 2014/15 gwnaethom gyhoeddi ymchwil manwl i gyflymderau band eang sefydlog y gall cwsmeriaid ddisgwyl eu derbyn gan bob cwmni. Mae'r ymchwil yn dangos bod cyflymderau'n parhau i godi, gyda'r cyflymder sydd ar gael yn 22.8 bit yr eiliad ar gyfartaledd.

Rydym yn awr wedi ymestyn ein hymchwil i gwmpasu symudol, ac yn 2014/15 gwnaethom gyhoeddi adroddiadau ar ansawdd y gwasanaeth yn ogystal ag ymchwil i berfformiad 4G.

Mae ein tablau cynghrair rheolaidd o gwynion cwsmeriaid yn annog darparwyr i wella'u gwasanaeth i gwsmeriaid. Gwnaethom barhau i gyhoeddi a hyrwyddo canllawiau sut-mae-gwneud newydd sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd, yn arbennig ar-lein.

Yn ystod y flwyddyn lansiwyd ymgyrch gwybodaeth i ddefnyddwyr gennym, UK Calling, i sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod am y newidiadau ym mhrisiau rhifau ffôn yn dechrau ag 08, 09 ac 118. O 1 Gorffennaf 2015 ymlaen, bydd hyn yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddeall costau deialu'r rhifau hyn.



## Diogelu defnyddwyr

Gyda'i gilydd, mae cystadleuaeth, rheoleiddio wedi'i dargedu a gwybodaeth glir fel arfer yn arwain at ganlyniadau da i ddefnyddwyr. Ond weithiau, mae angen i Ofcom gymryd camau gorfodi pan nad yw buddiannau defnyddwyr yn cael eu bodloni.

Yn 2014/15, ymchwiliodd Ofcom i BT a'u dirwyo am oedi cyn cyflwyno'r gwasanaeth cyfnewid testun y genhedlaeth nesaf, gwasanaeth cyfathrebu wedi'i uwchraddio i bobl fyddar neu bobl â nam ar eu lleferydd.

Gwnaethom gychwyn dau ymchwiliad ar wahân i gwmnïau i ganfod a oeddynt yn cydymffurfio â'r rheolau ar ddelio â chwynion. Dirwyodd Ofcom Hutchison 3G am beidio â chydymffurfio ac mae'r ymchwiliad arall i EE yn parhau.

Mae Ofcom wedi ymrwymo i ddiogelu defnyddwyr rhag camwerthu, a dirwyodd gwmni am drosglwyddo cwsmeriaid heb eu caniatâd.
Mae ail ymchwiliad yn parhau.

Gan weithio ochr yn ochr â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae Ofcom wedi parhau â'i waith i ymchwilio i broblem galwadau ffôn mud a galwadau sy'n cael eu gadael.

Mae manylion gwaith Ofcom yn cefnogi defnyddwyr ar gael ar dudalen 34 yr adroddiad hwn.





## Diogelu cynulleidfaoedd

Un o nodweddion cydgyfeiriant yw fod y llinellau rhwng teledu 'unionlin' traddodiadol a'r rhyngrwyd yn cymylu. Er bod hyn yn dod â manteision i ddefnyddwyr, mae hefyd yn creu risgiau gan fod cynnwys rhyngrwyd nad yw wedi'i reoleiddio ar gael fwyfwy ar setiau teledu cysylltiedig modern yn yr ystafell fyw.

Yn 2014/15, parhaodd Ofcom i weithio gyda Llywodraeth y DU a rheoleiddwyr eraill a'r diwydiant i ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer safonau'r cyfryngau. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2015/16.

Hefyd yn 2014/15, bu Ofcom yn gweithio gyda'r Awdurdod ar gyfer Teledu ar Alwad i weithredu deddfwriaeth newydd i roi mwy o ddiogelwch i bobl ifanc dan 18 oed rhag cynnwys anaddas.

Ar ben hynny, cyflwynodd Ofcom dri adroddiad i Lywodraeth y DU ar fesurau diogelwch ar y rhyngrwyd i ddiogelu plant.

Yn erbyn y gwaith hwn ar gyfer y dyfodol, gorfododd Ofcom safonau darlledu llym ar deledu a radio, gan roi dirwyon pan oedd hynny'n ofynnol. Mae tudalen 40 yr adroddiad hwn yn trafod hyn yn fanylach.

## Lleihau costau

Mae un gweithgaredd wedi cael ei gyflawni'n gyson yn ystod holl flynyddoedd bodolaeth Ofcom: sicrhau arbedion effeithlonrwydd ledled y sefydliad heb leihau effeithiolrwydd.

Ers ei flwyddyn gyntaf, mae Ofcom wedi lleihau ei gyllideb mewn termau real bob blwyddyn, er ei fod hefyd wedi ysgwyddo cyfrifoldebau rheoleiddio newydd. Gan gynnal y momentwm hwn, £114.3m yw'r gyllideb ar gyfer 2015/16 gostyngiad 3.4% mewn termau real ar gyllideb y flwyddyn sy'n cael ei hadolygu.

Nid dim ond ar y cam cyllidebu y mae arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwneud; rydym yn ceisio bod yn fwy effeithlon gydol y flwyddyn. £117m oedd cyllideb Ofcom ar gyfer 2014/15. Yr alldro archwiliedig am y flwyddyn oedd £110.7m, gydag arbedion wedi'u gwneud o fod yn fwy effeithlon, rhywfaint o oedi yn recriwtio staff, blaenoriaethu gweithgareddau ac ail-amserlennu rhai gweithgareddau. Mae adran Adolygiad Ariannol yr adroddiad hwn, sy'n dechrau ar dudalen 46, yn rhoi rhagor o fanylion am gyllideb Ofcom.

## Y rhaglen waith ar gyfer 2015/16

Bydd cyllideb Ofcom yn cael ei defnyddio i gyflawni ein rhaglen gwaith mewn sawl maes pwysig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sicrhau bod cyfathrebiadau'n parhau i ddiwallu gofynion defnyddwyr a busnesau;
- diwallu anghenion busnesau bach a chanolig;
- diogelu defnyddwyr rhag niwed;
- hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael; a
- mynd i'r afael â'r galw cynyddol am sbectrwm.

Mae adran Edrych Ymlaen i 2015/16 yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 10 yn rhoi crynodeb o'n blaenoriaethau ar gyfer 2015/16 a dolen hefyd i'n Cynllun Blynyddol ar gyfer 2015/16, sy'n nodi'r rhain mewn mwy o fanylder.

Yn ogystal â'n rhaglen sydd wedi'i chynllunio, bydd Ofcom yn rhoi cyngor i'r awdurdodau cystadleuaeth perthnasol ar y cynlluniau arfaethedig i uno yn ein sector. Mae'n rhy gynnar datgan beth fydd ein cyngor manwl. Ond mae un peth yn sicr: rhaid i'r holl gynlluniau uno arfaethedig gael eu hystyried o safbwynt defnyddwyr i sicrhau y bydd defnyddwyry yn parhau dderbyn manteision dewis, prisiau cystadleuol ac arloesi, holl nodweddion y degawd diwethaf.

I gloi, hoffwn ddiolch i Ed Richards, a roddodd y gorau i fod yn Brif Weithredwr ym mis Rhagfyr 2014. Fel y dywed Patricia yn ei chyflwyniad, mae arweiniad Ed dros yr wyth mlynedd diwethaf wedi bod yn wych; mae'r gwaith a ddisgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn a'r manteision cadarnhaol i ddefnyddwyr yr ydym yn eu mwynhau heddiw yn brawf o hynny. Rwy'n gobeithio adeiladu ar y llwyddiant hwn yn fy mlwyddyn gyntaf fel Prif Weithredwr Ofcom yn 2015/16.



**Sharon White**
Prif Weithredwr











# Trosolwg o'r sector cyfathrebiadau

Mae gan Ofcom ymrwymiad i gynnal a chyhoeddi ymchwil marchnad ac ymchwil defnyddwyr a fydd yn sail i'n gwaith.

Mae'r ymchwil hwn yn rhychwantu ystod eang o fertigau sy'n edrych ar y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaethau ac yn eu defnyddio, a bodlonrwydd pobl, sy'n dal yn uchel yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio.

## Teledu

**Gwylio teledu** (munudau yr unigolyn y diwrnod)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 242 | 242 | 232 | ▼ 220 |

**Nifer â phecyn amlsianel** (% yr holl gartrefi)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 94% | 96% | 95% | ▼ 93% |

**Bodlonrwydd â gwasanaeth teledu digidol**

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 90% | 90% | 91% | ▲ 92% |

## Radio

**Gwrando ar y radio** (y pen y diwrnod mewn munudau)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 175 | 170 | 166 | ▼ 164 |

**Nifer â radio digidol**

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 40% | 42% | 46% | ▲ 49% |

**Nodyn –** wrth i wybodaeth newydd ddod i law, mae ffigurau blynyddoedd blaenorol yn cael eu hailddatgan ac efallai na fyddant yr un fath â'r ffigurau mewn adroddiadau cynharach

## Symudol

**Nifer â ffonau symudol** (% oedolion)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 91% | 91% | 92% | ▲ 93% |

**Nifer â ffonau clyfar** (% oedolion)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 40% | 50% | 51% | ▲ 61% |

**Defnydd symudol** (mewn biliwn munud)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 131 | 132 | 134 | ▲ 137 |

**Bodlonrwydd**

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 89% | 89% | 94% | ▼ 93% |

**Nifer yn defnyddio data symudol** (% oedolion)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 38% | 42% | 49% | ▲ 57% |

## Ffôn llinell sefydlog

**Nifer** (% y cartrefi)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 86% | 84% | 84% | 84% |

**Defnydd** (mewn biliwn munud)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 116 | 109 | 92 | ▼ 80 |

**Bodlonrwydd**

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 89% | 89% | 90% | ▼ 89% |

## Y rhyngrwyd

**Nifer â band eang** (% cartrefi)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 76% | 75% | 75% | ▲ 77% |

**Cyflymderau band eang cyfartalog** (mewn Mbit/s) ar gyfer mis Tachwedd 2014

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 7.6 | 12 | 17.8 | ▲ 22.8 |

**Defnyddio'r Rhyngrwyd ar gyfrifiadur** (average hours per person per month on PC in hours)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 31.5 | 34.7 | 34.2 | ▼ 29.8 |

**Bodlonrwydd â gwasanaeth band eang sefydlog**

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 86% | 87% | 88% | 88% |

**Nifer â band eang cyflym iawn preswyl yn y DU** (30 Mbit/s a mwy)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 5% | 13% | 23% | ▲ 30% |

## Post

**Defnydd** (nifer yr eitemau llythyr â chyfeiriad mewn biliynau)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| 14.6 | 13.5 | 12.8 | 12.6% |

**Value of UK e-retail market** (in £bn)

| 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| n/a | 88 | 89 | ▼ 88% |

# Y cynnydd sydd wedi'i wneud yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol

## Prif ddyletswydd Ofcom yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle y bo hynny'n briodol.



Mae'r brif ddyletswydd hon wedi'i hymgorffori yn ein pum diben strategol, ac o dan y rheini roedd gennym 9 blaenoriaeth yn 2014/15.

Yn y tabl ar dudalennau 18 i 21, ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, rydym wedi rhoi statws i bedwar asesiad o gynnydd. Mae'r ddau asesiad cyntaf yn canolbwyntio ar effaith uniongyrchol gweithredoedd Ofcom. Mae'r trydydd a'r pedwerydd yn canolbwyntio ar y canlyniadau i ddefnyddwyr a dinasyddion, ac fel arfer bydd yn cymryd mwy o amser i sylwi arnynt. Maent yn dibynnu nid yn unig ar weithredoedd Ofcom, ond hefyd ar weithredoedd llawer o gyfranogwyr eraill yn y marchnadoedd a'r diwydiant.

O ran ein dau asesiad cyntaf, rydym yn ystyried a ydym wedi cyflawni'r gwaith y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yng Nghynllun Blynyddol 2014/15, ac a yw ein gweithredoedd wedi galluogi neu wedi hwyluso'r gwaith o gyflawni'r canlyniad interim a therfynol gan gyfranogwyr yn y farchnad, ac ar eu cyfer.

Rydym yn gofyn:

- Ydyn ni wedi gwneud yr hyn roedden ni wedi'i ddweud y bydden ni'n ei wneud?
- A fu hynny mor effeithiol ag yr oeddem wedi'i fwriadu?

Mae ein trydydd a phedwerydd asesiad yn ystyried beth ydym yn disgwyl fydd yn digwydd fel canlyniad terfynol ein gweithredoedd a'n penderfyniadau. Canlyniadau interim yw digwyddiadau yn y farchnad sy'n deillio o benderfyniad a wneir gan Ofcom, er enghraifft, galluogi trydydd partïon i gael mynediad at rwydwaith neu wasanaeth penodol a ddefnyddir ganddynt i gynnig gwasanaeth i gwsmeriaid, gan gynyddu cystadleuaeth a dewis mewn marchnad. Mae canlyniadau terfynol yn disgrifio'r buddion ehangach i ddinasyddion a defnyddwyr gan gynnwys, er enghraifft, defnyddiwr yn gallu dewis o amrywiaeth o gynigion adwerthu cystadleuol ac arloesol ond hefyd yn gallu manteisio ar ansawdd gwasanaeth gwell, prisiau is ac argaeledd eang.

Rydym yn gofyn:

- Pa gynnydd rydyn ni wedi'i wneud yn cyflawni'r canlyniad(au) interim?
- Pa gynnydd rydyn ni wedi'i wneud yn cyflawni'r canlyniad(au) terfynol?

Mae rhywfaint o'r gwaith a oedd yn flaenoriaeth inni yn 2014/15 yn dal yn flaenoriaeth ac wedi parhau i 2015/16.

Mae'r colofnau terfynol yn nodi cost wirioneddol y gwaith, rhagolwg o gost y gwaith a chost y gwaith y cyllidebwyd ar ei gyfer:

- Cost y gwaith y cyllidebwyd ar ei gyfer – y gost ddisgwyliedig ar gyfer y gweithgareddau ar 1 Ebrill 2014.
- Rhagolwg canol blwyddyn o gost y gwaith – y rhagolwg ar gyfer y flwyddyn lawn ar 31 Rhagfyr 2014.
- Cost y gwaith a gwblhawyd – cost wirioneddol y gwaith a gwblhawyd hyd at 31 Mawrth 2015.

Mae Ofcom yn ymatebol i faterion newydd, pryderon sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar ddefnyddwyr ledled y DU a cheisiadau newydd gan y llywodraeth. O'r herwydd, gall cynlluniau prosiectau unigol amrywio yn ystod y flwyddyn gyda mwy o adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn rhai meysydd a llai mewn eraill.

| Blaenoriaeth | Beth rydyn ni wedi'i wneud | Ydyn ni wedi gwneud yr hyn roedden ni wedi'i ddweud y bydden ni'n ei wneud? | A fu hynny mor effeithiol ag yr oeddem wedi'i fwriadu? | Canlyniad interim | Canlyniad terfynol | Cost y gwaith y cyllidebwyd ar ei gyfer (£k) | Ail ragolwg o gost y gwaith (£k) | Cost y gwaith a gwblhawyd (£k) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diben craidd: Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus** | | | | | | | | |
| Sicrhau cystadleuaeth a buddsoddiad effeithiol yn y band eang presennol ac mewn band eang cyflym iawn<br>(Gweler tudalen 22) | • Gwnaethom gwblhau ein hadolygiadau o'r marchnadoedd ar gyfer cysylltiadau band eang a llais sefydlog a mynediad band eang cyfanwerthol, gan gyhoeddi ein casgliadau ym mis Mehefin 2014.<br>• Fel rhan o'r adolygiadau hyn o'r farchnad gwnaethom gyflwyno, am y tro cyntaf, safonau ansawdd gwasanaeth sylfaenol ar gyfer gosod llinellau newydd ac atgyweirio llinellau, rheolau tryloywder newydd yn ei gwneud yn ofynnol i BT gyhoeddi ystadegau perfformiad ynghyd â mesurau eraill i fonitro perfformiad BT a sicrhau ei fod yn ymateb i ofynion cwsmeriaid, gofynion sy'n newid.<br>• Gwnaethom ymgynghori ar reol newydd a'i rhoi ar waith a oedd mynnu bod BT yn cynnal bwlch digonol rhwng ei brisiau band eang cyflym iawn cyfanwerthol a manwerthol, i gefnogi cystadleuaeth tra'n cadw cymhelliant BT i fuddsoddi. | ■ | ■ | ■ | ■ | 2,170 | 2,185 | 2,308 |
| | | | | | | Wrth gynllunio'r gwaith hwn, bu inni ystyried y tebygolrwydd o waith ychwanegol ar y bwlch rhwng prisiau band eang cyflym iawn cyfanwerthol a manwerthol ac ar ein fframwaith newydd ar gyfer safonau ansawdd gwasanaeth. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi gallu rheoli cymhlethdodau wrth ddadansoddi'r nifer mawr o ymatebion gan randdeiliaid a chadw'n costau yn eithaf tebyg i'n disgwyliadau. | | |
| **Diben craidd: Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus** | | | | | | | | |
| Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd<br>(Gweler tudalen 31) | • Gwnaethom gyhoeddi ymchwil i berfformiad rhwydweithiau 3G a 4G manwerthol pedwar cwmni rhwydwaith symudol cenedlaethol y DU i helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac i annog darparwyr i wella'u perfformiad. Gwnaethom hefyd gyhoeddi gwybodaeth am ddarpariaeth pob cwmni.<br>• Gwnaethom gyhoeddi ymchwil i brofiad defnyddwyr o alwadau llais symudol a oedd yn cynnwys cymharu llwyddiant galwadau mewn ardaloedd trefol a gwledig.<br>• Gwnaethom barhau i gyhoeddi gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr, gan gynnwys ein hadroddiadau ar berfformiad band eang llinell sefydlog, cwynion gan ddefnyddwyr i Ofcom am wasanaethau teledu drwy dalu a thelegyfathrebiadau, a data blynyddol ar fodlonrwydd cwsmeriaid â gwasanaethau.<br>• Gwnaethom gyhoeddi arweiniad i ddefnyddwyr busnes gan ddarparu gwybodaeth ar wasanaethau cyfathrebu gan gynnwys cyngor ar ddewis a newid darparwr.<br>• Gwnaethom gyhoeddi nifer o ganllawiau i ddefnyddwyr ar wahanol feysydd gan gynnwys galwadau niwsans a chostau galwadau. | ■ | ■ | ■ | ■ | 379 | 1,131 | 1,234 |
| | | | | | | Ar ddechrau 2014/15, nid oedd y prosiect ar gyflymderau band eang symudol wedi'i gwmpasu na'i bennu'n llawn gan fod hwn yn brosiect ymchwil newydd ac arloesol. Bu i newidiadau ym manyleb ein gwaith wrth iddo ddatblygu arwain at yr angen am fwy o adnoddau mewnol a chyfarpar i gyflawni'r prosiect, ynghyd â gwaith maes yn cael ei gyflawni yn hwyrach na'r disgwyl.<br>Gofynnodd y Llywodraeth inni ddarparu cyngor technegol yng nghyswllt gwella'r ddarpariaeth symudol. Fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom gomisiynu mesuriadau technegol ar gyfer y ddarpariaeth symudol a llwyddiant galwadau mewn gwahanol rannau o'r DU. Arweiniodd yr ymchwil hwn at wariant allanol ychwanegol ac at roi mwy o bwysau ar adnoddau mewnol. | | |

| Blaenoriaeth | Beth rydyn ni wedi'i wneud | Ydyn ni wedi gwneud yr hyn roedden ni wedi'i ddweud y bydden ni'n ei wneud? | A fu hynny mor effeithiol ag yr oeddem wedi'i fwriadu? | Canlyniad interim | Canlyniad terfynol | Cost y gwaith y cyllidebwyd ar ei gyfer (£k) | Ail ragolwg o gost y gwaith (£k) | Cost y gwaith a gwblhawyd (£k) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diben craidd: Hybu cystadleuaeth effeithiol a dewis gwybodus** | | | | | | | | |
| Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn ei gwneud yn haws newid rhwng darparwyr cyfathrebiadau.<br>(Gweler tudalen 30) | • Gwnaethom barhau i roi'r prosesau 'newid dan arweiniad y darparwr sy'n ennill y cwsmer' ar waith er mwyn newid rhwng darparwyr llais a band eang ar rwydwaith Openreach. Daeth yn weithredol ym mis Mehefin 2015.<br>• Gwnaethom gyhoeddi Cais am Fewnbwn ar effaith y prosesau newid presennol ar ddefnyddwyr ar gyfer bwndeli gwasanaethau llais, band eang, teledu drwy dalu a symudol.<br>• Gwnaethom ymgynghori ar y broses 'newid dan arweiniad y darparwr sy'n ennill y cwsmer' a chyhoeddi ein penderfyniad i roi'r broses ar waith ar gyfer gwasanaethau llais a band eang ar rwydwaith KCOM. Daeth yn weithredol ym mis Mehefin 2015.<br>• Gwnaethom gyhoeddi gwybodaeth i ddefnyddwyr ar gloi ffonau symudol, sy'n esbonio sut y gall defnyddwyr ddatgloi eu ffonau. | | | | | 862 | 785 | 653 |
| | | | | | | Cafodd ein gwaith ar newid ei ailgwmpasu yn ystod y flwyddyn ac ailosodwyd y blaenoriaethau, a olygodd na chafodd y gwaith a oedd wedi'i gynllunio ar dechrau'r flwyddyn ei ddatblygu. | | |
| **Diben craidd: Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm*** | | | | | | | | |
| Rheoli sbectrwm ac ymyrraeth ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014<br>(Gweler tudalen 28) | • Gwnaethom gyflawni ein holl amcanion a darparu'r gwasanaethau gofynnol i ddefnyddwyr sbectrwm yn y Gemau ac o'u cwmpas.<br>• Cafodd yr holl ofynion sylweddol ar gyfer sbectrwm yn y Gemau eu gyflawni, a gwnaethom ddelio ag ymyrraeth heb i hynny gael effaith sylweddol ar ddefnyddwyr nac ar weithrediad y Gemau yn fwy cyffredinol. | | | | | 748 | 674 | 670 |
| | | | | | | Drwy gynllunio a rheoli'n effeithiol, fe lwyddon ni i gyflawni ein hamcanion ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2014 yn Glasgow o dan y gyllideb. Cawsom bris cystadleuol am lety i staff a rhoeswm batrwm shifftiau ar waith i leihau teithio gan staff. Gwnaethpwyd y gwaith gan gydweithwyr Ofcom lle bo modd, a arweiniodd at arbedion yn erbyn y gyllideb yr oeddem wedi'i phennu ar gyfer staff dros dro. | | |
| Paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz ac ar gyfer y posibilrwydd o newid defnydd y band 700MHz<br>(Gweler tudalen 27) | • Gwnaethom ymgynghori ar ein cynlluniau i ddyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz, a chyhoeddi dadansoddiad pellach mewn perthynas â materion cydfodolaeth dechnegol a datganiad ar effaith y newidiadau ar radio amatur.<br>• Gwnaethom sicrhau'r newidiadau gofynnol i Drwyddedau Radio Amatur ym mis Mawrth 2015.<br>• Disgwyliwn gyhoeddi ein cynlluniau terfynol ar gyfer dyluniad yr arwerthiant yn 2015/16.<br>• Gwnaethom ymgynghori ar fater darparu'r band 700MHz ar gyfer data symudol a hynny erbyn 2022 a chyhoeddi ein penderfyniad ynghylch hynny, a dechrau ar y gwaith o'i roi ar waith. Rhoesom gyngor i'r Llywodraeth am y rhaglen waith gysylltiedig, a chafwyd ymrwymiad i ddarparu arian ar gyfer y rhaglen lawn yng Nghyllideb 2015. Rydym wedi bod yn datblygu prosesau a strwythurau cyflenwi'r rhaglen. | | | | | 1,592 | 1,450 | 1,534 |

* Nid yw'r costau a ariennir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a thrwy'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cynnwys yn y tabl hwn.

| Blaenoriaeth | Beth rydyn ni wedi'i wneud | Ydyn ni wedi gwneud yr hyn roedden ni wedi'i ddweud y bydden ni'n ei wneud? | A fu hynny mor effeithiol ag yr oeddem wedi'i fwriadu? | Canlyniad interim | Canlyniad terfynol | Cost y gwaith y cyllidebwyd ar ei gyfer (£k) | Ail ragolwg o gost y gwaith (£k) | Cost y gwaith a gwblhawyd (£k) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diben craidd: Sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm** | | | | | | | | |
| Galluogi defnyddio dyfeisiau bylchau gwyn ac ymchwilio i gyfleoedd i rannu bandiau ymhellach ac mewn modd priodol<br>(Gweler tudalen 29) | • Cynhalion ni gynllun peilot o'n fframwaith bylchau gwyn teledu, a oedd yn cynnwys rhaglen i brofi cydfodolaeth. Gwnaethom gyhoeddi dau adroddiad ar brofion cydfodolaeth a datganiad yn nodi sut y byddem yn caniatáu i dechnoleg bylchau gwyn ddefnyddio'r band 470 i 790MHz.<br>• Gobeithiwn weithredu ein penderfyniadau er mwyn gallu defnyddio dechnoleg bylchau gwyn yn 2015/16. | | | | | 1,298 | 1,663 | 1,665 |
| | | | | | | Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y gwaith a oedd yn ofynnol i ddatrys problemau cydfodolaeth, gan gynnwys mwy o brofion allanol dros gyfnod hirach. | | |
| **Diben craidd: Hyrwyddo cyfleoedd i gyfranogi** | | | | | | | | |
| Sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn parhau i gael ei ddarparu<br>(Gweler tudalen 26) | • Gwnaethom gynnal adolygiad o gystadleuaeth pen-i-ben o ran gwasanaeth dosbarthu llythyrau, gan ddod i'r casgliad nad oes bygythiad i'r gwasanaeth cyffredinol ac felly nad oes angen cyflwyno rhagor o reoleiddio.<br>• Gwnaethom ymgynghori ar amodau rheoleiddio newydd ar gyfer gwasanaethau mynediad y Post Brenhinol i sicrhau bod prisiau mynediad priodol yn cael eu gosod yn y dyfodol, a byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad ar y mater hwn yn 2015/16.<br>• Gwnaethom gyhoeddi ein trydydd diweddariad monitro blynyddol ar y sector post a oedd yn dangos rhagor o welliant yn sefyllfa ariannol y Post Brenhinol ac yn ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid.<br>• Dechreusom ein hadolygiad o'r rhwymedigaethau rheoleiddio mewn perthynas â delio â chwynion a gwneud iawn yn y farchnad bost. | | | | | 1,213 | 1,938 | 1,911 |
| | | | | | | Mewn ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad a chyflwyniad rheoleiddio gan y Post Brenhinol, gwnaethom ymgymryd â dau brosiect mawr nad oeddem wedi cynllunio ar eu cyfer ar ddechrau'r flwyddyn, y cyntaf ar y rheoliadau sydd ar waith ar gyfer prisio gwasanaethau mynediad y Post Brenhinol a'r ail yn trafod a oedd y gystadleuaeth pen-i-ben o ran y gwasanaeth dosbarthu llythyrau yn fygythiad i'r gwasanaeth cyffredinol. Gwnaethom ariannu'r gwaith hwn drwy ohirio prosiectau eraill ac ailaseinio adnoddau o fannau eraill. | | |
| **Diben craidd: Diogelu defnyddwyr rhag niwed** | | | | | | | | |
| Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder prisiau<br>(Gweler tudalen 24) | • Gwnaethom barhau i roi trefniadau newydd ar waith ar gyfer rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2015, gan gynnwys comisiynu ymgyrch i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr i esbonio'r newidiadau.<br>• Gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad y byddai'r ystod rhifau rhadffon 0500 yn dod i ben yn 2017.<br>• Gwnaethom ymgynghori ar fater yn ymwneud â'r ystod rhifau 03 a chyhoeddi arweiniad yn esbonio nad yw rhannu refeniw yn cael ei ganiatáu gyda'r ystod rhifau 03. | | | | | 655 | 787 | 904 |
| | | | | | | Roedd rhai agweddau ar y prosiect yn fwy cymhleth na'r disgwyl. Gwnaethom gomisiynu ymchwil marchnad ymysg darparwyr gwasanaeth a fydd yn cyfrannu at ein hymgyrch i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr a gweithgareddau ymgysylltu eraill â rhanddeiliaid. | | |

| Blaenoriaeth | Beth rydyn ni wedi'i wneud | Ydyn ni wedi gwneud yr hyn roedden ni wedi'i ddweud y bydden ni'n ei wneud? | A fu hynny mor effeithiol ag yr oeddem wedi'i fwriadu? | Canlyniad interim | Canlyniad terfynol | Cost y gwaith y cyllidebwyd ar ei gyfer (£k) | Ail ragolwg o gost y gwaith (£k) | Cost y gwaith a gwblhawyd (£k) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diben craidd: Cynnal hyder cynulleidfaoedd mewn cynnwys a ddarlledir** | | | | | | | | |
| Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau digidol<br>(Gweler tudalen 32) | • Cwblhawyd ein hadolygiad o'r broses trwyddedu gwasanaethau darlledu ym mis Mawrth 2014 ac rydym yn rhoi ein polisi newydd ar waith ar hyn o bryd.<br>• Gwnaethom gyhoeddi dau adroddiad ar ddiogelwch ar-lein: adroddiad dilynol ar ddulliau rheoli ar gyfer rhieni a chanfyddiadau newydd ar hidlo ar lefel rhwydwaith gan ddarparwyr cyfathrebiadau.<br>• Gwnaethom barhau i weithio gyda'r Llywodraeth a rheoleiddwyr y cyfryngau a'r diwydiant i ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer safonau'r cyfryngau. | ■ (light green) | ■ (light green) | ■ (blue) | ■ (blue) | 239 | 434 | 426 |
| | | | | | | Oherwydd amseriad cais y Llywodraeth i Ofcom ei helpu i ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer safonau yn y cyfryngau, ni chafodd cwmpas y prosiect hwn ei bennu'n llawn tan ar ôl i'r gyllideb gael ei gosod. | | |
| **Diben craidd: Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinir gan y Senedd** | | | | | | | | |
| Diben craidd: Cyfrannu at bolisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd, a'i roi ar waith<br>(Gweler tudalen 25) | • Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth a BEREC (Corff Rheoleiddwyr Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd) i ddadansoddi goblygiadau'r ddeddfwriaeth i'r DU ac i rôl Ofcom ac i roi cyngor ar y rhain. | ■ (dark green) | ■ (orange) | ■ (blue) | ■ (blue) | 160 | 224 | 209 |
| | | | | | | Ni ddaeth y trafodaethau i ben yn ôl y disgwyl yn 2014/15 ac roeddynt yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn. | | |

Noder: Ceir esboniad am benawdau'r colofnau ar dudalen 12. Mae gwerth y gyllideb a'r gwaith a gwblhawyd yn seiliedig ar gostau uniongyrchol gweithgareddau cysylltiedig. Caiff rhanddeiliaid eu bilio yn unol â'n Datganiad am Egwyddorion Codi Ffioedd ac nid ar gost uniongyrchol gweithgarwch yn unig.

**Allwedd:**

■ (light green) Rydym wedi gwneud yr hyn roeddem wedi'i ddweud y byddem yn ei wneud

■ (dark green) Nid yw'r canlyniad wedi'i gyflawni eto, ond mae'n cynlluniau'n mynd rhagddynt yn ôl y disgwyl

■ (orange) Rydym yn dal i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r flaenoriaeth

■ (red) Nid ydym wedi gwneud cymaint o gynnydd ag yr oeddem wedi bwriadu ei wneud

■ (blue) Mae'n rhy gynnar asesu ein cynnydd

# Y cynnydd sydd wedi'i wneud yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol

**Ein nod yw cyflawni'r amcanion ym mlaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol. Mae'r adran hon yn egluro ein perfformiad mewn perthynas â'r blaenoriaethau hynny ac yn rhoi manylion ein hamcanion, pa gamau roeddem wedi'u cymryd a beth oedd y canlyniadau i ddefnyddwyr.**

## Ein hamcan

### Sicrhau cystadleuaeth a buddsoddiad effeithiol yn y band eang presennol ac mewn band eang cyflym iawn

Mae buddsoddiad sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod y degawd diwethaf yn rhwydweithiau band eang y DU. Mae hyn wedi arwain at gystadleuaeth iach, rhagor o ddefnyddwyr yn manteisio ar fand eang a chyflymderau band eang yn cynyddu'n gyson.

Mae mynediad i fand eang yn rhan bwysig o fywyd modern, ac yn ffynhonnell buddsoddiad a thwf economaidd ledled y DU.

Ein nod yw darparu fframwaith rheoleiddio sy'n annog buddsoddiad ac arloesedd ac sy'n arwain at gystadleuaeth mewn band eang cyfredol a band eang cyflym iawn, gan sicrhau bod defnyddwyr yn gallu manteisio ar ddewis o wasanaethau a darparwyr.

Mae'r galw ymysg defnyddwyr am wasanaethau band eang a chyflymderau uwch yn parhau i dyfu. Mae cystadleuaeth effeithiol wedi helpu i gynyddu'r defnydd o fand eang i 73% o adeiladau yn 2014. Ar yr un pryd, mae'r gwaith o gyflwyno a mabwysiadu gwasanaethau band eang cyflym iawn yn parhau ar raddfa gyflym. Mae band eang cyflym iawn ar gael i dros 75% o adeiladau, gydag oddeutu un o bob tri chwsmer band eang yn manteisio ar wasanaeth cyflym iawn.

#### Beth wnaethon ni

Ym mis Mehefin 2014, gwnaethom gyhoeddi casgliadau dau adolygiad mawr yn y maes telegyfathrebu i gefnogi cystadleuaeth a buddsoddiad yn y sector.

Roedd yr adolygiad o'r Farchnad Mynediad Sefydlog a'r Farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol yn cadw sawl elfen o'r dull rheoleiddio blaenorol i gefnogi cystadleuaeth mewn gwasanaethau band eang safonol a chyflym iawn. Yn benodol, er ein bod yn rheoli'r prisiau cyfanwerthol yr oedd BT yn cael eu codi ar gyfer band eang safonol, gwnaethom barhau i roi'r hyblygrwydd i BT osod ei brisiau ei hun ar gyfer gwasanaethau band eang cyflym iawn cyfanwerthol.

Ychwanegwyd rhai gwelliannau pwysig a fyddai o fudd i ddefnyddwyr.

Gwnaethom osod gofynion newydd o ran ansawdd gwasanaeth ar BT yng nghyswllt trwsio namau a gosod llinellau newydd sy'n cefnogi cystadleuaeth ac yn rhoi gwerth i ddefnyddwyr.

I helpu i hyrwyddo cystadleuaeth mewn band eang cyflym iawn, gwnaethom leihau'n sylweddol y pris y mae BT yn ei godi am newid cwsmer rhwng darparwyr cyflym iawn gwahanol. Gwnaethom hefyd leihau isafswm cyfnod y contract cyfanwerthol, o flwyddyn i fis.


Yn dilyn proses ymgynghori ar wahân, ym mis Mawrth 2015 gwnaethom sefydlu rheol newydd a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i BT gynnal bwlch digonol rhwng ei gostau band eang cyflym iawn manwerthol a chyfanwerthol. Mae hyn yn caniatáu i ddarparwyr sy'n cystadlu gystadlu'n broffidiol wrth gyflenwi gwasanaethau band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr, ond gan barhau i roi'r hyblygrwydd i BT osod ei brisiau cyfanwerthol..

Mae busnesau bach a chanolig (BBaCh) yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi. Felly, mae'n bwysig fod ganddynt fynediad at fand eang o safon uchel. Dangosai ein Hadroddiad Seilwaith yn 2014 bod cyfran is o BBaCh yn gallu cael mynediad i fand eang cyflym iawn o'i gymharu ag adeiladau'r DU drwyddi draw. Gwnaethom ofyn i fusnesau bach a darparwyr cyfathrebiadau am eu barn am y gwasanaethau cyfathrebu sydd ar gael i BBaCh, y dewis sydd ar gael a'u hansawdd. Ym mis Mehefin 2015, gwnaethom gyhoeddi adroddiad yn disgrifio'r gwaith ychwanegol y byddwn yn ei wneud yn y maes hwn.

#### Canlyniad

Mae ein penderfyniadau rheoleiddio'n gwella cystadleuaeth mewn gwasanaethau band eang y genhedlaeth bresennol a chyflym iawn. Mae'r manteision yn llifo drwodd i gwsmeriaid - mwy o ddewis, prisiau manwerthol is, a'r gallu i newid yn haws rhwng darparwyr band eang cyflym iawn.

**Ffigur 1: Canran y cartrefi mewn ardaloedd sy'n cael band eang safonol, mynediad y genhedlaeth nesaf a symudol.**




Ffynhonnell: Cerdyn Sgorio Band Eang Ewropeaidd Ofcom, Rhagfyr 2014

Mae cystadleuaeth effeithiol wedi helpu i yrru'r DU i frig gwledydd yr EU5, wrth gymharu gwasanaethau band eang y genhedlaeth bresennol a'r genhedlaeth nesaf (gweler Ffigur 1). Ar yr un pryd, yn ôl ein Cerdyn Sgorio Band Eang Ewropeaidd, adroddiad ar gyfer Llywodraeth y DU ar gynnydd y DU yng nghyswllt band eang, mae defnyddwyr y DU yn parhau i fanteisio ar rai o'r prisiau isaf yn Ewrop ar gyfer band eang llinell sefydlog.

Yn ystod y flwyddyn cynyddodd y nifer sy'n manteisio ar fand eang llinell sefydlog i 23.7 miliwn yn 2014, o'i gymharu â 22.8 miliwn yn 2013. Gyda band eang y genhedlaeth bresennol, aeth nifer y llinellau ffôn wedi'u dadfwndelu dros 10 miliwn ym mis Rhagfyr 2014.

Yn gyffredinol, er bod y nifer sy'n manteisio ar fand eang yn sefydlogi, mae'r farchnad yn parhau i esblygu wrth i wasanaethau band eang cyflym iawn gael eu cyflwyno a'u mabwysiadu. Cynyddodd cyfran y cwsmeriaid band eang sy'n manteisio ar wasanaeth cyflym iawn, sy'n darparu cyflymder o 30 Mbit yr eiliad a mwy, wyth pwynt canran yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i 32% ym mis Tachwedd 2014.

O ganlyniad i fuddsoddi, arloesi a'r nifer cynyddol sy'n mynd am wasanaethau cyflym iawn, mae cyflymderau band eang y DU ar gyfartaledd yn parhau i godi. 22.8 Mbit yr eiliad oedd cyflymder cyfartalog llinellau sefydlog ym mis Tachwedd 2014 o'i gymharu â 17.8 Mbit yr eiliad flwyddyn yn gynharach.

Mae gwaith BT yn cyflwyno band eang cyflym iawn yn fasnachol wedi'i gwblhau fwy neu lai erbyn hyn. Ond mae'r cynnydd ar raglen Broadband Development UK y Llywodraeth yn parhau. Cyflymodd y gwaith yn ystod y flwyddyn, gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cyhoeddi ym mis Chwefror 2015 y gallai dros ddwy filiwn o adeiladau gael mynediad i fand eang cyflym iawn oherwydd prosiectau a gafodd eu cefnogi gan BDUK, a'i fod yn cyrraedd 40,000 o gartrefi a busnesau newydd bob wythnos. Mae'r cynlluniau'n parhau i sicrhau bod y ddarpariaeth band eang cyflym iawn yn 90% erbyn dechrau 2016 a 95% erbyn 2017.

Mae cystadleuaeth o ran cyflenwi gwasanaethau band eang cyflym iawn yn cynyddu. Virgin Media yw'r darparwr mwyaf o hyd o ran band eang cyflym iawn, wedyn BT, tra mae darparwyr eraill yn ffurfio cyfran fach ond cynyddol o'r farchnad gyffredinol.

Yn ystod y flwyddyn, datgelodd sawl cwmni gynlluniau i fuddsoddi mewn seilwaith rhwydwaith. Mae Virgin Media wedi cyhoeddi y bydd yn ymestyn ei rwydwaith cebl i bedair miliwn yn rhagor o gartrefi a busnesau erbyn 2020 ar gost o £3bn. Cyhoeddodd BT ragor o gynlluniau i uwchraddio ei rwydwaith i gynnal cyflymderau o hyd at 500Mbit y eiliad i'r rhan fwyaf o gartrefi.

Mae nifer o ddarparwyr rhwydweithiau llai hefyd yn cyflwyno rhwydweithiau. Mae'r cynlluniau'n cynnwys cynlluniau Cityfibre ar gyfer rhwydweithiau ffibr mewn ail ddinasoedd ledled y DU, gan gynnwys cyd-fenter gyda Sky a TalkTalk i gyflwyno ffibr i'r eiddo (FTTP) yn Efrog, cynlluniau i gynnig ffibr i'r adeilad (FTTB) i flociau fflatiau mewn dinasoedd (gan gynnwys Llundain, Caerdydd, Reading, Bryste, Manceinion, Lerpwl a Leeds) gan Hyperoptic a ffibr i'r eiddo (FTTP) i bentrefi gwledig gan Gigaclear.

Er bod y cynnydd gyda band eang cyflym iawn yn galonogol, rhaid i'r manteision gael eu rhannu'n gyfartal ledled y DU. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod band eang cyflym iawn ar gael mewn mwy o lefydd, yn arbennig mewn cymunedau gwledig, a mannau gwan mewn dinasoedd.

## Ein hamcan

### Diwygio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol i sicrhau tryloywder prisiau

Mae pobl yn defnyddio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol, yn dechrau ag 08, 09 a 118, i gysylltu â llinellau cymorth i gwsmeriaid, i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau fel ymholiadau am rifau ffôn a llinellau cyfradd premiwm.

Canfu ymchwil Ofcom fod pobl sy'n ffonio'n ddryslyd weithiau ynghylch faint mae'n ei gostio i ffonio rhifau gwasanaethau o'r fath, a phwy sy'n cael yr arian. Golyga hyn y gall pobl golli hyder yn y rhifau hyn ac osgoi eu defnyddio.

Rydym eisiau sicrhau bod gwybodaeth glir a dibynadwy wrth law i ddefnyddwyr am gost galwad a phwy sy'n gosodi y tâl.

#### Beth wnaethon ni

Gwnaethom gyhoeddi penderfyniadau ar ddiwedd 2013 wedi'u hanelu at sicrhau bod cost galw busnesau a gwasanaethau yn gliriach i ddefnyddwyr. O fis Gorffennaf 2015, bydd y rhifau rhadffôn (080 ac 116) yn rhad ac am ddim oddi wrth bob ffôn, pa un a yw'n ffôn llinell sefydlog neu symudol. Hefyd, ar gyfer rhifau 084, 087, 09 ac 118, bydd y gost mewn dwy ran: tâl mynediad i'r cwmni ffôn, a thâl gwasanaeth a bennir gan y cwmni sy'n cael ei alw. Golyga hyn y bydd yn defnyddwyr yn gwybod i ble mae eu harian yn mynd.

Ym mis Ionawr 2015, gwnaethom ymuno â diwydiant ffôn y DU i lansio ymgyrch fawr newydd i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr i helpu i esbonio'r newidiadau mwyaf i alwadau ers dros ddegawd. Roedd yr ymgyrch genedlaethol chwe mis, a gafodd ei lansio o dan faner UK Calling, yn cynnwys gwefan




wybodaeth newydd, www.ukcalling.info. Roedd gwybodaeth yn cael ei darparu'n syth i gwsmeriaid llinellau sefydlog a symudol, gan ddefnyddio biliau papur a biliau ar-lein, negeseuon testun, cylchgronau cwsmeriaid, cyfryngau cymdeithasol a siopau'r stryd fawr. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys hysbysebion mewn papurau newydd cenedlaethol, gorsafoedd radio ac ar-lein.

Mae'r newidiadau'n golygu mai cwmnïau ffôn o fis Gorffennaf 2015 fydd yn gyfrifol am osod eu tâl mynediad, dangos yn glir i ddefnyddwyr beth yw'r tâl ar eu biliau ac yn hysbysu cwsmeriaid newydd o'r tâl pa fyddant yn cytuno i gontract. Ar wahân, rhaid i ddarparwr y gwasanaeth - y parti y cysylltir ag ef - nodi ei dâl gwasanaeth pa bryd bynnag y bydd yn hyrwyddo'r rhif ffôn.

Yn dilyn ymgynghoriad ar wahân, canfu Ofcom nad yw'r ystod 0500, sy'n dyblygu nodweddion yr ystod rhadffôn 080 y mae mwy yn ei ddefnyddio a'i ddeall, yn gyfarwydd iawn i ddefnyddwyr a'r defnydd ohono wedi bod yn isel ac yn lleihau. Rydym wedi penderfynu terfynu'r ystod 0500 o 3 Mehefin 2017 gan ddarparu cyfnod pontio tair blynedd i sefydliadau roi gwybod am y newid i bobl sy'n eu galw. I helpu i leihau rhagor ar yr effaith ar y sefydliadau hyn, rydym yn cyflwyno is-ystod newydd ar gyfer rhifau Rhadffôn 080 (080 85) i ddarparu llwybr mudo i ddefnyddwyr presennol yr ystod 0500.

Yn ogystal, gwnaethom benderfynu bod angen rhagor o eglurder ar y cyfyngiadau ar y defnydd o rifau ffôn 03 er mwyn diogelu defnyddwyr, yn benodol bod darparwyr cyfathrebiadau sy'n defnyddio rhifau 03 yn cael eu gwahardd rhag rhannu'r refeniw y maent yn ei dderbyn o alwadau i'w rhifau 03 â'r galwyr.

#### Canlyniad

Bydd ein penderfyniadau ar rifau nad ydynt yn rhai daearyddol nid yn unig yn gwneud prisiau'n fwy tryloyw, ond dylai hefyd wella cystadleuaeth, adfer hyder defnyddwyr mewn rhifau o'r fath fel y bydd mwy yn eu defnyddio.

Bydd defnyddwyr yn elwa'n uniongyrchol wrth i rifau Rhadffôn (0800, 0808 a 116) fod yn ddi-dâl o ffonau symudol, ac yn elwa o roi terfyn ar y tâl gwasanaeth ar gyfer rhifau premiwm (09), ac o well eglurder ar gostau i ffonio'r ystod rhifau 0845.

Trwy derfynu'r ystod 0500 byddwn yn mynd i'r afael â'r niwed i ddefnyddwyr yr ydym wedi'i bennu ar yr ystod hwn - gan gynnwys ymwybyddiaeth a dealltwriaeth wael o rifau 0500 a diffyg effeithlonrwydd yn y defnydd ohonynt, a bydd hefyd yn cyfrannu at ein hamcan o wneud prisiau yn haws eu deall i ddefnyddwyr.

Yn yr un modd, dylai ein hesboniad o rifau 03 atal ymddygiad sy'n niweidiol i ddefnyddwyr a chystadleuaeth. Dylai ein penderfyniad helpu i ddiogelu enw da yr ystod rhifau 03 ymysg defnyddwyr a sefydliadau, gan roi hwb i hyder defnyddwyr nad yw'r sefydliadau sy'n defnyddio'r rhifau hyn yn cael refeniw o gost cael eu galw.





## Ein hamcan

### Sicrhau bod cynigion 'Cyfandir Cysylltiedig' yn cael eu cyflwyno mewn modd sy'n gydnaws â buddiannau'r DU

Ym mis Medi 2013, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd reoliad drafft ar gyfer 'Cyfandir Cysylltiedig', gyda'r nod o "gwblhau" y farchnad sengl mewn cyfathrebiadau electronig.

Roedd cynigion deddfwriaethol y Comisiwn mewn perthynas â'r Cyfandir Cysylltiedig yn delio â nifer o feysydd amrywiol, gan gynnwys rheolau ar grwydro symudol rhyngwladol, atebion ar gyfer mynediad cyfanwerthol, rheoli sbectrwm a niwtraliaeth y rhyngrwyd. Dros y 18 mis diwethaf, mae Senedd Ewrop a Chyngor Ewrop wedi bod yn craffu ar y pecyn ac mae wedi cael ei leihau i ddau faes - niwtraliaeth y rhyngrwyd a chrwydro symudol rhyngwladol. Mae'r Rheoliad bellach ar gam terfynol proses ddeddfwriaethol Ewrop.

### Beth wnaethon ni

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymheiriaid Ewropeaidd yn BEREC er mwyn dadansoddi a chynghori'r sefydliadau Ewropeaidd ar effeithiau posibl y cynigion deddfwriaethol. Rydym wedi cyfrannu at ddatganiadau cyhoeddus BEREC ar y ddeddfwriaeth ac wedi darparu ein harbenigedd technegol i Lywodraeth y DU.

O ran crwydro symudol rhyngwladol, rydym wedi cynghori Llywodraeth y DU a sefydliadau'r UE ar yr angen i geisio lleihau'r ystumiadau cystadleuol a allai godi drwy reoliadau prisio newydd, a allai yn y pen draw gael effaith ar ddefnyddwyr y DU.


O ran niwtraliaeth y rhyngrwyd, rydym wedi darparu cyngor i geisio sicrhau y bydd unrhyw reolau a fabwysiedir ar lefel yr UE yn diogelu defnyddwyr, ond eu bod hefyd yn gwarchod yr amgylchedd ffrwythlon ar gyfer twf ac arloesedd y mae'r rhyngrwyd wedi'i ddarparu hyd yma.

Cyhoeddodd y Comisiwn, a gychwynnodd ar ei waith ddiwedd 2014, y ddogfen fapio ar gyfer ei raglen waith yn ystod y gwanwyn, a disgwyliwn iddo gyflwyno cynigion ar gyfer y meysydd polisi sy'n weddill yng nghyd-destun y cynigion deddfwriaethol ar yr Adolygiad o'r Fframwaith, y disgwylir iddo gael ei gynnal yn hanner cyntaf 2016.

### Canlyniad

Rydym yn canolbwyntio ar helpu i sicrhau y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn dod â chanlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion a defnyddwyr y DU.

Mae'r trafodaethau deddfwriaethol yn tynnu at y terfyn, ac mae'r deddfwyr Ewropeaidd (Senedd a Chyngor Ewrop) yn cael trafodaethau ffurfiol i gau'r bylchau rhwng eu safbwyntiau. Mae mabwysiadu'r bil yn flaenoriaeth uchel. Mae'r Comisiwn newydd, ynghyd â Llywyddiaeth Latfia o'r Cyngor, yn gobeithio y caiff y bil ei fabwysiadu erbyn diwedd mis Mehefin 215. Oni ellir cael cytundeb erbyn hynny, disgwylir i'r trafodaethau barhau i gyfnod Llywyddiaeth Lwcsembwrg o'r Cyngor.



## Ein hamcan

### Sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn parhau i gael ei ddarparu

Mae'r sector post yn hanfodol i economi'r DU. Mae defnyddwyr a busnesau'r DU yn elwa ar y 'gwasanaeth post cyffredinol' sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gasglu a danfon llythyrau i bob cyfeiriad yn y DU chwe diwrnod yr wythnos am bris fforddiadwy ac unffurf yn ddaearyddol.

Mae gan gystadleuaeth yn y sector post rôl allweddol yn helpu i sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth post yn elwa o brisiau is, mwy o ddewis ac arloesedd. Ar yr un pryd, mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol. Os credwn fod y gwasanaeth cyffredinol dan fygythiad, mae gennym bwerau i gamu i mewn i ddiogelu anghenion defnyddwyr post y DU.

#### Beth wnaethon ni

Gwnaethom barhau i fonitro agweddau allweddol ar y farchnad bost sy'n effeithio ar y gwasanaeth cyffredinol ac adrodd ar hynny.

Mae hyn yn cynnwys cynaliadwyedd ariannol rhwydwaith y gwasanaeth cyffredinol, perfformiad y Post Brenhinol - yn enwedig ansawdd y gwasanaeth cyffredinol a'i effeithlonrwydd - a lefel ac effaith cystadleuaeth yn y farchnad.

Yn ôl ein trydydd diweddariad monitro blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014, roedd y Post Brenhinol yn parhau i wella ei gynhyrchiant yn raddol, a'i fod wedi lleihau ei gostau ryw ychydig drwy fod yn effeithlon. O'r herwydd, roedd proffidioldeb rhwydwaith y gwasanaeth cyffredinol wedi gwella eto. Gwelsom hefyd fod cystadleuaeth o ran dosbarthu yn y farchnad llythyrau yn dal yn isel (lai nag 1%) a bod niferoedd a refeniw'r Post Brenhinol o ran parseli wedi lleihau oherwydd mwy o gystadleuaeth.

Ym mis Mehefin 2014, cyflwynodd y Post Brenhinol sylwadau ffurfiol i ni ar y bygythiad y mae cystadleuaeth yn y farchnad dosbarthu llythyrau yn uniongyrchol yn ei chael ar y gwasanaeth cyffredinol. Cynhalion ni adolygiad eang i asesu hyn ac ym mis Rhagfyr 2014 gwnaethom esbonio pam nad ydym o'r farn fod y gwasanaeth cyffredinol dan fygythiad ar hyn o bryd.

Rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos ac rydym wedi cyhoeddi cynlluniau i ehangu ein hadolygiad i asesu ffactorau eraill a all effeithio ar y gwasanaeth cyffredinol. Yn benodol, rydym yn edrych ar sut y dylai'r Post Brenhinol allu gwella'i effeithlonrwydd, yn ogystal â datblygiadau yn y farchnad parseli. Rydym yn disgwyl cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn erbyn diwedd 2015/16.

Gyda phost mynediad, mae'r cystadleuwyr yn casglu ac yn didoli'r post, cyn ei drosglwyddo i'r Post Brenhinol a fydd wedyn yn ei ddosbarthu drwy ei rwydwaith ei hun. Yn dilyn pryderon a leisiwyd gan randdeiliaid am brisiau mynediad y Post Brenhinol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, gwnaethom ymgynghori ynghylch newidiadau arfaethedig i reolau prisiau mynediad. Ystyriwyd gennym a allai'r prisiau a oedd yn cael eu cynnig gan y Post Brenhinol fod wedi effeithio'n wael ar gwmnïau sy'n cystadlu â gwasanaethau dosbarthu'r Post Brenhinol. Byddwn yn parhau gyda'r gwaith hwn yn 2015/16 a disgwyliwn ddod i gasgliad ar reoleiddio mynediad eleni.

#### Canlyniad

Mae ein trefn fonitro gynhwysfawr yn helpu i ddiogelu'r gwasanaeth cyffredinol. Os gwelwn fygythiad, mae gennym bwerau i ymyrryd yn sydyn i'w ddiogelu.

Rydym yn monitro sefyllfa ariannol y Post Brenhinol yn gyson ac yn adrodd arno, ynghyd â datblygiadau yn y farchnad, a gweithgareddau cystadleuwyr heddiw ac i'r dyfodol. Drwy hyn rydym yn deall cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol yn iawn.

Canfu ein hadolygiad o effaith cystadleuaeth yn y farchnad dosbarthu llythyrau'n uniongyrchol ar y gwasanaeth cyffredinol fod cystadleuaeth pen-i-ben o'r fath yn annhebygol o fod yn fygythiad i'r gwasanaeth cyffredinol yn y dyfodol agos. Felly, gwnaethom benderfynu peidio â gosod rhagor o amodau ar gystadleuwyr pen-i-ben ond rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus.

Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol ar faterion Busnes, Arloesedd a Sgiliau ganfyddiadau ei ymchwiliad ei hun i gystadleuaeth yn y sector post a'r gwasanaeth cyffredinol. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â'n canfyddiadau ni ein hunain nad yw'r gwasanaeth cyffredinol o dan fygythiad ar hyn o bryd a gwnaeth nifer o argymhellion. Gwnaethom ymateb i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2015.

## Ein hamcan

### Paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz ac ar gyfer y posibilrwydd o newid defnydd y band 700MHz

Mae sbectrwm yn adnodd gwerthfawr y mae pen draw iddo sy'n sail i wasanaethau diwifr yn amrywio o deledu i gyfathrebiadau radio a band eang symudol. Mae galw defnyddwyr am ddata - yn enwedig y rhyngrwyd symudol - yn tyfu'n sydyn. Mae rhagolygon y diwydiant yn awgrymu y gallai'r galw am ddata symudol fod 45 gwaith yn fwy erbyn 2030 nag y mae heddiw.

Bydd darparwyr gwasanaethau symudol angen mynediad i ragor o sbectrwm nag sydd ganddynt ar hyn o bryd er mwyn ateb y galw hwn gan ddefnyddwyr am y rhyngrwyd wrth deithio, ac ar ffonau clyfar a dyfeisiau llechen.

Un o'n rolau craidd yw rheoli'n ofalus y cyflenwad cyfyngedig o sbectrwm a chydbwyso anghenion defnyddwyr gwahanol drwy sicrhau eu bod yn cael mynediad at faint priodol ohono. Mae'n hanfodol fod y tonnau awyr yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn y ffordd orau i alluogi economi ddigidol y DU i ddiwallu anghenion defnyddwyr.

Roedd ein datganiad ar y Strategaeth Data Symudol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014, yn nodi sut y byddwn yn paratoi ar gyfer y gofynion cynyddol a fydd yn cael eu rhoi ar seilwaith diwifr y DU dros y ddau ddegawd nesaf. Mae'n nodi ac yn blaenoriaethu nifer o fandiau sbectrwm, i ystyried sut y byddant yn cael eu defnyddio yn y dyfodol.

#### Beth wnaethon ni

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom gyflawni gwaith o'r fath ar dri band penodol. Mae'r amledd 700MHz yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer teledu daearol digidol (DTT) a 'gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig' (PMSE). Mae'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz ill dau yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Ond maent yn rhan o gynllun gan Lywodraeth y DU i ryddhau o leiaf 500 MHz o sbectrwm sector cyhoeddus o dan 5GHz erbyn 2020.

Ym mis Mai 2014, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar y defnydd o'r band 700MHz yn y dyfodol. Roedd yn cynnwys asesiad manwl o'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â newid posibl yn y defnydd o'r band.

Ochr yn ochr â' hyn, gwnaethom gyhoeddi dogfen drafod ar ddyfodol teledu gwylio am ddim. Roedd hyn yn rhan o'n hymgysylltiad parhaus â'r diwydiant a Llywodraeth y DU ar faterion yn ymwneud â'r llwybr uwchraddio posibl ar gyfer gwasanaethau teledu gwylio am ddim, a dyfodol hirdymor DTT.

Gwnaethom barhau i weithio'n agos gyda'r sector PMSE i ddeall ei anghenion i'r dyfodol. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan y sector PMSE ym mywyd diwylliannol y genedl ac rydym am sicrhau bod digon o sbectrwm amgen o safon uchel ar gael er mwyn i'r gwasanaethau hyn barhau i ffynnu.

Hefyd yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn rhan o drafodaethau rhyngwladol ar gynllunio a chysoni sbectrwm wrth i diriogaethau rhyngwladol eraill barhau i drafod a ddylid defnyddio'r band sbectrwm 700MHz ar gyfer band eang symudol.

Ar wahân, gwnaethom gynllunio'r arwerthiant arfaethedig o 190 MHz o sbectrwm yn y bandiau 2.3GHz a 3.4GHz. Gwnaethom ymgynghori ar y dyfarniad, gan gynnwys materion cystadleuaeth ac amodau trwydded technegol a heb fod yn dechnegol a chyhoeddi diweddariad technegol.

Mae'r arwerthiant wedi'i gynllunio i fod yn deg a thryloyw ac i alluogi'r sbectrwm i gael ei ddyfarnu i'r rheini a fydd yn gallu gwneud y defnydd mwyaf effeithlon ohono ac er budd gorau defnyddwyr.

#### Canlyniad

Ym mis Tachwedd 2014, gwnaethom gyhoeddi cynlluniau i ganiatáu i gwmnïau rhwydweithiau symudol ddarparu band eang symudol dros y band 700MHz, ond gan ddiogelu dyfodol teledu daearol digidol a gwasanaethau PMSE yr un pryd. Gobeithiwn gyflawni hyn erbyn dechrau 2022 ac o bosibl hyd at ddwy flynedd yn gynharach.

Dylai hyn, ynghyd â'n gwaith ar ryddhau'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz, olygu y bydd marchnad band eang symudol cystadleuol, arloesol a deinamig yn parhau i ddatblygu. O ganlyniad, dylai busnesau a defnyddwyr elwa o brisiau is, ansawdd gwasanaeth gwell a chyflymderau rhwydwaith cyflymach.

Mae'n anochel y bydd ein penderfyniad i ryddhau'r amleddau 700MHz ar gyfer band eang symudol yn effeithio ar ddefnyddwyr presennol y band.

Rydym yn cydnabod bod gan DTT rôl hanfodol o hyd yn darparu mynediad cyflawn bron ac am gost isel i'r sianeli gwasanaeth cyhoeddus. Yn bwysig iawn, ni ddylai ein penderfyniad i ryddhau'r amleddau 700MHz ar gyfer band eang symudol achosi fawr o ymyrraeth i wylwyr teledu daearol digidol, a'r unig beth y bydd angen i fwyafrif helaeth y gwylwyr ei wneud fydd ail-diwnio eu cyfarpar presennol.

Yn yr un modd, rydym wedi nodi nifer o fandiau amledd y gallai microffonau diwifr eu defnyddio. Gan weithio'n agos â'r gymuned PMSE, rydym eleni yn bwriadu cadarnhau pa sbectrwm fydd ar gael i'r defnyddwyr hyn.



# Ein hamcan

## Cyflawni gwarant sbectrwm y Llywodraeth ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014

Roedd gan Ofcom ran bwysig yn cyfrannu at sicrhau bod Gemau'r Gymanwlad 2014 yn Glasgow yn llwyddiannus. Ein hamcan oedd cyfrannu at Gemau Gymanwlad diogel a llwyddiannus drwy sicrhau bod sbectrwm digonol ar gael heb gost ychwanegol, a chan amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr presennol. Roedd hyn wedi helpu i gyflenwi gwarantau sbectrwm y Llywodraeth i Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad (CGF).

Roedd pob agwedd ar y Gemau yn gwneud defnydd dwys o sbectrwm gan ddibynnu arno ar gyfer cymwysiadau hanfodol. Roedd yn bwysig bod y cyflenwad cyfyngedig o sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn cael ei ddyrannu'n ofalus, i sicrhau bod yr holl ofynion yn cael eu diwallu. Roeddem yn gyfrifol am ddod o hyd i'r sbectrwm angenrheidiol ar gyfer y Gemau, am sicrhau bod amleddau'n cael eu trwyddedu i'r rheini yr oedd eu hangen arnynt, ac am wneud yn siŵr nad oedd ymyrraeth ar yr amleddau hynny yn ystod y Gemau.

### Beth wnaethon ni

Dros y ddwy flynedd yn arwain at y Gemau, buom yn rheoli prosiect sylweddol o gynllunio, datblygu, profi a gweithredu i wneud yn siŵr fod hyn yn digwydd. Buom yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Trefnu a chyda rhanddeiliaid allweddol fel y prif ddarlledwr, y BBC, Heddlu'r Alban a'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gyflwyno'r cynllun.

Er bod cyfanswm yr aseiniadau'n llawer is nag ar gyfer y Gemau Olympaidd, roedd y digwyddiad yn dal yn gcryn dipyn o her i Ofcom o ran sbectrwm. Yn arbennig, dyma un o'r digwyddiadau mawr cyntaf ers arwerthiant y sbectrwm 4G yn y DU (bandiau amledd 800MHz a 2.6GHz). Hefyd, roedd y Gemau'n cael eu cynnal yng nghanol dinas yn wahanol i'r Gemau Olympaidd a gafodd eu cynnal gan fwyaf ar gyrion Dwyrain Llundain.

Gwnaethom 2,767 o aseiniadau technegol yng nghyswllt sbectrwm ar gyfer cyfnod y Gemau dan delerau'r gwarantau. Er bod cyfanswm yr aseiniadau'n llai na'r nifer adeg Gemau'r Olympaidd, roedd nifer yr aseiniadau mewn rhai bandiau allweddol rywbeth yn debyg.

Cyn y Gemau, gosodwyd rhwydwaith o 20 o synwyryddion gennym ar draws y ddinas i fonitro'r sbectrwm radio yn lleoliadau'r Gemau ac i ganfod unrhyw ffynonellau ymyrraeth yn gyflym. Yn ystod y Gemau, defnyddiwyd 30 peiriannydd arbenigol i helpu i ganfod unrhyw achosion o ymyrraeth ac i ddelio â'r achosion hynny.

### Canlyniad

Roedd paratoi ar gyfer y Gemau a chyflawni ein swyddogaeth yno yn dasg heriol. Bu ein cryfderau ym maes rheoli a darparu sbectrwm yn weithredol o gymorth inni gyflawni ein holl amcanion a darparu'r gwasanaethau gofynnol i ddefnyddwyr sbectrwm yn y Gemau ac o'u cwmpas. Rhoddwyd sylw i wyth achos o ymyrraeth wirioneddol heb i hynny gael effaith sylweddol ar y defnyddwyr nac ar rediad y Gemau'n fwy cyffredinol.



## Ein hamcan

### Galluogi defnyddio dyfeisiau bylchau gwyn ac ymchwilio i gyfleoedd i rannu bandiau ymhellach ac mewn modd priodol

Mae sbectrwm yn adnodd pwysig ond adnodd y mae terfyn iddo. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o ddatgloi ei botensial wrth gydbwyso anghenion defnyddwyr gwahanol, gan sicrhau bod seilwaith di-wifr y DU yn parhau i ddatblygu'n effeithiol ac yn effeithlon. Mewn byd lle mae twf enfawr yn y galw am wasanaethau data gan ddefnyddwyr, mae'n hanfodol ein bod yn dod o hyd i'r ffyrdd mwyaf effeithlon o rannu'r tonnau awyr rydym yn dibynnu arnynt.

Gall technoleg bylchau gwyn fod yn un o ffordd o ddiwallu'r galw hwn. Mae'r dechnoleg hon yn defnyddio bylchau yn y sbectrwm radio sy'n bodoli rhwng bandiau amledd, a elwir yn fylchau gwyn, i gynnig cymwysiadau di-wifr newydd a fydd o fudd i ddefnyddwyr a busnesau.

Mae sbectrwm bylchau gwyn yn y band amledd teledu yn hynod apelgar i'r diwydiant oherwydd gall deithio am bellter hirach ac yn haws drwy waliau o'r gymharu â bandiau a ddefnyddir gan dechnolegau di-wifr eraill.



### Beth wnaethon ni

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r diwydiant i brofi sut y gellid rhoi'r dechnoleg hon ar waith. Rhan allweddol o hyn oedd deall rhannu sbectrwm 'deinamig'. Gyda'r broses hon rhaid i ddyfeisiau bylchau gwyn roi eu lleoliad a gwybodaeth arall mewn cronfa ddata, a all wedyn ddweud a all y ddyfais weithredu heb achosi ymyrraeth i ddefnyddwyr eraill y band sbectrwm.

Cafodd y dechnoleg ei threialu ar draws y wlad gan gynnwys sefydliadau cyhoeddus a phreifat, gan brofi amrywiaeth o gymwysiadau arloesol. Roedd y treialon yn cynnwys mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer llongau a chychod yn Ynysoedd Orkney, ffrydio fideos o anifeiliaid yn ddiwifr yn ZSL, Sŵ Llundain, rhwydweithiau 'peiriant-i-beiriant' newydd ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd yn Swydd Rhydychen a gwasanaethau tebyg i Wi-Fi ym Mhrifysgol Strathclyde.

Gwnaethom gynnal rhaglen helaeth o brofion cydfodolaeth er mwyn cael tystiolaeth o'r cyfyngiadau a fydd yn ofynnol ar derfynau allyriadau dyfeisiau bylchau gwyn i sicrhau na fydd defnyddio bylchau gwyn yn achosi llawer o ymyrraeth niweidiol i ddefnyddwyr teledu daearol digidol a PMSE (gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig).

Arweiniodd ein gwaith at gyhoeddi dau adroddiad technegol a oedd yn archwilio'r profion a gynhaliwyd ar gydfodolaeth rhwng dyfeisiau bylchau gwyn, DTT a PMSE. Ym mis Chwefror 2015, ar ôl cyhoeddi'r adroddiadau hyn, trafodaethau gyda gweithgorau DTT a PMSE, ac ar ôl ystyried y profiad a gafwyd o'r treialon, gwnaethom gyhoeddi rheolau manwl ar y defnydd o fylchau gwyn.

### Canlyniad

Bu ein gwaith yn ystod y flwyddyn o gymorth i osod y sylfeini a fydd yn



galluogi'r diwydiant i ddefnyddio bylchau gwyn teledu. Un rhan allweddol o'r gwaith hwn fu caniatáu i'r tonnau awyr hyn gael eu rhannu a hefyd rheoli'r risg o ymyrraeth ar gyfer y defnyddwyr presennol. Bydd y rhannu'n digwydd yn ddeinamig, yn cael ei reoli drwy gronfeydd data a fydd yn dal gwybodaeth am leoliad defnyddwyr DTT a PMSE a dyfeisiau bylchau gwyn. Dyma'r enghraifft gyntaf o reoli a mynediad sbectrwm deinamig yn y DU.

Ar sail y treialon a gynhaliwyd ac adborth gan randdeiliaid, mae'r diwydiant wedi dangos diddordeb mawr mewn datblygu technoleg bylchau gwyn. Gyda chymorth rhanddeiliaid, rydym yn credu y bydd modd gweithredu'r fframwaith rheoleiddio erbyn diwedd y flwyddyn, a fydd yn caniatáu i gymwysiadau masnachol gael eu lansio wedi hynny.

Mae ein penderfyniadau'n golygu mai'r DU yw'r wlad gyntaf yn Ewrop i ddarparu sbectrwm yn benodol ar gyfer technoleg bylchau gwyn, sy'n rhan fawr o'r hyn sy'n dod i gael ei alw yn 'Rhyngrwyd Pethau', rhwydweithiau o ddyfeisiau'n cyfathrebu â'i gilydd ar-lein. Gallai'r gwasanaethau a'r cymwysiadau hyn gynnig manteision sylweddol i ddinasyddion a defnyddwyr.

Rydym yn parhau i archwilio sut y gallai'r bylchau gwyn mewn bandiau sbectrwm eraill gael eu defnyddio ar gyfer arloesedd o'r fath yn y dyfodol.





## Ein hamcan

### Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn ei gwneud yn haws newid rhwng darparwyr cyfathrebiadau

Mae marchnadoedd cyfathrebiadau'n gweithio'n well i ddefnyddwyr os gallant newid darparwr yn hawdd ac yn gyflym er mwyn gallu manteisio ar gystadleuaeth. Mae hyn yn helpu pobl i brynu'r gwasanaethau sy'n diwallu'u hanghenion hwy orau, neu i newid darparwr os ydynt yn anhapus. Os yw'n anodd newid darparwr, gall hyn gyfyngu ar y dewis i ddefnyddwyr, a gall niweidio cystadleuaeth, buddsoddiad a mynediad i'r farchnad.

Credwn fod newid darparwr yn haws pan all defnyddwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ynghylch newid neu beidio, a chael hyder y bydd y broses newid yn ddidrafferth.

#### Beth wnaethon ni

Dangosodd ein hymchwil y gall prosesau newid lle mae'n rhaid i'r cwsmer gysylltu â'r darparwr y maent yn ei adael fod yn anodd eu dilyn. Does fawr o gymhelliant i'r hen ddarparwr sicrhau bod y gwaith o drosglwyddo i'r darparwr newydd yn digwydd yn ddidrafferth, a gall weithiau roi pwysau diangen ar gwsmeriaid i beidio â gadael.

Gwnaethom geisio mynd i'r afael â'r mater hwn drwy sicrhau mai dim ond un broses newid y mae angen i ddefnyddwyr band eang a llais ar rwydwaith copr BT ei dilyn (proses newid 'dan arweiniad y darparwr sy'n ennill y cwsmer'), gyda'r darparwr newydd yn arwain y gwaith trosglwyddo ar ran y cwsmer.

Ym mis Rhagfyr 2013, ychwanegwyd nifer o fesurau gennym i ddiogelu defnyddwyr yn ystod y broses hon. Roedd y rhain yn cynnwys gweithdrefnau i helpu i atal defnyddwyr rhag colli'u gwasanaeth yn ystod y trosglwyddo, ac i warchod rhag 'slamio', lle mae defnyddiwr yn cael ei drosglwyddo i ddarparwr gwahanol heb roi caniatâd. Buom yn gweithio gyda'r diwydiant a Swyddfa'r Dyfarnwr Telegyfathrebiadau i sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn llawn ym mis Mehefin 2015.

Byddwn yn awr yn canolbwyntio ar brosesau newid sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau eraill. Ym mis Hydref 2014, gwnaethom ymgynghori ynghylch diwygiadau i'r broses newid rhwng darparwyr gwasanaethau llais a band eang ar rwydwaith copr KCOM yn ardal Hull. Ym mis Chwefror 2015, penderfynon ni y dylai'r rhain hefyd gael eu harwain gan y darparwr sy'n ennill y cwsmer, ynghyd â'r un mesurau diogelu defnyddwyr ag a roddwyd ar Openreach. Rhoddwyd y newidiadau hyn hefyd ar waith ym mis Mehefin 2015.

Ym mis Gorffennaf 2014, gwnaethom ofyn am farn er mwyn deall effaith prosesau a ddefnyddir i newid bwndeli gwasanaethau llais sefydlog, band eang a theledu drwy dalu rhwng darparwyr ar rwydweithiau lloeren Sky, cebl Virgin Media ac Openreach, ar ddefnyddwyr a hefyd eu heffaith ar gystadleuaeth. Roedd y gwaith hwn hefyd yn rhoi sylw i'r prosesau newid ar wasanaethau data a llais symudol. Gwnaethom gyhoeddi canfyddiadau'r gwaith hwn ym mis Mehefin 2015 gan amlinellu camau nesaf ein gwaith i helpu i ganfod a fydd rhagor o ddiwygiadau'n briodol ac yn gymesur. Gwnaethom gyhoeddi y byddem yn edrych i ddechrau ar brosesau newid gwasanaethau symudol.

Yn ogystal â'r prosesau newid, rydym yn edrych ar rwystrau posibl eraill i newid. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau cloi ffonau symudol a mater sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol fod contractau ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau wedi dod i ben.

#### Canlyniad

Dylai ein penderfyniadau ar newidiadau i'r prosesau newid ar rwydweithiau Openreach a KCOM helpu defnyddwyr i wneud y broses o newid darparwr band eang a llinell sefydlog yn haws ac yn fwy hwylus a bod ganddynt fwy o hyder i wneud hynny. Dylai hyn hefyd helpu i sicrhau nad yw'r broses newid yn rhwystro darparwyr rhag cystadlu i ddarparu buddion i bob defnyddiwr, o ran prisiau is, mwy o ddewis ac arloesedd, a gwerth am arian.

Mae newid yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom, a byddwn yn parhau i weithio i sicrhau y rhoddir sylw i'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag newid.



## Ein hamcan

### Hybu dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir a pherthnasol ar gael yn hawdd

Mae Ofcom yn ceisio sicrhau bod defnyddwyr yn gallu manteisio ar y dewisiadau sydd ganddynt mewn marchnadoedd sy'n cystadlu. Mae hyn yn golygu eu bod yn gallu newid rhwng gwasanaethau a darparwyr, a bod y wybodaeth ofynnol ganddynt i lywio drwy'r farchnad a gwneud dewisiadau effeithiol.

Mae ein gwybodaeth i ddefnyddwyr yn cynnwys cyngor ac arweiniad uniongyrchol yn delio â materion pwysig yn ymwneud â diogelu'r cyhoedd (e.e. ar ddefnyddio gwasanaethau, cymharu pecynnau amrywiol a delio â galwadau niwsans), a chyhoeddi ymchwil a data cwynion. Yn ogystal â chyhoeddi gwybodaeth a data ein hunain, rydym yn gweithio gyda thrydydd partïon i sicrhau bod defnyddwyr yn cael y wybodaeth ofynnol, e.e. gwasanaethau cymharu prisiau wedi'u hachredu gan Ofcom, cynrychiolwyr defnyddwyr fel Which? a Cyngor ar Bopeth, a thrwy gyfryngau amrywiol.

Drwy gyhoeddi'r cyfryw wybodaeth, mae defnyddwyr yn gallu cael gafael ar ddata annibynnol i'w helpu i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac osgoi maglau posibl.

#### Beth wnaethon ni

Gydol 2014/15, gwnaethom barhau â'n rhaglen o gyhoeddiadau ymchwil rheolaidd i helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth wrth ystyried darparwr neu wasanaeth newydd. Rydym yn cyhoeddi data ymchwil ddwywaith y flwyddyn yn cymharu cyflymderau band eang llinell sefydlog preswyl yn y DU ac mae'n nodi'r cyflymderau go iawn cyfartalog y mae defnyddwyr yn eu derbyn, ac yn cymharu'r gwahaniaethau rhwng cyflymderau, a mesurau perfformiad eraill, ar draws darparwyr a thechnolegau. Ochr yn ochr â hyn, mae cyhoeddi data cwynion bob chwarter a'n data blynyddol ar fodlonrwydd cwsmeriaid â gwasanaethau yn helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwell ar sail gwybodaeth am ddarparwyr.

Rydym hefyd wedi gweithio ar welliannau i'r cod ymarfer gwirfoddol ar gyflymderau band eang. Mae'r cod newydd yn ymestyn y gofynion tryloywder ar gyfer band eang yn y man gwerthu i wasanaethau ffibr, ac mae'n cynnwys darpariaethau newydd am allu defnyddwyr i adael eu contractau pan fydd cyflymderau'n disgyn islaw y lefelau y cytunwyd arnynt.

Mae darpariaeth ac ansawdd gwasanaethau symudol yn dod yn fwyfwy pwysig i ddefnyddwyr. Ym mis Awst 2014, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cynaf ar ansawdd profiad a pherfformiad gwasanaethau llais symudol. Dilynwyd hyn gan ein dau adroddiad ymchwil cyntaf i wasanaethau band eang symudol yn y DU ers yr arwerthiant 4G yn 2013. Mae helpu i wella'r ddarpariaeth symudol ac ansawdd y gwasanaeth yn amcanion pwysig i Ofcom.

Hefyd, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyhoeddi nifer o ganllawiau newydd i ddefnyddwyr sy'n cynnig cyngor ar faterion pwysig yn ymwneud â diogelu defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar gloi a datgloi ffonau symudol, crwydro anfwriadol yng Ngogledd Iwerddon ac arweiniad 'Hawdd ei Ddeall' ar negeseuon a galwadau niwsans.

Ym mis Medi 2014, gwnaethom amlinellu cynlluniau i alluogi busnesau bach i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau yn y DU. Fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom gyhoeddi arweiniad yn cynnig cyngor ar yr hyn y dylai busnesau fod yn edrych amdano wrth ddewis contract ffôn llinell sefydlog, band eang neu ffôn symudol newydd. Gwnaethom hefyd lansio porth ar y we yn darparu gwybodaeth ar ddewis darparwr gwasanaeth, cyngor ar ddatrys anghydfodau a gwybod eu hawliau fel busnes.

#### Canlyniad

Drwy gyhoeddi ymchwil a gwybodaeth i ddefnyddwyr, sicrheir bod dinasyddion a defnyddwyr yn cael gafael ar ddata perfformiad cymaradwy ac annibynnol ar wasanaethau a darparwyr gwasanaethau yn y farchnad. Credwn fod hyn nid yn unig helpu dinasyddion a defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus er mwyn diwallu'u hanghenion yn y ffordd orau bosibl, mae hefyd yn ysgogi darparwyr i wella'u perfformiad.

Mae'r arolygon boddhad a'r data cwynion rydym yn eu cyhoeddi yn dangos gwelliant parhaus at ei gilydd ym mherfformiad darparwyr cyfathrebiadau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd BBaCh i'r economi. Dylai ein rhaglen waith newydd helpu i sicrhau y bydd y busnesau hyn yn elwa o gyfathrebiadau digidol o safon a bod y mesurau amddiffyn priodol ar waith os na fydd y farchnad yn cyflawni.

Yn ystod y flwyddyn, ymwelodd mwy o ddefnyddwyr â gwefan Ofcom i gael gwybodaeth a chyngor. Derbyniodd Ofcom 2.3 miliwn o ymweliadau ag adrannau defnyddwyr a BBaCh ei wefan, 29% o gynnydd ers 2013/14. Ymwelwyd dros 110,000 o weithiau â'n canllawiau i ddefnyddwyr a gyhoeddwyd rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015.

## Ein hamcan

### Hybu diogelwch a ffydd y gynulleidfa mewn amgylcheddau digidol





Gall cynulleidfaoedd erbyn hyn gael gafael ar gynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau gwahanol a dyfeisiau sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd, yn aml yn ddi-dor. Ond, mae'r datblygiadau hyn hefyd yn dod â heriau o ran cadw cynulleidfaoedd yn ddiogel rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol.

Mae Ofcom yn trwyddedu mwy o wasanaethau darlledu radio a theledu nag erioed o'r blaen, rhai ohonynt heb brofiad hir o gydymffurfio â rheoliadau. Mae hyn yn achosi mwy o risgiau i ddiogelwch defnyddwyr, oherwydd efallai y bydd cynnwys yn cael ei ddarlledu sy'n niweidiol neu heb fod yn cydymffurfio mewn ffyrdd eraill â'r Cod Darlledu.

Rydym wedi mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy gyflawni gwaith amrywiol i gynnal a diweddaru'r fframwaith diogelwch a ffydd cynulleidfaoedd ar gyfer cynnwys clyweledol.

#### Beth wnaethon ni

Eleni, gwnaethom gwblhau adolygiad eang o'n prosesau gorfodi trwyddedau darlledu. Gwnaethpwyd hyn i sicrhau bod gwasanaethau trwyddedig yn cydymffurfio â'n rheolau a'n gofynion, ac i'n galluogi i ganfod cynnwys nad yw'n cydymffurfio mor effeithiol â phosibl. Canolbwyntiwyd ar wasanaethau sy'n darlledu cynnwys a allai achosi niwed i gynulleidfaoedd. Rydym yn awr yn rhoi newidiadau ar waith a ddeilliodd o'r adolygiad hwn.

Ym mis Rhagfyr 2014, diwygiwyd deddfwriaeth i newid rhai o'r dyletswyddau a roddwn i ATVOD (Awdurdod ar gyfer Teledu ar Alwad). cyd-reoleiddiwr Ofcom ar gyfer gwasanaethau 'fideo ar alwad'. Mae'r newid yn gwahardd deunydd penodol ac mae'n mynnu bod darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar alwad yn sicrhau bod pobl ifanc o dan 18 oed yn cael eu diogelu rhag deunydd 'dan gyfyngiadau arbennig'. Llofnododd ATVOD, BBFC (Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain) ac Ofcom Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi sut y byddwn yn cydweithio i orfodi'r ddeddfwriaeth ddiwygiedig.

Rydym wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU, rheoleiddwyr y cyfryngau a'r diwydiant i ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer safonau'r cyfryngau. Gwnaethom gyflwyno tri adroddiad i Lywodraeth y DU ar fesurau diogelwch ar y rhyngrwyd i ddiogelu plant. Roedd dau o'r tri adroddiad yn canolbwyntio ar strategaethau a ddefnyddir gan rieni i ddiogelu plant ar-lein, gan gynnwys adolygiad o nifer y rhieni sy'n defnyddio dulliau rheoli beth mae plant yn ei wylio, eu hymwybyddiaeth ohonynt a'u hyder ynddynt. Roed yr adroddiad arall yn nodi'r mesurau a roddwyd ar waith gan bedwar darparwr rhyngrwyd llinell sefydlog mwyaf y DU - BT, Sky, TalkTalk a Virgin Media - i gyflwyno gwasanaeth hidlo ar lefel rhwydwaith sy'n ystyriol o deuluoedd, sy'n caniatáu i ddeiliad y cyfrif flocio cynnwys y we a all fod yn amhriodol i blant. Rydym wedi cael cais i lunio pedwerydd adroddiad yn ddiweddarach eleni.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Ofcom wedi bod yn aelod gweithredol o is-grŵp amddiffyn pobl ifanc dan oed y Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol (ERGA). Rôl ERGA yw cynghori'r Comisiwn Ewropeaidd ar ddefnyddio'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau[3] Clyweledol ac ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau cyfryngau clyweledol yn fwy cyffredinol.


#### Canlyniad

Mae cynulleidfaoedd yn y maes darlledu yn parhau i ddisgwyl safon uchel o ddiogelwch. Mae ein gwaith i adolygu'r prosesau ar gyfer trwyddedu a gorfodi wedi sicrhau bod gennym ddull effeithiol wedi'i dargedu ar gyfer rheoleiddio darlledu.


Rydym hefyd wedi gweithio i sicrhau bod fframwaith diogelu effeithiol yn rhoi lefelau priodol o sicrwydd a diogelwch i gynulleidfaoedd rhag cynnwys clyweledol a allai fod yn niweidiol mewn amgylcheddau digidol.

Mae natur amgylchedd y cyfryngau sy'n newid yn gyson yn golygu ei bod yn hanfodol ein bod yn adolygu'n gyson ein dull rheoleiddio ar gyfer diogelu cynulleidfaoedd a rhoi sicrwydd iddynt.

[3] Y Gyfarwyddeb AVMS sy'n rheoli'r broses ar draws yr EU o gydlynu deddfwriaeth genedlaethol ar yr holl gyfryngau clyweledol, o ran darllediadau teledu traddodiadol a gwasanaethau ar alwad. Gwna hyn drwy set sylfaenol o reolau cyffredin.







# Blaenoriaethau Cynlluniau Blynyddol blynyddoedd blaenorol

## Wrth i'r sectorau cyfathrebiadau ddatblygu ac wrth i anghenion defnyddwyr newid, mae ffocws ein blaenoriaethau allweddol yn newid hefyd, bob blwyddyn.

Ond, yn 2014/15, gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar feysydd sydd wedi bod yn flaenoriaethau mewn blynyddoedd a fu.

### Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth gyflenwi gwasanaethau teledu-drwy-dalu

Yn 2010, gosododd Ofcom rwymedigaeth ar Sky a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni gynnig Sky Sports 1 a 2 yn gyfanwerthol ar brisiau a oedd yn cael eu pennu gan Ofcom - yr ateb rhaid cynnig yn gyfanwerthol (WMO). Bwriad hyn oedd darparu dewis ac arloesedd i ddefnyddwyr drwy fwy o gystadleuaeth. Mae'r rhwymedigaeth wedi bod yn weithredol ers 2010 ar gyfer Virgin Media (cebl) a BT (teledu daearol digidol) tra oedd proses ymgyfreitha yn mynd rhagddi. Ym mis Tachwedd 2014, cafodd ei ymestyn i IPTV(teledu protocol rhyngrwyd) ar gyfer BT.

Yn 2010 gwnaethom ddweud y byddem yn adolygu'r rhwymedigaeth ar ôl tair blynedd yn wyneb datblygiadau yn y farchnad. Achosodd yr ymgyfreitha parhaus oedi gyda'r adolygiad hwn. Ond ym mis Rhagfyr 2014 cyhoeddwyd dogfen ymgynghori gennym fel rhan o'n hadolygiad o'r ateb 'rhaid cynnig yn gyfanwerthol' ar gyfer teledu drwy dalu. Bydd yr adolygiad yn penderfynu a yw'r broses yn dal yn briodol er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol yn sector teledu drwy dalu'r DU.

Rydym yn cydnabod bod y sector teledu drwy dalu yn datblygu'n sydyn ac yr effeithir ar unrhyw asesiad gan ddatblygiadau parhaus yn y farchnad. Rydym wedi gweld datblygiadau sylweddol yn y farchnad ers inni gwblhau ein hadolygiad yn 2010. Mae mwy o gynnwys chwaraeon ar gael ar wasanaethau manwerthu sy'n cystadlu â'i gilydd, mwy o ddarparwyr cynnwys drwy fand eang a dyfeisiau newydd y gall defnyddwyr eu defnyddio i gael teledu drwy dalu. Mae bwndelu teledu drwy dalu â gwasanaethau cyfathrebiadau eraill yn fwy cyffredin. Mae BT hefyd wedi sicrhau hawliau chwaraeon pwysig ac wedi dod i mewn i'r farchnad fel darparwr sianeli chwaraeon 'wedi'i integreiddio'n fertigol' ac fel manwerthwr yn y sector teledu drwy dalu.

Wrth asesu a yw rheoleiddio'n dal yn briodol neu a ddylid ei ddileu, byddwn yn ystyried datblygiadau o'r fath.

Rydym ar hyn o bryd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a bwriadwn nodi unrhyw gamau pellach yn ail gam yr adolygiad yn ddiweddarach eleni.

# Ein cyfrifoldebau parhaus a'r adnoddau rydyn ni'n eu rheoli

**Yn ogystal â chyflawni'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Blynyddol, rydym yn gweithio'n gyson i gael y canlyniadau gorau i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr yn ein cyfrifoldebau o ddydd i ddydd.**





## Diogelu defnyddwyr: sicrhau bod y marchnadoedd cyfathrebiadau'n gweithio dda i ddefnyddwyr

Mae arnom eisiau sicrhau bod defnyddwyr yn cael y dewis gorau o'u gwasanaethau cyfathrebiadau, a'r gwerth gorau am eu harian, a bydd angen i ni fod y barod i ymyrryd os na fydd pethau'n gweithio cystal ag y dylent.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, roeddem wedi gweithredu ar ystod eang o faterion sy'n ymwneud a defnyddwyr ac rydym yn adolygu rhai ohonynt yma.

### Cyfnewid testun y genhedlaeth nesaf

Mae gwasanaethau cyfnewid yn galluogi pobl sydd â nam ar eu clyw a/neu leferydd i gyfathrebu â phobl eraill drwy ddefnyddio offer ffôn neu ffôn testun neu ddyfeisiau eraill fel cyfrifiaduron a chyfrifiaduron llechen.

Cafodd gwasanaeth cyfnewid testun y genhedlaeth nesaf (NGTR) ei lansio yn 2014. Mae'r gwasanaeth gwell hwn yn galluogi defnyddwyr i gael sgyrsiau cyflymach, mwy rhwydd, a gellir defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau i gael mynediad i'r gwasanaeth - gan gynnwys defnydd haws ar ffonau clyfar a chyfrifiaduron llechen drwy'r ap NGTR rhad ac am ddim.

Dylai'r uwchraddio fod wedi digwydd erbyn mis Ebrill 2014. Ond, ni chafodd y gwasanaeth ei lansio tan fis Medi 2014. Cynhaliodd Ofcom ymchwiliad i ganfod pam na chyflwynodd BT ei wasanaeth NGTR ym mis Ebrill fel yr oedd i fod i'w wneud. Oherwydd hyn, cafodd y cwmni ei ddirwyo £800,000 ym mis Mawrth 2015.

Mae'r gwasanaeth gwell hwn wedi cael derbyniad da at ei gilydd gan ddefnyddwyr.

### Monitro ansawdd isdeitlau byw

Gydol y flwyddyn gwnaethom barhau â'n gwaith i wella ansawdd isdeitlau byw ar y teledu ar gyfer gwylwyr byddar a gwylwyr trwm eu clyw. Cyhoeddodd Ofcom y tri cyntaf o bedwar adroddiad ar ansawdd isdeitlau byw ym mis Ebrill 2014, mis Tachwedd 2014 a mis Mai 2015. Mae'r adroddiadau sy'n delio â chywirdeb, cyflymder a'r oedi rhwng yr hyn a ddywedir a'r isdeitl yn seiliedig ar samplau a ddewiswyd gan Ofcom, gyda'r mesuriadau wedi'u dilysu gan arbenigwyr annibynnol.



Roedd y tri adroddiad cyntaf hyn yn dangos bod cywirdeb at ei gilydd yn dda, a bod darlledwyr yn dechrau gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd isdeitlo, yn enwedig drwy ddefnyddio mwy ar isdeitlau bloc hawdd eu darllen mewn rhaglenni byw. Ond mae gormod o oedi yn dal yn broblem. Hefyd, mae'r adroddiadau hyn yn dangos, er bod cyflymder cyfartalog isdeitlo yn is na'r canllawiau a argymhellir, mae rhaglenni ag isdeitlau byw yn aml yn dioddef hyrddiau yng nghyflymder isdeitlo sy'n effeithio ar y gallu i ddarllen yr isdeitlau. Bwriadwn gyhoeddi'r adroddiad terfynol yn ystod Hydref 2015, a fydd yn cael ei ddilyn gan adolygiad o Arweiniad Ofcom ar Ddarparu Gwasanaethau Mynediad.

## Fforddiadwyedd yn y farchnad cyfathrebiadau

Ym mis Gorffennaf 2014, cwblhawyd prosiect gennym i ddeall yn well a oes sefyllfaoedd yn bodoli lle mae fforddiadwyedd yn atal dinasyddion a defnyddwyr rhag gallu defnyddio gwasanaethau cyfathrebiadau y maent yn eu hystyried yn bwysig neu'n hanfodol. Canfu ein hymchwil nad oedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn debygol o wynebu problemau fforddiadwyedd  a bod gwasanaethau cyfathrebiadau hanfodol yn cael eu hystyried yn werth da am arian yn gyffredinol, ni waeth beth yw'r incwm. Ond, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod defnyddwyr yn gallu gwneud dewisiadau effeithiol, yn gallu newid yn haws i fargeinion gwell os dymunant ac yn gallu cael cyngor defnyddiol os ydynt mewn dyled neu ar incwm isel neu incwm sy'n amrywio.

## Arweiniad ar godi prisiau ar ganol contract

Ers cyhoeddi ein harweiniad ar godi prisiau ar ganol contract ym mis Ionawr 2014, rydym wedi monitro'r ffordd y mae darparwyr cyfathrebiadau yn defnyddio'r arweiniad a'u cydymffurfiad â'r gofynion rheoleiddio perthnasol (Amod Cyffredinol 9) yn gyffredinol.

Rydym hefyd wedi cynnal ein harweiniad cyhoeddedig i ddefnyddwyr ar y pwnc hwn. Mae'r arweiniad yn esbonio'r mathau gwahanol o danysgrifiadau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan y darparwyr llinell sefydlog a symudol mwyaf. Dim ond contractau pris tanysgrifiadau craidd sefydlog y mae Vodafone yn eu cynnig i'w cwsmeriaid ffonau symudol tra mae EE ,O2 a Three yn cynnig contractau haenog ag addasiad blynyddol cysylltiedig â'r RPI yn cael ei wneud i'r pris tanysgrifio craidd (mae EE hefyd yn cynnig opsiwn pris sefydlog). Ar gyfer gwasanaethau band eang a ffôn llinell sefydlog, mae BT, TalkTalk, Sky a Virgin Media yn parhau i gynnig contractau pris amrywiol sy'n caniatáu iddynt newid pris tanysgrifiadau craidd yn ôl eu disgresiwn ond ar delerau sy'n caniatáu i'r cwsmeriaid yr effeithir arnynt adael eu contract yn ddi-gosb os nad ydynt am dderbyn y cynnydd yn y pris.

Ers inni gyhoeddi'r arweiniad hwn, mae lefel y cwynion wedi aros yn isel, sy'n awgrymu bod defnyddwyr yn ymwybodol erbyn hyn o'r opsiynau sydd ar gael iddynt yn y farchnad.

## Sicrhau hawl defnyddwyr i iawn effeithiol

Pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le â'u gwasanaeth cyfathrebiadau, mae angen i ddefnyddwyr allu cwyno'n effeithiol.

Mae Ofcom yn mynnu bod gan bob darparwr cyfathrebiadau drefn gwyno sy'n cydymffurfio â Chod Ymarfer Delio â Chwynion sydd wedi'i chymeradwyo gan Ofcom, a rhaid iddynt hefyd fod yn aelod o gynllun ADR (dulliau amgen o ddatrys anghydfodau) wedi'i gymeradwyo gan Ofcom. Efallai y bydd anghydfodau na fyddant wedi cael eu datrys cyn pen wyth wythnos, neu ynghynt, fod yn addas ar gyfer y broses ADR. Mae cynlluniau ADR yn rhad ac am ddim ac ar gael i gwsmeriaid preswyl yn ogystal â busnesau gyda hyd at 10 o weithwyr. Mae'n rhaid i'r darparwr dderbyn y penderfyniadau ond nid y defnyddiwr.

Mae gan Ofcom raglen fonitro a gorfodi i asesu cydymffurfiad darparwyr cyfathrebiadau â gofynion Ofcom o ran delio â chwynion, gan gynnwys mynediad at ADR. O ganlyniad i'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r rhaglen hon, gwnaethom gychwyn ymchwiliadau ar wahân i  Hutchison 3G Limited (yn masnachu fel Three) ac EE Limited (yn masnachu fel EE, Orange a T-Mobile), i ymchwilio i'w cydymffurfiad â'r rheolau. Daeth ein hymchwiliad i Three i ben ym mis Hydref 2014 a chafodd y cwmni ddirwy o £250,000. Mae ein hymchwiliad i EE yn parhau.

## Mynd i'r afael â chamwerthu

Mae Ofcom yn ymrwymedig i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu rhag cam-werthu contractau llinellau sefydlog a slamio (lle bydd cwsmer yn cael ei symud i ddarparwr arall heb iddo wybod am hynny na chytuno ar hynny).

Mae gennym raglen fonitro a gorfodi agored ar gyfer cam-werthu llinellau sefydlog, lle rydym yn monitro cwynion ac yn canfod darparwyr cyfathrebiadau y bydd efallai angen ymchwilio i'w gwerthiannau a'u gweithgareddau marchnata.

O ganlyniad i'n gweithredoedd, rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion am gam-werthu llinellau sefydlog, o dros 1,000 y mis ym mis Mehefin 2010 i ryw 300 y mis y llynedd.

Ym mis Mawrth 2014, agorwyd ymchwiliad gennym i gydymffurfiad Universal Utilities Limited (yn masnachu fel Unicom) â rheolau cam-werthu. Mae'r ymchwiliad hwn yn parhau.

### Diogelu defnyddwyr rhag galwadau niwsans

Mae galwadau niwsans yn gallu achosi pryder, anhwylustod a dicter i ddefnyddwyr. Mae Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn rhannu'r prif gyfrifoldeb am orfodi yn y maes hwn. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n cymryd yr awenau gyda'r rhan fwyaf o alwadau niwsans, yn arbennig negeseuon testun a galwadau marchnata byw digymell, tra bo Ofcom yn gyfrifol am fynd i'r afael â galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael.

Mae galwad sy'n cael ei gadael yn golygu galwad sy'n dod i ben pan fydd defnyddiwr yn codi'r ffôn. Yn hytrach na bod rhywun ar ben arall y ffôn, efallai y bydd y defnyddiwr yn clywed neges wedi'i recordio yn rhoi gwybodaeth gan y cwmni sy'n ceisio'i ffonio. Math o alwad sy'n cael ei gadael yw galwad mud, lle bydd defnyddiwr yn cael galwad ond yn clywed dim wrth iddo ateb y ffôn a dim modd ganddo o ganfod a oes unrhyw un ar ochr arall y ffôn.

Mae camau gorfodi'n bwysig i leihau niwed i ddefnyddwyr o alwadau niwsans. Ond, mae gorfodi ar ei ben ei hun yn mynd i'r afael â rhan o'r broblem yn unig. Dyna pam y cyhoeddodd Ofcom a'r Comisiynydd Gwybodaeth gynllun gweithredu ar y cyd ym mis Gorffennaf 2013 yn disgrifio dull eang ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem hon. Gwnaethom gyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r cynllun hwn ym mis Rhagfyr 2013 a 2014.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i gymryd camau gorfodi wedi'u targedu, gan roi pedair cosb ariannol i gwmnïau am wneud galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael. Gwnaethom hefyd ystyried 47 achos gorfodi yn anffurfiol. O ganlyniad, mae cwynion sy'n gysylltiedig â 46 o'r achosion hyn wedi lleihau neu wedi gostwng yn sylweddol, tra mae un achos yn parhau.

Gwnaethom hefyd lansio adolygiad o'n datganiad polisi ar sut y byddwn yn defnyddio pwerau 'camddefnyddio cyson' i roi sylw i alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael. Yn ogystal, rydym yn parhau â'n gwaith gyda'r diwydiant telegyfathrebiadau i wella'r broses olrhain galwadau i'w gwneud yn haws i ganfod pa sefydliadau sy'n gwneud galwadau niwsans, a mesurau technegol posibl i fynd i'r afael â galwadau o'r fath.

Ym mis Mai 2014, gwnaethom gyhoeddi dau arweiniad newydd i ddefnyddwyr i helpu i hyrwyddo mynediad ehangach at gyngor ar atal galwadau a negeseuon testun niwsans: fideo addysgol byr gydag isdeitlau ac arweiniad 'Hawdd ei Ddeall' ar sut i leihau galwadau niwsans, a gynlluniwyd i gael ei ddeall yn hawdd gan bobl ag anawsterau dysgu. Gwnaethom hefyd adolygu'r cyngor y mae cwmnïau telegyfathrebiadau'n ei roi i'w cwsmeriaid ar alwadau niwsans, a diweddaru'r wybodaeth i ddefnyddwyr am y mathau o wasanaethau a gynigir gan gwmnïau telegyfathrebiadau i helpu i ddiogelu defnyddwyr rhag galwadau niwsans, a chostau'r gwasanaethau hynny.

### Diogelu defnyddwyr ffonau symudol rhag biliau annisgwyl o uchel

Mae Ofcom wedi parhau i weithio i ddiogelu defnyddwyr contractau symudol rhag biliau annisgwyl o uchel, gan gynnwys sicrhau bod cwmnïau'n cydymffurfio â Rheoliadau Crwydro'r UE.

Mae cwmnïau wedi cymryd nifer o gamau sydd, ynghyd â'u gwaith yn gwella ymwybyddiaeth defnyddwyr o sut i osgoi biliau annisgwyl o uchel, wedi cael effaith gadarnhaol. Mae nifer cwynion defnyddwyr yn dal yn isel a dangosodd ein hymchwil ym mis Medi 2014 ostyngiad pellach yng nghyfran y defnyddwyr sy'n profi biliau annisgwyl o uchel, a gostyngiad yn lefel y niwed ar gyfartaledd a brofwyd.

Ond, roeddem yn dal yn bryderus am filiau annisgwyl o uchel a geir drwy ddefnydd diawdurdod o ffonau sydd wedi cael eu colli neu eu dwyn.

Gwnaethom gefnogi gwaith y Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r mater difrifol hwn a arweiniodd at gytundeb gyda phum cwmni mawr (Three, EE, O2, Virgin Media a Vodafone) i gyflwyno terfyn atebolrwydd gwirfoddol[4]. Ym mis Ionawr 2015, Three oedd y cyntaf o'r cwmnïau hyn i roi hyn ar waith. Disgwylir i'r olaf o'r pum cwmni gyflwyno'r terfyn erbyn mis Medi eleni.

## Cystadleuaeth

Mae gan Ofcom amryw o ddyletswyddau sy'n ceisio hyrwyddo a sicrhau cystadleuaeth. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu polisi cystadleuaeth dan ein pwerau sectoraidd, er enghraifft, adolygu marchnadoedd; gorfodi amodau rheoleiddio a chyfraith defnyddwyr a datrys anghydfodau.

Mae gan Ofcom bwerau cydredol dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 i orfodi yn erbyn ymddygiad gwrth-gystadleuol ym meysydd darlledu, sbectrwm, telegyfathrebiadau a'r post. Mae gennym hefyd bŵer i ddefnyddio Erthyglau 101 a 102 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

Yn ychwanegol at y meysydd blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth sy'n cael eu gwerthuso ar dudalennau 22 i 23, gwnaethom weithredu ar amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â chystadleuaeth yn ystod y flwyddyn.

### Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes

Mae'r adolygiad hwn a gynhelir bob tair blynedd yn archwilio telegyfathrebiadau busnes: yn benodol, llinellau ar brydles - y cysylltiadau data cyflymder uchel sy'n cefnogi busnesau, darparwyr band eang a symudol. Dechreusom yr adolygiad newydd ym mis Tachwedd 2014 drwy ofyn barn rhanddeiliaid am 'atebion goddefol', math o

[4] www.gov.uk/government/news/government-action-secures-end-to-shock-mobile-bills

reoleiddio a fyddai o bosibl yn ei gwneud yn ofynnol i BT adael i'w gystadleuwyr ddefnyddio ei seilwaith i ddarparu eu gwasanaethau llinellau prydles eu hunain. Ym mis Mai 2015, gwnaethom amlinellu ein cynigion ehangach ar gyfer y farchnad, gan gynnwys rheolau newydd a fyddai o fudd i fusnesau drwy dorri'r amser y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i osod llinell ar brydles. Disgwyliwn y bydd ein hadolygiad yn dod i ben gyda'r penderfyniadau terfynol ar gael yn ystod gwanwyn 2016.

### Terfynu galwadau symudol

Ym mis Mawrth 2015, gwnaethom gwblhau adolygiad o'r farchnad ar gyfer terfynu galwadau symudol, y broses o gysylltu galwad llais â defnyddiwr ffôn symudol. Pan fydd defnyddiwr yn galw defnyddiwr ffôn symudol ar rwydwaith gwahanol - naill ai o ffôn symudol neu linell sefydlog - mae'r cwmni rhwydwaith y maent yn ei alw yn codi 'cyfradd terfynu' ar y darparwr sy'n cael ei alw. Yn dilyn ymyrraeth flaenorol gan Ofcom, mae cyfraddau terfynu galwadau symudol wedi gostwng yn sylweddol yn ddiweddar, sy'n golygu galwadau symudol rhatach i ddefnyddwyr. Eleni gwnaethom benderfynu cyflwyno rheoliad newydd, sy'n berthnasol i bob cwmni, a fydd yn golygu gostyngiad arall mewn termau real yn y cyfraddau terfynu am flynyddoedd i ddod.

### Ofcom yn cymryd yr awenau gyda gwaith yn ymwneud ag ansawdd gwasanaeth ar ran UKRN

Mae rheoleiddwyr economaidd y DU wedi dod at ei gilydd i greu Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN) i sicrhau y ceir cydweithrediad effeithiol rhwng sectorau. Arweiniodd Ofcom y gwaith o gyhoeddi adroddiad ar gyfer UKRN yn ymchwilio i ansawdd gwasanaeth. Yn yr adroddiad cafwyd y casgliad cyntaf o ddulliau gweithredu ar gyfer rheoleiddio ansawdd gwasanaethau ar draws y sectorau telegyfathrebiadau, ynni, dŵr a'r rheilffordd. Mae'n arweiniad defnyddiol i'r ffyrdd y mae rheoleiddwyr yn eu defnyddio i ymyrryd er budd defnyddwyr i hyrwyddo ansawdd yn y sectorau hyn.

Mae Ofcom wedi cymryd yr awenau gyda phrosiect arall gan UKRN yn edrych ar gydnerthedd ar draws sectorau. Roedd y gwaith yn cynnwys cyhoeddi adroddiad yn crynhoi dyletswyddau perthnasol y rheoleiddwyr gwahanol. Yn ystod y cam nesaf, edrychir yn fanylach ar faterion ymarferol fel dibyniaeth telegyfathrebiadau ar drydan a phrosesau i wella'r cydweithrediad rhwng rheoleiddwyr sectorau ar faterion yn ymwneud â chydnerthedd.

### Rheolaethau mynediad Sky

Er mwyn darparu gwasanaethau rhyngweithiol, fel gwasanaethau teledu rhyngweithiol 'botwm coch', ar lwyfan lloeren Sky, mae angen i ddarlledwyr gael mynediad i flwch pen set Sky. Mae Sky yn darparu'r mynediad hwn drwy wasanaethau Rheoli Mynediad (AC) sydd wedi bod yn destun rheoleiddio. Mae'r drefn reoleiddio hon yn galluogi trydydd partïon i gael mynediad i'r swyddogaethau perthnasol ar flychau pen set Sky ar delerau teg, rhesymol nad ydynt yn gwahaniaethu. Roedd gennym ddyletswydd cyfreithiol i ddileu'r drefn reoleiddio hon a oedd wedi'i gosod dros dro ar ddechrau trefn Deddf Cyfathrebiadau 2003, ond cyn gwneud hynny, roedd angen ystyried a oedd angen trefn reoleiddio newydd yn ei lle.

Yn ystod ein hadolygiad o wasanaethau Rheoli Mynediad, datblygodd Sky set o ymrwymiadau gwirfoddol o dan yr hyn y byddai'n parhau i ddarparu'r gwasanaethau Rheoli Mynediad presennol yn dilyn dileu'r drefn reoleiddio Rheoli Mynediad ar ei genhedlaeth bresennol o flychau pen-set a rhai'r dyfodol. O ganlyniad, gwnaethom geisio barn ynghylch a fyddai ymrwymiadau arfaethedig Sky yn ddigonol, neu a fyddai trefn reoleiddio newydd ar ffurf amodau cysylltiedig-â-mynediad newydd yn fwy priodol.

Ym mis Mawrth 2015, penderfynon ni beidio â gosod trefn reoleiddio newydd ac oherwydd ymrwymiadau Sky, gwnaethom ddileu'r drefn reoleiddio bresennol.

### Adroddiad seilwaith

Mae gwybodaeth ddibynadwy, fanwl a hawl cael gafael arni am y seilwaith sydd ar gael yn hanfodol er mwyn deall y materion polisi yn iawn ac i ddatblygu cynlluniau buddsoddi wedi'u targedu. Er ein bod yn cyhoeddi diweddariadau blynyddol, ein Hadroddiad Seilwaith ar gyfer 2014 oedd yr ail fersiwn llawn ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi gyntaf yn 2011. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r seilwaith digidol sydd ar gael a faint sy'n manteisio arno. Mae dadansoddiad o'r fath yn cyfrannu at waith llunio polisi'r Llywodraeth ar ddarpariaeth symudol a band eang, yn ogystal â'n gwaith ni mewn meysydd fel yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol.

### Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol

Ym mis Mawrth 2015 cyhoeddodd Ofcom adolygiad trosfwaol o farchnadoedd cyfathrebiadau digidol y DU, i sicrhau bod gwasanaethau a darparwyr cyfathrebiadau'n parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr a busnesau. Yr adolygiad yw ail asesiad sylweddol Ofcom o'r sector cyfathrebiadau ehangach a bydd yn edrych ar gystadleuaeth, buddsoddiad, arloesedd a'r cynnyrch sydd ar gael yn y marchnadoedd band eang, symudol a llinellau sefydlog.

Mae'r farchnad wedi gweddnewid ei hun yn ystod y degawd diwethaf. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried goblygiadau datblygiadau cyfredol ac yn y dyfodol i reoleiddio gan gynnwys: cynlluniau cwmnïau mawr i fuddsoddi'n sylweddol mewn rhwydweithiau; mwy a mwy o wasanaethau telegyfathrebu yn gweithredu dros y rhyngrwyd; a chynlluniau posibl amrywiol i uno, prynu, cynnal mentrau ar y cyd a llunio partneriaethau yn y sector.



Bydd cam cyntaf yr adolygiad yn archwilio ffactorau yn y farchnad heddiw ac yn y dyfodol a allai effeithio ar wasanaethau cyfathrebu digidol. Disgwylir i hyn ddod i ben gyda dogfen drafod yn ystod haf 2015. Rydym yn disgwyl dod ag ail gam yr adolygiad i ben drwy amlinellu'r casgliadau cychwynnol tua diwedd y flwyddyn.

### Datrys anghydfodau yn y farchnad ac ymchwiliadau dan y ddeddf gystadleuaeth

Mae tîm Ymchwiliadau i Faterion Cystadleuaeth Ofcom yn datrys anghydfodau rheoleiddio rhwng cwmnïau o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ystod 2014/15, gwnaethom ddatrys wyth anghydfod a oedd yn delio ag ystod eang o bynciau gan gynnwys Cytundebau Lefel Gwasanaeth BT ar gyfer rhai gwasanaethau dadfwndelu dolenni lleol, taliadau arfaethedig BT ar gyfer cychwyn galwadau 080 a thaliadau ychwanegol ar gyfer darparu galwadau crwydro rhyngwladol.

Fel awdurdod cystadleuaeth cenedlaethol, mae gan Ofcom y pŵer i orfodi'r gyfraith gystadleuaeth ochr yn ochr â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ac mae'r tîm Ymchwiliadau i Faterion Cystadleuaeth yn ymchwilio i honiadau o ymddygiad gwrthgystadleuol o dan ddeddfwriaeth y DU a'r UE.

Ar 1 Ebrill 2015, roedd gennym dri ymchwiliad dan y gyfraith gystadleuaeth ar y gweill. Mae dau o'r rhain yn y sector darlledu ac un yn y sector gwasanaethau post:



- **Cwyn gan British Telecommunications plc yn erbyn British Sky Broadcasting Group plc yn honni ei fod yn camddefnyddio safle goruchafol yng nghyswllt cyflenwi Sky Sports 1 a 2 yn gyfanwerthol**
  Ar 14 Mehefin 2013, cychwynnwyd ymchwiliad gennym o dan Waharddiad Pennod II ynghylch camddefnyddio safle goruchafol (a'r gwaharddiad cyfatebol dan gyfraith yr UE) i gŵyn gan BT sy'n honni bod y telerau yr oedd Sky yn cynnig cyflenwi Sky Sports 1 a 2 yn gyfanwerthol i lwyfan YouView BT yn cyfateb i gamddefnyddio safle goruchafol.
- **Cwyn gan Virgin Media yn erbyn Uwchgynghrair Pêl-droed y Gymdeithas Bêl-droed ynghylch gwerthu hawliau i wylio gemau'r Uwchgynghrair yn fyw**
  Ar 18 Tachwedd 2014, cychwynnwyd ymchwiliad gennym i fater gwerthu hawliau cyfryngau clyweledol byw yn y DU ar gyfer gemau pêl-droed yr Uwchgynghrair. Roedd hyn yn dilyn cwyn gan Virgin Media Limited yn erbyn Uwchgynghrair y Gymdeithas Bêl-droed.
- **Cwyn gan TNT Post UK LImited (Whistl erbyn hyn) ynghylch y prisiau a'r telerau ac amodau a gynigir gan Royal Mail Group Limited ar gyfer rhoi mynediad at rai gwasanaethau dosbarthu llythyrau**
  Ar 21 Chwefror 2014, agorwyd ymchwiliad gennym i gŵyn gan TNT (Whistl erbyn hyn) yng nghyswllt rhai prisiau a thelerau ac amodau a gynigir gan y Post Brenhinol am fynediad i rai gwasanaethau dosbarthu llythyrau (a elwir yn 'D+2 access').

Mae rhagor o fanylion am yr ymchwiliadau hyn ar gael yn ein Bwletin Gorfodaeth ym maes materion Cystadleuaeth a Diogelu Defnyddwyr.

Hefyd, yn 2014/15, daethom i benderfyniad terfynol yn dilyn ymchwiliad i gŵyn gan TalkTalk. Roedd TalkTalk wedi honni bod BT wedi gweithredu gwasgfa elw wrth gyflenwi band eang cyflym iawn drwy fethu â chynnal digon o fwlch elw rhwng ei gostau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi (upstream) a phrisiau ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi (downstream) o ran ei gangen manwerthu ei hun. Daeth ein hymchwiliad i'r casgliad nad oedd sail dros weithredu.

Mae'r tîm Ymchwiliadau i faterion Cystadleuaeth hefyd yn ystyried cwynion am dorri rheolau rheoleiddio, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chludo rhifau a mynediad i wasanaethau 999. Ceir crynodeb o'r gweithgareddau hyn, a gweithgareddau'r Tîm Diogelu Defnyddwyr, yn yr Atodiad ar dudalen 122.

## Gwledydd y DU

### Cynigion ar gyfer rhagor o ddatganoli

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafwyd cynigion newydd i roi rolau ychwanegol yng nghyswllt Ofcom i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, a Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Disgwylir i Senedd y DU ystyried y rhain yn ystod y flwyddyn.

Fel corff a sefydlwyd ar ôl dyfodiad datganoli, mae dyletswydd i ystyried safbwyntiau a buddiannau rhanbarthau a gwledydd y DU yn rhan greiddiol o gyfansoddiad Ofcom ac mae gan Ofcom eisoes nifer o beirianweithiau i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae gennym swyddfeydd yn y gwledydd,

Pwyllgorau Cynghori ar gyfer pob gwlad, a Phwyllgor y Gwledydd sy'n adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Ofcom. Mae gan ein Bwrdd Cynnwys a'n Paneli Defnyddwyr aelodau yn cynrychioli pob gwlad.

Rhoddodd Ofcom dystiolaeth i Gomisiwn Smith ac rydym yn barod i weithio gyda'r trefniadau arfaethedig newydd ar gyfer Cymru a'r Alban i sicrhau y gellir eu rhoi yn waith yn effeithiol ac yn brydlon os dônt yn gyfraith.



## Gogledd Iwerddon

Yn unol ag amcanion ein Cynllun Blynyddol ar gyfer Gogledd Iwerddon yn 2014/15, cyflwynwyd adroddiad gennym ar y ddarpariaeth band eang a symudol yn Adroddiad y Farchnad Gyfathrebiadau ac Adroddiad Seilwaith y DU. Gydol y flwyddyn rhoesom wybodaeth i aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon a chynghorau lleol ar y cynlluniau amrywiol sydd ar waith i wella'r ddarpariaeth symudol a band eang.

Cyhoeddasom gyngor i ddefnyddwyr ar sut i osgoi taliadau sy'n deillio o grwydro symudol anfwriadol ar ororau Gogledd Iwerddon, gan nodi'r camau y mae darparwyr gwasanaethau symudol wedi'u cymryd i helpu cwsmeriaid y mae hyn yn effeithio arnynt. Gwnaethon gynnal fforymau diwydiant ar ddarlledu, gwasanaethau post a thelegyfathrebiadau er mwyn i ddarparwyr gwasanaethau lleol allu trafod materion sy'n ymwneud â defnyddwyr a chystadleuaeth. Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiadau i randdeiliaid ar Adroddiad y Farchnad Gyfathrebiadau, yr Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a Chynllun Blynyddol drafft 2015/16.

## Yr Alban

Parhaodd ein hymchwil (ar lefel yr Alban) i edrych ar y defnydd o wasanaethau cyfathrebiadau ac agweddau tuag atynt. Gwnaethom hefyd roi sylw i'r nifer llai sy'n manteisio ar wasanaethau band eang yn Glasgow o'i gymharu ag ardaloedd eraill, mater sydd wedi bod o ddiddordeb mawr i wneuthurwyr polisi ers sawl blwyddyn.

Y dasg uchaf ei phroffil yn 2014-15 yn yr Alban oedd cynllunio a thrwyddedu sbectrwm er mwyn gallu cynnal Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow. Rhoesom drefniadau cynllunio cadarn ar waith er mwyn osgoi problemau ymyrraeth mewn perthynas â sbectrwm a allai fod wedi effeithio ar y Gemau a darparu adnoddau cadarn i ddelio â phroblemau wrth iddynt godi.

Rydym yn parhau i gefnogi Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Gyfranogiad Digidol sy'n edrych ar seilwaith a'r defnydd o dechnolegau yn y sector cyfathrebiadau ac rydym hefyd yn cyfrannu'n frwd at y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Post.

O ran ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynhalion ni ddigwyddiadau gydol y flwyddyn yn yr Alban ar y Cynllun Blynyddol, Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebiadau, radio, cysylltedd symudol, radio busnes a'r post.

## Cymru

Yn unol ag amcanion ein Cynllun Blynyddol ar gyfer Cymru yn 2014/15, cyflwynwyd adroddiad gennym ar y ddarpariaeth band eang a symudol ledled Cymru yn Adroddiad y Farchnad Gyfathrebiadau ac Adroddiad Seilwaith y DU. Gwnaethom barhau i ymgysylltu â Gweinidogion Llywodraeth Cymru a swyddogion ac aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn trafod agweddau gwahanol ar waith Ofcom, yn benodol meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf i gynrychiolwyr etholedig o ran y gwasanaethau cyfathrebiadau sydd ar gael. Roedd hyn yn cynnwys darparu cyngor rheoleiddio a thechnegol priodol i Lywodraeth Cymru i gefnogi ei hymrwymiadau polisi ar gyfer Cymru Ddigidol, yn enwedig prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru a chynllun Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus. Gwnaethom hefyd barhau i ddarparu cymorth ysgrifenyddol i Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gyfathrebu Digidol.

Gwnaethom ddatblygu ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol drwy gynnal digwyddiadau ar ein Hadroddiad ar y Farchnad Gyfathrebiadau, yr Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a Chynllun Blynyddol drafft 2015/16. Cynhaliwyd digwyddiad ar y cyd ag Undeb Amaethwyr Cymru yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru i drafod y gwasanaethau cyfathrebiadau sydd ar gael, a buom yn gweithio gyda Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom i gynnal digwyddiad ar eu hymchwil i BBaCh a Microfusnesau.

Ym mis Medi 2014, rhoesom gefnogaeth i uwchgynhadledd NATO yng ngwesty'r Celtic Manor yng Nghasnewydd, ac yn ystod y flwyddyn rhoesom dystiolaeth i gefnogi'n hymateb i Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg, rhan statudol o'r broses o osod safonau sy'n berthnasol i Ofcom ac yn cymryd lle'r cynllun iaith cyfredol.



## Safonau cynnwys, trwyddedu a gorfodi ym maes darlledu

Mae gan Ofcom amryw ddyletswyddau mewn perthynas â darlledu sy'n cynnwys sicrhau digon o amddiffyniad i'r cyhoedd rhag deunyddiau sy'n peri niwed neu dramgwydd, a rhag iddynt gael eu trin yn annheg neu rhag iddynt ddioddef unrhyw darfu diangen ar eu preifatrwydd; sicrhau amrywiaeth eang o wasanaethau teledu a radio sydd o ansawdd uchel ac sy'n apelio at ystod eang o bobl; a diogelu plant.

### Trwyddedu teledu a radio

Mae Ofcom yn cyflawni ei ddyletswyddau drwy roi trwyddedau darlledu, y mae amodau ynghlwm wrthynt. Mae'r amodau hyn yn cynnwys gofynion i dalu ffioedd, darparu gwybodaeth, cynnig rhaglenni a mathau o gynnwys penodol, a chydymffurfio â'r codau ymarfer a gyhoeddir gan Ofcom.

#### Trwyddedu teledu lleol

Eleni hysbysebodd Ofcom drwyddedau ar gyfer saith sianel deledu lleol newydd ledled y DU. Mae 33 trwydded o'r fath wedi'u dyfarnu erbyn hyn ac roedd 16 o'r rheini wedi lansio erbyn diwedd mis Mawrth 2015.



#### Radio cymunedol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 23 gwasanaeth radio cymunedol newydd wedi cael trwyddedau. O'r rhain, roedd 13 ar gyfer lleoliadau yng ngorllewin a de Swydd Efrog, Humberside a gogledd orllewin Lloegr, roedd saith yng Nghanolbarth Lloegr, ac un yn Alderney ar Ynysoedd y Sianel. Mae dros 220 gorsaf eisoes yn darlledu ledled y DU, gan ddarparu allbwn sy'n canolbwyntio ar y gymuned, cyfleoedd i wirfoddoli, a manteision cymunedol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

### Cwynion ac ymchwiliadau darlledu

Mae cwynion gan gynulleidfaoedd am achosion posibl o dorri rhwymedigaethau gan ddarlledwyr yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael eu hamddiffyn yn briodol. Mae Ofcom yn asesu pob cwyn a gaiff yn erbyn ei reolau a'i ofynion i benderfynu a yw'r gŵyn yn codi materion y gallai fod angen ymchwilio rhagor iddynt. Y mae rhagor o fanylion am nifer y cwynion a aseswyd gan Ofcom yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar dudalennau 123 a 124.

### Diogelu plant

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i ddiogelu plant mewn perthynas â darlledu. Dyma un o'n dyletswyddau pwysicaf. Mae nifer o reolau i amddiffyn plant rhag rhaglenni anaddas yn ein Cod Darlledu, gan gynnwys rheolau am y trothwy teledu am 9pm.

#### Trais cyn y trothwy

Ym mis Gorffennaf 2014, dirwyodd Ofcom Discovery Communications Europe Limited £100,000 am ddangos golygfeydd annymunol yn ei gyfres ar droseddau go iawn, Deadly Women, ar sianel Investigation Discovery. Roedd y gosb yn ystyried natur ddifrifol yr achosion o dorri'r Cod Darlledu yn y cyswllt hwn. Roedd y rhaglenni wedi dangos trais difrifol estynedig cyn y trothwy dros gyfnod o bum diwrnod yn ystod gwyliau ysgol.

Yn yr un mis, cyhoeddodd Ofcom ddau adroddiad ar drais a ddangoswyd ar raglenni teledu. Yn yr adroddiad cyntaf, canfuwyd bod gwahaniaethau bach ym marn gwahanol grwpiau demograffig am gynnwys treisgar. Ond, roedd pob grŵp yn gytûn na ddylai plant weld unrhyw drais rhywiol ar y teledu cyn y trothwy nac yn syth ar ôl y trothwy. Roedd yr ail wedi dadansoddi pedair opera sebon boblogaidd, ac wedi edrych ar enghreifftiau o drais, neu fygythiad o drais, a barn pobl amdanynt. Anaml iawn y gwelid golygfeydd cryf, a oedd yn portreadu trais mewn modd a allai wneud i'r gwyliwr deimlo'n anghyfforddus. Canfu'r adroddiad hwn hefyd fod faint o drais, neu fygythiadau o drais, a ddangoswyd yn amrywio dros y blynyddoedd. Bydd yr ymchwil hwn yn llywio ein dull o asesu trais ar y teledu.

### Gwasanaethau ar-alwad

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i reoleiddio gwasanaethau fideo ar-alwad y DU sy'n dod o dan y diffiniad statudol o wasanaethau rhaglenni ar-alwad. Dyma gyfrifoldeb a rannwn gyda'n cyd-reoleiddwyr, ATVOD (yr Awdurdod ar gyfer Teledu Ar-alwad) a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu.

Eleni rydym wedi parhau i weithredu'n gadarn i ddiogelu plant rhag gynnwys fideo-ar-alwad a



allai fod yn niweidiol. Er enghraifft, ataliwyd dau wasanaeth fideo ar-alwad a oedd yn cael eu darparu gan HardGlam ac Extreme Entertainment Ltd. Roedd y ddau wasanaeth hyn yn cynnig cynnwys pornograffig helaeth heb amddiffyniadau priodol i atal plant rhag cael gafael arno. Rhoddodd Ofcom hefyd gosb ariannol ar ddarparwr HardGlam.

### Diogelu plant sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu

Yn dilyn ymchwiliadau'n ymwneud â rhoi gofal priodol i blant sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni, mae Ofcom wedi diweddaru ei arweiniad ar ei reolau yn y maes hwn. Mae hwn yn cynnwys yr arferion gorau diweddaraf ac mae'n darparu dolenni i achosion cynsail i helpu darlledwyr i gydymffurfio.



### Amddiffyniad rhag safbwyntiau eithafol


Mae gan Ofcom ddyletswyddau i sicrhau nad oes deunydd a allai annog neu ysgogi troseddu neu anhrefn yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio, a bod rhaglenni crefyddol yn cael eu trin â'r lefel briodol o gyfrifoldeb. Mae gennym reolau llym ar gyfer sicrhau y cyflawnir y dyletswyddau hyn, ac os bydd darlledwyr yn torri'r rheolau hynny, rydym yn cymryd camau gorfodi cadarn.

Ar hyn o bryd mae Ofcom yn ehangu ei raglen o fonitro cynnwys. Byddwn yn canolbwyntio ar y sianelau hynny a all achosi mwy o berygl o niwed i'r cyhoedd.

### Adolygu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus

Mae'r Senedd yn mynnu bod Ofcom yn cynnal adolygiadau o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (DGC), gan gynnwys i ba raddau y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni dibenion DGC, darparu adroddiadau ar sut i gynnal a gwella ansawdd DGC i'r dyfodol ac adolygu i ba raddau y mae deunydd mewn gwasanaethau cyfryngau ar-lein wedi cyfrannu at gyflawni amcanion gwasanaeth cyhoeddus.

Ym mis Rhagfyr 2014, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad yn nodi ein canfyddiadau dros dro ar berfformiad y system DGC ar draws y DU i gyd, ac ymhob un o wledydd y DU yn unigol. Roedd hwn yn disgrifio'r newidiadau sydd wedi digwydd yn y sector DGC



ers 2008 ac yn cynnwys ymchwil meintiol ac ansoddol newydd mewn perthynas â chynulleidfaoedd.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn ystyried ffyrdd posibl o gynnal a chryfhau'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus, megis sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael a bod modd ei ganfod yn hawdd, y berthynas rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu annibynnol a rôl sianeli portffolio darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad terfynol, yn nodi ein canfyddiadau mewn perthynas â darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac unrhyw gynigion neu argymhellion, erbyn haf 2015.

## Rhyngwladol

Yn 2014-15, parhaodd Ofcom i ymgysylltu'n agos â'r sefydliadau Ewropeaidd i sicrhau bod cynlluniau polisi Ewropeaidd yn yr holl sectorau rydym yn eu rheoleiddio yn cael eu datblygu a'u gweithredu mewn ffordd a fydd o fudd i ddinasyddion a defnyddwyr y DU. Aeth y gwaith paratoi yn ei flaen ar gyfer Cynhadledd Radio'r Byd a fydd yn cael ei gynnal ddiwedd 2015 ac Ofcom sy'n arwain ar ran y DU. Roedd y rheoliad drafft, Cyfandir Cysylltiedig, yn flaenoriaeth allweddol arall, gydag Ofcom yn darparu cyngor arbenigol drwy BEREC, ac yn uniongyrchol i swyddogion a deddfwyr yn sefydliadau'r UE wrth i'r negodiadau barhau.

O ran materion clyweledol, mae Ofcom wedi parhau i gydweithio'n agos gyda rheoleiddwyr yn Ewrop gan fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi dechrau paratoi ar gyfer adolygiad o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol. Yn y sector post, mae Ofcom wedi gweithio'n agos gyda phwyllgorau post Ewropeaidd i gynrychioli buddiannau'r DU ac er mwyn deall yn well yr heriau cyffredin sy'n wynebu'r sector. Y tu allan i Ewrop, roeddem wedi cynrychioli'r DU ar weithgorau radiogyfathrebiadau a safoni telegyfathrebiadau yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol, ac wedi cyfrannu at waith y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

Bydd y flwyddyn sydd i ddod yn flwyddyn hollbwysig mewn dadleuon rhyngwladol ar bolisi cyfathrebiadau. Ym mis Mai 2015, disgrifiodd y Comisiwn Ewropeaidd ei weledigaeth ar gyfer y sector digidol yn ei strategaeth, y Farchnad Ddigidol Sengl. Rydym yn disgwyl cyfnod prysur o weithgarwch yn ymwneud â deddfwriaeth a fydd yn mynd i galon y sector cyfathrebiadau, a byddwn yn parhau i gyfrannu'n frwd at y dadleuon hyn.



## Sbectrwm

Yn ychwanegol at y meysydd blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â sbectrwm sy'n cael eu gwerthuso ar dudalennau 27, 28 a 29, gwnaethom weithredu ar amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â sbectrwm yn ystod y flwyddyn.

### Paratoadau'r DU ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2015

Mae Ofcom yn cynrychioli'r DU yng Nghynadleddau Radiogyfathrebu'r Byd. Yn y cynadleddau hyn y gwneir penderfyniadau allweddol yn ymwneud â phennu a chysoni bandiau sbectrwm yn rhyngwladol. Bydd y gynhadledd nesaf yn cael ei chynnal yn ddiweddarach eleni.

Bydd Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2015 yn ystyried amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys sbectrwm band eang symudol, morol, awyrenegol, lloeren a defnydd gwyddoniaeth o sbectrwm. Er bod gan wledydd hawl sofran i gynllunio'r defnydd o sbectrwm yn eu tiriogaethau'u hunain, mae manteision sylweddol i fframweithiau cyffredin ar lefelau dwyochrog, rhanbarthol a byd-eang, sy'n cael eu trafod yn y cynadleddau hyn.

Cyn Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2015, mae Ofcom wedi cyhoeddi ymgynghoriad a diweddariad i ddisgrifio safbwyntiau newydd y DU ac er mwyn cyfrannu at y broses baratoi barhaus ac at y rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid.



### Gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE)

Mae Ofcom yn gweithio i sicrhau bod defnyddwyr microffonau di-wifr yn parhau i gael mynediad i'r tonnau awyr y maent eu hangen i gyflwyno'u buddion diwylliannol pwysig. Eleni, rydym wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i asesu effaith newidiadau i fynediad i sbectrwm a phennu camau lliniaru posibl yn dilyn colli mynediad i'r band 700MHz yn y dyfodol.

Mae ein gwaith wedi cynnwys adolygiad o bwys i ddiogelu buddiannau'r sector PMSE. Gwneir hyn i wneud yn siŵr y bydd theatrau, lleoliadau chwaraeon a digwyddiadau cerddoriaeth yn parhau i allu cael gafael ar ddigon o sbectrwm yn y dyfodol.

Mae'r adolygiad hwn eisoes wedi nodi nifer o fandiau amledd a allai gael eu defnyddio gan ficroffonau di-wifr yn ychwanegol at y bandiau y byddant yn parhau i'w rhannu â theledu daearol digidol. Gan weithio'n agos gyda'r gymuned PMSE, rydym yn bwriadu cadarnhau pa fandiau sbectrwm fydd ar gael i ddefnyddwyr PMSE yn ddiweddarach eleni.

### Rhyngrwyd Pethau a Chyfathrebiadau peiriant-i-beiriant

Mae Ofcom wedi bod yn gweithio i gefnogi datblygiad y Rhyngrwyd Pethau, sy'n debygol o olygu biliynau o ddyfeisiau a theclynnau clyfar wedi'u cysylltu'n ddi-wifr â'r rhyngrwyd

ac â'i gilydd. Mae gwasanaethau'r Rhyngrwyd Pethau yn cwmpasu diwydiannau o amaethyddiaeth ac ynni i trafnidiaeth, gofal iechyd a llawer mwy, a allai olygu manteision sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr.

Mae gennym eisoes dros 40 miliwn o ddyfeisiau wedi'u cysylltu drwy'r Rhyngrwyd Pethau yn y DU ei hun. Rhagwelir y bydd y niferoedd hyn wyth gwaith yn fwy erbyn 2022, gyda channoedd o filiynau o ddyfeisiau yn gwneud biliwn a mwy o drafodion data bob dydd. Gan y bydd argaeledd sbectrwm radio yn bwysig ar gyfer cyflawni hyn, rydym wedi nodi hyn yn faes blaenoriaeth.

Ym mis Gorffennaf 2014, gwnaethom gyhoeddi Cais am Fewnbwn i helpu i lywio'n dealltwriaeth o'r camau a fydd yn ofynnol i sicrhau y bydd gan y DU rôl arweiniol yn y Rhyngrwyd Pethau newydd. Ar wahân, rhyddhaodd Ofcom sbectrwm yn y bandiau 870 i 876MHz a 915 i 921MHz ar gyfer dyfeisiau pellter agos, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer cyfathrebiadau peiriant-i-beiriant (M2M).

### Sbectrwm amledd uchel ar gyfer cyfathrebiadau symudol '5G'

Ddechrau 2015, cyhoeddodd Ofcom Gais am Fewnbwn, yn gofyn i'r diwydiant helpu i gynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm y genhedlaeth nesaf o gyfathrebiadau symudol, sef cyfathrebiadau symudol 5G.

Gwnaethom wahodd y diwydiant i roi sylwadau ar y defnydd o sbectrwm amledd uchel, uwchben 6GHz, a allai fod yn addas ar gyfer sawl defnydd. Gallai'r rhain amrywio o fasnachu ariannol ac adloniant i hapchwarae a thafluniadau holograffig, ynghyd â'r potensial i gefnogi defnyddwyr y mae eu gofynion yn uchel iawn mewn ardaloedd prysur fel canol dinasoedd. Disgwylir y bydd 5G yn gallu darparu cyflymderau data eithriadol o gyflym - 10 i 50 Gbit yr eiliad o bosib - o'i gymharu â chyflymder lawrlwytho cyfartalog 4G heddiw o 15 Mbit yr eiliad.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud fel rhan o Strategaeth Data Symudol Ofcom, ein strategaeth hirdymor i fynd i'r afael â'r defnydd cynyddol o ddata gan ddyfeisiau symudol fel ffonau clyfar, cyfrifiaduron llechen a gliniaduron.

### Darpariaeth a ffioedd trwydded blynyddol

Yn 2010, dywedodd y Llywodraeth wrth Ofcom am adolygu'r ffioedd trwydded blynyddol sy'n cael eu talu ar gyfer y bandiau sbectrwm 900MHz a 1800MHz i adlewyrchu eu gwerth llawn yn y farchnad, ar ôl cwblhau'r arwerthiant 4G.

Ar ôl ymgynghori am y tro cyntaf ym mis Hydref 2013, gwnaethom ailymgynghori ym mis Awst 2014. Cafwyd cytundeb wedyn rhwng deiliaid y trwyddedau a'r Llywodraeth ym mis Rhagfyr 2014 ar rwymedigaeth newydd i sicrhau darpariaeth i 90% o arwynebedd y wlad. Gwnaethom weithredu'r rhwymedigaeth newydd uchod drwy amrywio trwyddedau cwmnïau rhwydweithiau symudol ym mis Ionawr 2015. Wedyn, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad arall ym mis Chwefror 2015 i helpu i asesu a ddylai'r rhwymedigaeth newydd effeithio ar ffioedd trwyddedau blynyddol yn y dyfodol.

## Gorfodi sbectrwm: cadw'r tonnau awyr yn glir

Mae **gorsafoedd radio sy'n darlledu'n anghyfreithlon** (gorsafoedd radio 'pirate') yn achosi perygl sylweddol i ddiogelwch y cyhoedd. Maent yn achosi ymyrraeth niweidiol, yn difrodi eiddo awdurdodau lleol, yn codi erialau peryglus ac yn gosod eu trosglwyddyddion dros dro mewn pibellau awyru a siafftiau lifftiau. Y llynedd, ymchwiliodd Ofcom i 414 achos o ymyrraeth a achoswyd gan ddarlledwyr anghyfreithlon, gan gynnwys 44 a oedd yn effeithio ar gyfathrebiadau hanfodol sy'n diogelu bywydau yn achos awyrennau.

Mae gennym ryw 100 o orsafoedd radio anghyfreithlon yn y DU, a thri chwarter ohonynt yn Llundain. Mae mynd i'r afael â'r broblem hon yn heriol iawn ac nid yw gorfodi ar ei ben ei hun yn ddigon ar gyfer ei datrys. Rydym yn awr yn gweithio mewn partneriaeth agos â pherchnogion adeiladau a strwythurau eraill a ddefnyddir gan y darlledwyr anghyfreithlon er mwyn mabwysiadu dull 'dim goddefgarwch' effeithiol sy'n cynnwys gwneud gwelliannau i ddiogelwch a defnyddio gwaharddebau gwrthgymdeithasol yn erbyn troseddwyr mynych. Enghraifft ddiweddar yw ein partneriaeth ag awdurdod lleol yn Llundain lle roedd 14 gorsaf anghyfreithlon yn gweithredu. Erbyn diwedd 2014, datganwyd yn swyddogol nad oedd dim darlledwyr anghyfreithlon yn yr ardal. Y llynedd, cafodd 20% o orsafoedd anghyfreithlon y DU eu tynnu oddi ar yr awyr yn barhaol.

Gall **cyfarpar nad yw'n cydymffurfio** darfu ar gyfathrebiadau radio. Mae Ofcom wedi llwyddo i gael gwared â gwerth bron i £1m o gyfarpar radio a allai fod wedi achosi niwed o'r farchnad.

Mae **sancsiynau** yn cael eu defnyddio i atal a chosbi troseddwyr sy'n defnyddio'r sbectrwm yn anghyfreithlon. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom adolygu 160 o achosion, cyhoeddi 54 hysbysiad cosb benodedig a dwyn 16 o achosion gerbron y llysoedd.

Mae mwy a mwy o alw am sbectrwm yn golygu bod gorfodaeth yn rhan hanfodol o'n pecyn i ddiogelu'r tonnau awyr, lleihau ymyrraeth i'r eithaf a sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o sbectrwm radio sifil y DU.

# Prif risgiau a materion sy’n achosi ansicrwydd

Mae’r tabl isod yn dangos rhai o’r prif faterion sy’n achosi ansicrwydd a’r prif risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd yr ydym yn rheoli risgiau ar gael ar dudalen 70.

| Amcan/Maes Busnes | Risg | Lliniariad |
|---|---|---|
| **Risgiau polisi** | | |
| Cyfuno cyflenwyr yn y farchnad ffonau symudol | Potensial am lai o gystadleuaeth yn y marchnadoedd manwerthu a chyfanwerthu ar gyfer gwasanaethau ffonau symudol a all effeithio ar y buddion i ddefnyddwyr a thanseilio arloesedd a buddsoddiad. | Byddwn yn gweithio gyda Chyfarwyddiaeth Gyffredinol y CE ar gyfer Cystadleuaeth a’r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn perthynas ag unrhyw uno yn y sector.<br>Rhoddir ystyriaeth i unrhyw ymyriadau amgen a all arwain at well canlyniadau i ddefnyddwyr a dinasyddion. |
| Ystumio cystadleuaeth yn y marchnadoedd symudol a llinell sefydlog | Gall caffaeliadau yn y farchnad arwain at ystumio'r farchnad a chystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau symudol a llinell sefydlog. | Byddwn yn cynnal gwaith i ystyried yn ofalus effaith caffaeliadau yn y sector a defnyddio'r allbwn fel sail i'n rhaglen waith yn y maes hwn. |
| Galwadau mud a galwadau sy’n cael eu gadael | Efallai y bydd defnyddwyr yn dioddef niwed os gwelir inni fod yn aneffeithiol yn atal galwadau niwsans. | Mae gennym gynllun gweithredu ar y cyd gyda Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth i fynd i’r afael â mater ehangach galwadau niwsans - sy’n canolbwyntio ar orfodi; olrhain galwadau; gweithio’n gydgysylltiedig ag eraill; gwybodaeth i ddefnyddwyr a dangos pwy sy’n galw.<br>Rydym yn parhau i weithio’n agos gyda’r Llywodraeth ar nifer o faterion yn ymwneud â galwadau niwsans. |
| Effeithiolrwydd y diwygiadau i rifau nad ydynt yn rhai daearyddol | Efallai nad yw darparwyr gwasanaethau yn ddigon parod ar gyfer y newidiadau i wasanaethau galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol ac efallai nad yw'r ymgyrch gyfathrebiadau gysylltiedig yn ddigon effeithiol i roi gwybod i ddefnyddwyr. | Aeth gwefan UK Calling yn fyw ym mis Medi 2014 a chafodd ymgyrch gyfathrebu ffurfiol ei lansio ym mis Chwefror 2015.<br>Rydym yn cynnal ymchwil defnyddwyr rheolaidd i fesur effeithiolrwydd yr ymgyrch gyfathrebu. |

| Amcan/Maes Busnes | Risg | Lliniariad |
|---|---|---|
| **Risgiau polisi** | | |
| Rhaglen darpariaeth symudol | Mae helpu i hyrwyddo gwasanaethau symudol gwell yn un o brif amcanion Ofcom. Mae ein gwaith yn eang, ond mae'n canolbwyntio ar bedair prif faes:<br>• gweithio gyda'r diwydiant i wella'r ddarpariaeth ar y rhwydweithiau rheilffyrdd;<br>• cefnogi gwaith y Llywodraeth, yn bennaf drwy'r Prosiect Seilwaith Symudol, i wella'r ddarpariaeth symudol;<br>• darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr, gan gynnwys cyhoeddi mapiau darpariaeth rhyngweithiol; a<br>• datblygu dealltwriaeth well rhwng y rhagolygon ar gyfer darpariaeth a phrofiad gwirioneddol y defnyddiwr.<br>Os na fyddwn yn llwyddo i gyflawni ein rhaglen waith, gall danseilio'r buddion y gall defnyddwyr eu cael o wasanaethau symudol. | Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Drafnidiaeth i wella ansawdd y data darpariaeth ar y rhwydwaith rheilffyrdd.<br>Ym mis Rhagfyr, daeth Llywodraeth y DU i gytundeb gwirfoddol â'r pedwar cwmni rhwydwaith symudol i sicrhau darpariaeth llais i 90% o arwynebedd y DU erbyn diwedd 2017.<br>Cafodd mapiau darpariaeth symudol eu cynnwys gennym yn Adroddiad Seilwaith Ofcom ar gyfer 2014, ac rydym yn parhau i weithio i sicrhau y bydd mapiau sy'n benodol i gwmnïau ar gael yn ystod haf 2015.<br>Cynhaliwyd profion gyrru gennym er mwyn deall yn well y cysylltiad rhwng galwadau sy'n cael eu gollwng ac ansawdd y ddarpariaeth symudol a ragwelir. |
| Newid cyflym yn y sectorau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom | Mae'r sectorau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom yn newid yn gyflym, sy'n golygu ei bod yn anodd datblygu cynlluniau i ragweld gweithgareddau neu ddigwyddiadau mawr a allai ofyn am gyfranogiad gan Ofcom.<br>Yn yr amgylchedd presennol, gall gwaith ychwanegol heb ei gynllunio arwain at ailflaenoriaethu gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt ac sydd ar y gweill a allai arwain at oedi wrth ddarparu manteision i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion. | Rydym yn ceisio sicrhau arbenigedd eang a'r gallu i fod yn hyblyg mewn timau prosiect er mwyn i ni allu addasu neu symud adnoddau ar fyr rybudd os oes angen.<br>Mae Pwyllgor Gwaith Ofcom yn gyfrifol am flaenoriaethu prosiectau ac addasu cynlluniau gwaith yn ôl y galw.<br>Mae Cynllun Blynyddol Ofcom, sy'n amlinellu ei flaenoriaethau strategol, yn destun ymgynghoriad cyhoeddus bob blwyddyn. |
| **Risgiau gweithredol** | | |
| Seiberddiogelwch | Gallai ymosodiadau gan drydydd partïon danseilio cyfrinachedd, hygrededd neu argaeledd gwybodaeth rydyn ni neu ein systemau TGCh yn ei dal. | Mae Ofcom wedi rhoi technolegau diogelwch ar waith i sicrhau diogelwch y terfyn allanol. Mae prosesau mewnol wedi'u sefydlu i reoli diogelwch ac mae staff yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch.<br>Fel rhan o'n rhaglen wella barhaus, rydym yn cynnal adolygiad diogelwch a ddylai fod wedi'i gwblhau yn ystod haf 2015. |
| Cyllideb Ofcom | Gall y gofyniad ddod o hyd i ragor o arbedion ar ôl cyfnod Adolygiad o Wariant 2013 ynghyd ag unrhyw waith heb ei gynllunio neu heb ei ragweld y bydd y Llywodraeth yn gofyn amdano danseilio'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau strategol. | Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Thrysorlys EM, gan wneud yn fawr o'r profiad yr ydym wedi'i ennill ers Adolygiad Gwariant 2010.<br>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gynllun ariannol pum mlynedd newydd a fydd yn cynnwys pennu rhagor o fesurau effeithlonrwydd posibl. |

# Adolygiad Ariannol

### Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian

2014/15 oedd blwyddyn olaf Adolygiad o Wariant y Trysorlys dros bedair blynedd yng nghyswllt Ofcom. Rydym wedi ymateb i'r sialensiau sy'n wynebu gwariant cyhoeddus drwy adolygu sut rydym yn rheoleiddio'n effeithiol ac yn gymesur er budd dinasyddion a defnyddwyr, ond gan sicrhau gwerth am arian i'n rhanddeiliaid.

Yn 2010, dechreusom ar ein Prosiect Adolygiad o Wariant mewnol, ac fel rhan o'r adolygiad hwnnw lluniwyd cyfres o fesurau i sicrhau 28.2% o ostyngiad termau real mewn costau dros gyfnod o bedair blynedd, ond gan barhau i gyflawni yn erbyn ein holl ymrwymiadau.

Y gyllideb a bennwyd ar gyfer 2014/15 oedd £117.0m, gan leihau'r gost reoleiddio gyffredinol 33.4%[5] mewn termau real o'i gymharu â 2010/11, a chan ragori ar ein hymrwymiad gwreiddiol. Cyflawnwyd hyn gennym drwy adolygiad trwyadl o'n gweithrediadau gan gynnwys:

- lleihau nifer y staff a rhewi cyflogau;
- rhoi'r gorau i ddefnyddio ac is-osod lle dros ben mewn adeiladau nad oedd arnom ni ei angen ar gyfer y dyfodol, a llwyddo i beidio â chael cynnydd yn y rhent ar ein prif swyddfa yn yr adolygiad rhent;
- lleihau treuliau a rhoi polisïau cynhaliaeth a theithio mwy llym ar waith;
- prosesau caffael a rheoli cyflenwyr mwy effeithiol;
- lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â'n hymrwymiadau rhyngwladol;
- symleiddio ein swyddogaethau swyddfa gefn; a
- lleihau nifer y gweithwyr dros dro a chontract.

Mae'n cyllideb ar gyfer 2015/16 yn adeiladu ar yr arbedion effeithlonrwydd rydym wedi'u cyflawni eisoes drwy ein Prosiect Adolygiad o Wariant mewnol. Rydym wedi dod o hyd i arbedion eraill y bwriadwn eu gwneud ac rydym wedi gosod cyllideb o £114.3m i adlewyrchu hyn: gostyngiad 3.4%[6] mewn termau real o'i gymharu â chyllideb 2014/15.

Yn 2015/16, byddwn yn parhau i wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael i ni a byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau gwerth am arian i randdeiliaid ac i drethdalwyr. Yn benodol, byddwn yn:

- gwneud gwaith trwyddedu PMSE (gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig) yn fewnol;
- trawsnewid ein gwasanaethau TGCh, gan arloesi a chyflawni yng nghyswllt ein strategaeth TGCh, a chan gynnwys defnyddio gwasanaethau cwmwl pan fo hynny'n briodol. Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth dendro'n gystadleuol am y gwasanaethau TGCh craidd sy'n cael eu darparu i ni, ac rydym yn disgwyl gweld budd y gwaith hwn yn dod i'r amlwg o 2016 ymlaen;
- cynnal adolygiadau ar sut rydym yn cael gafael ar swyddogaethau a gwasanaethau allweddol, fel rheoli cyfleusterau a gwasanaethau cyflogres a buddion cyflogeion, er mwyn sicrhau rhagor o arbedion;
- codi ffioedd am fynychu digwyddiadau lle mae rhanddeiliaid yn gofyn am fwy o wasanaeth gan ein timau Peirianneg a Gorfodaeth Sbectrwm na'r hyn sy'n ofynnol drwy statud. Rydym eisoes wedi darparu gwasanaethau y codwn dâl amdanynt ar gyfer nifer o ddigwyddiadau pwysig, gan gynnwys Formula One a Wimbledon. Rydym hefyd yn gwneud gwaith ymgynghori ym maes trwyddedu, ac yn codi tâl am hynny, pan mae angen ein harbenigedd cyn i randdeiliaid wneud ceisiadau am drwyddedau;
- Yn 2014/15, gwnaethom gwblhau ein gwaith yn ailstrwythuro ein tîm Peirianneg a Gorfodaeth Sbectrwm i wneud mwy o welliannau i ddiwallu anghenion defnyddwyr sbectrwm. Arweiniodd hyn at ragor o ostyngiadau yn nifer y staff a chostau yn y maes hwn ac ad-drefnu ein portffolio eiddo rhanbarthol;
- dod o hyd i gyfleoedd eraill i gynhyrchu arian ychwanegol ar gyfer y Trysorlys. Er enghraifft, rydym wedi casglu £1.5m yn barod oddi wrth y diwydiant fel rhan o gynllun peilot dwy flynedd, a ddaw i ben ym mis Ebrill 2015, i ddiogelu'r cyflenwad o rifau ffôn daearyddol; a
- parhau i adolygu ein gofynion o ran eiddo. Rydym ni a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a Belfast eisoes wedi cytuno ar drefniadau cydleoli, a byddwn yn gweithio i edrych ar ein hôl troed mewn safleoedd eraill a'i leihau pan fo hynny'n bosibl.

[5] Ar ôl rhoi cyfrif am yr arbedion a sicrhawyd yn dilyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau post o Postcomm ym mis Hydref 2011.

[6] Seiliedig ar RPI o 1.1% ym mis Ionawr 2015

## Perfformiad ariannol 2015/15

Yn 2014/15, sicrhaodd Ofcom flwyddyn arall o arbedion cyllidebol sylweddol, gyda chost rhedeg flynyddol o £110.7m ar sail arian (alldro gweithredol), fel y nodir yn Nodyn 2 i'r cyfrifon. Mae hyn yn £6.3m o arbediad yn erbyn cyllideb o 117m. Sicrhawyd yr arbedion drwy wneud defnydd effeithlon o'r adnoddau a oedd ar gael, rhywfaint o oedi yn recriwtio staff, blaenoriaethu gweithgareddau ac ailamserlennu rhai gweithgareddau. Yn benodol bu i lai na'r disgwyl o weithgarwch cyfreithiol ac arbedion o gwblhau'r adolygiad rhent ar ein prif swyddfa yn llwyddiannus gyfrannu at leihau'r costau ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r alldro gweithredol gwirioneddol wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol, yn rhannol oherwydd y costau a wynebwyd yn 2013/14 yn lliniaru ar risgiau ar gyfer y dyfodol mewn meysydd allweddol megis ein rhwymedigaeth o ran ein pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Ar ben hynny, mae Ofcom wedi anfonebu ac wedi casglu cyfanswm o £272.6m ar gyfer y pwrs cyhoeddus yn ystod y flwyddyn oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, taliadau ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau darlledu a drwy osod dirwyon a chosbau ar randdeiliaid, fel y'u cyflwynir yng Nghyfrifon Adran 400.

## Fframwaith ariannol

Dan Baragraff 8(1) o'r Atodlen i Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae gofyn i Ofcom gydbwyso ei wariant â'i incwm ym mhob blwyddyn ariannol.

Mae Adran 38 ac Adran 347 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Atodlen 4 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm gan bob un o'r sectorau y mae'n ei reoleiddio i dalu'r costau a ddaw i ran Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw.

Rhaid i Ofcom hefyd rannu ei gostau gweithredol cyffredinol (y rheini nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw sector penodol) mewn modd cymesur ar draws pob un o'r sectorau hynny.

Bydd Ofcom yn codi ei arian o'r ffynonellau a ganlyn:

- ffioedd trwyddedau darlledu teledu;
- ffioedd trwyddedau darlledu radio;
- taliadau gweinyddol ar gyfer gwasanaethau a rhwydweithiau electronig a darparu cyfleusterau cysylltiedig;
- ffioedd gweinyddol ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau post;
- arian i dalu costau gweithredu Ofcom am reoli'r sbectrwm ar ffurf cymorth grant gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS);
- cyllid oddi wrth DCMS i dalu costau clirio a dyfarnu sbectrwm; a
- cymorth grant ar gyfer y swyddogaethau a'r dyletswyddau statudol hynny y mae'n rhaid i Ofcom eu cyflawni ond nad oes llif refeniw cyfatebol ar eu cyfer.

Bydd Ofcom hefyd yn cael incwm rhent o le mewn swyddfa mae'n ei roi ar les, llog ar gyfrifon banc ac incwm o wasanaethau sy'n ychwanegol at ddyletswyddau statudol Ofcom.

## Rheolaeth ariannol

Mae deall ein costau a rheoli arian yn gadarn yn hollbwysig er mwyn i Ofcom gyflawni ei ddibenion strategol ar yr un pryd â chyrraedd y targedau uchelgeisiol a osodwyd fel rhan o'n hadolygiad o wariant.

I gyflawni hyn, mae'r tîm cyllid yn parhau i ganolbwyntio ar gymorth ariannol effeithiol y grwpiau gweithredu amrywiol yn Ofcom. Mae'r tîm yn cefnogi'r sefydliad drwy gael gwerth am arian drwy brosesau caffael masnachol a rheoli cyflenwyr; rhagweld gwariant a chyllidebu amserol a chywir; blaenoriaethu adnoddau a gweithgareddau; darparu adroddiadau rheoli cynhwysfawr; rheoli risg; sicrhau y cydymffurfir â rheolaethau allweddol a phrosesau trafodol effeithlon.

## Incwm Gweithredol

Mae cyfanswm incwm gweithredol Ofcom yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn gwahanu'r incwm a geir sy'n ymwneud â'r rhaglen clirio a dyfarnu sbectrwm (SCAP), gan fod hon yn ddyletswydd ychwanegol sydd tu allan i'n cyllideb weithredol graidd.

Roedd incwm ar gyfer clirio a dyfarnu sbectrwm yn £4.3m am y flwyddyn (2013/14: £6.1m).

- Cafwyd £1.8m o ostyngiad ar ôl cwblhau'r rhaglen clirio a dyfarnu sbectrwm ar gyfer y bandiau sbectrwm 800MHz a 2.6GHz yn ystod 2014/15.

Roedd incwm Ofcom heb gynnwys clirio a dyfarnu sbectrwm ar gyfer 2014/15 yn £111.2m (2013/14: £112.1m). Dyma rai o'r newidiadau ers y flwyddyn flaenorol:

- £1.5m o ostyngiad yn y cymorth grant ar gyfer rheoli sbectrwm. Y rheswm am hyn yw'r costau is yn ymwneud â rheoli sbectrwm, yn ystod y flwyddyn a hefyd costau uwch a wynebwyd yn 2013/14 i liniaru ar risgiau i'r dyfodol yn ein rhwymedigaeth ar gyfer ein pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.
- £0.4m o gynnydd yn y sector post. Mae hwn yn deillio'n bennaf o'r oedi gyda datblygu fframwaith gogwydd costau ar gyfer y post yn 2013/14, a mwy o weithgarwch yn 2014/15 ar adolygu cystadleuaeth pen-i-ben a'r adolygiad o brisiau mynediad.

2014/15 hefyd oedd blwyddyn gyntaf Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN) ac Ofcom yw'r rheoleiddiwr sy'n gwesteio. Roedd yr incwm a gasglwyd gan aelodau UKRN i adennill y costau gweithredu cysylltiedig yn £0.3m. Cynhyrchwyd gwarged cyllido o £0.1m a bydd yn cael ei adlewyrchu yn ffioedd yr aelodau ar gyfer 2015/16.

## Gwariant gweithredol

Cafodd gwariant yn 2014/15 ar glirio a dyfarnu sbectrwm o £4.1m (2013/14: £5.8m) ei leihau oherwydd bod y rhaglen clirio a dyfarnu'r sbectrwm 800MHz a 2.6GHz wedi cael ei chwblhau ym mis Gorffennaf 2014. Yn 2014/15 mae'r gwariant yn ymwneud yn bennaf â chlirio'r band 700MHz a'r gwaith parhaus ar Ddiwygio Sbectrwm y Sector Cyhoeddus (PSSR) ar gyfer y bandiau 2.3GHz a 3.4GHz.

Roedd costau gweithredol eraill yn ymwneud â chyfrifoldebau craidd Ofcom yn 2014/15 yn £49.7m, yn unol â'r flwyddyn flaenorol (2013/14: £49.6m). Roedd y gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y blynyddoedd ariannol fel a ganlyn:

- £1.0m o ostyngiad mewn amorteiddio/dibrisiant wrth i nifer o asedau ddod i ddiwedd eu cyfnod amorteiddio;
- £0.9m o ostyngiad mewn costau adeiladau, wrth i'r adolygiad rhent ar ein prif swyddfa gael ei gwblhau'n llwyddiannus a rhyddhau'r croniad cysylltiedig;
- £0.2m o ostyngiad mewn costau cerbydau, yn dilyn lleihau fflyd cerbydau ar brydles Ofcom.

Cafodd yr arbedion hyn eu gwrthbwyso'n rhannol gan:

- £0.7m o gynnydd mewn gwasanaethau a ddarperir yn allanol. Yn y flwyddyn flaenorol manteisiwyd ar nifer o gredydau gwasanaeth gan gyflenwr mawr ac mae cost eleni yn adlewyrchu darpariaeth well o ran gwasanaethau;
- yn dilyn ein penderfyniad i wneud gwaith drwyddedu PMSE yn fewnol er mwyn lleihau ein costau rhedeg, rydym wedi pennu £0.6m o ostyngiad yn y gwaith o ddatblygu'r system e-drwyddedu a gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE). Yn dilyn adolygiad o werth yr ased a oedd yn cael ei adeiladu, cafodd y gostyngiad ei gydnabod i ddod â gwerth yr ased i'r swm y gellid ei gario ymlaen a'i ddefnyddio fel rhan o waith e-drwyddedu i'r dyfodol;
- £0.4m o gynnydd mewn costau staff dros dro a recriwtio i ddelio â swyddi gwag ar draws Ofcom;
- cynnydd £0.1m mewn dyledion gwael ac amheus o ganlyniad i gynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus ac ar ôl dileu un ddyled ar ôl i fusnes rhanddeiliad gael ei ddiddymu.

Mae 787 aelod staff ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn yn debyg i niferoedd y flwyddyn flaenorol (785) ac, o'r herwydd, mae costau staff fwy neu lai yn gyson â chostau'r flwyddyn flaenorol. Adolygu ac ailstrwythuro'n swyddogaeth Gorfodaeth a Pheirianneg Sbectrwm yw'r rheswm pennaf am y cynnydd yn y costau ailstrwythuro.

## Gwarged / diffyg am y flwyddyn ariannol

### Gwarged neu ddiffyg cyllido

Bydd y refeniw gweithredol sydd ei angen ar Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau a chyflawni ei raglen waith ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail datganiad egwyddorion codi ffioedd Ofcom. Mae'r dull gweithredu hwn yn pennu'r arian gwirioneddol y mae angen ei gasglu i dalu rhwymedigaethau ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben a geir o ganlyniad i arbedion cyllidebol a sicrheir yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael ei ddychwelyd i'r rhanddeiliaid drwy leihau'r tariffau blynyddol a osodir yn y ddwy flynedd ariannol olynol.

Mae'r gwarged cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei nodi yn Nodyn 2 i'r cyfrifon, sef £6.8m (2013/14: £6.9m).

### Gwarged neu ddiffyg cyfrifyddu

Mae angen gwarged cyfrifyddu ar gyfer y gwariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad Incwm a Gwariant, gan gynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau i adennill diffyg sy'n ofynnol mewn perthynas â'r ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Mae diffyg cyfrifyddu'n digwydd pan mae dibrisiant, amorteiddio a thrafodion anariannol eraill yn fwy na'r incwm a dderbynnir i dalu costau arian eitemau cyfalaf a'r cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Y gwarged cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth, a gofnodwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw, oedd £0.1m (2013/14: gwarged o £3.1m).

## Arian ychwanegol a gesglir ar ran Trysorlys EM

Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Adroddir ar y ffioedd, y taliadau a'r cosbau, ynghyd â rhagor o fanylion, yn y Datganiadau Ariannol hyn yn nodyn 25 i'r cyfrifon.

Yn ystod 2014/15 fe wnaeth Ofcom anfonebu a chasglu £272.6m (2013/14: (£278.4m) o dan adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Mae'r arian yma wedi cael ei drosglwyddo i'r pwrs cyhoeddus. Cesglir y refeniw o bedair ffynhonnell:

- ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr;
- taliadau ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau teledu a radio;
- cosbau ariannol; a
- rhifau daearyddol (fe'i casglwyd am y tro cyntaf yn 2014/15, sef cyfanswm o £1.5m)

## Datganiad egwyddorion codi ffioedd

Mae Ofcom yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o ffioedd trwyddedau a thaliadau gweinyddol oddi wrth randdeiliaid a chymorth grant gan Lywodraeth ganol.

O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"), mae'n rhaid i Ofcom osod ffioedd trwydded yn y sector darlledu a thaliadau gweinyddol yn y sector cyfathrebiadau electronig yn unol â'r egwyddorion codi ffioedd y mae wedi'u cyhoeddi. Ceir darpariaethau tebyg yn Neddf Gwasanaethau Post 2011 o ran gosod ffioedd ar gyfer y sector gwasanaethau post. O flwyddyn i flwyddyn, rhaid i ffioedd a thaliadau o'r fath gael eu gosod er mwyn talu costau blynyddol Ofcom i reoleiddio'r sector perthnasol, ond ni ddylent fod yn fwy na'r costau hyn.

Wrth osod taliadau a ffioedd, rhaid inni sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion statudol perthnasol, gan gynnwys sicrhau eu bod yn dryloyw, yn gymesur a bod modd eu cyfiawnhau'n wrthrychol.

Cafod ein datganiad egwyddorion codi ffioedd cyfredol sy'n berthnasol i'r sectorau ("rhwydweithiau a gwasanaethau") teledu, radio a chyfathrebiadau electronig ei gyhoeddi yn 2005, ac yn 2012 gwnaethom gyhoeddi datganiad egwyddorion codi ffioedd ar gyfer y sector gwasanaethau post. Yn ystod y cyfnod, mae'r holl sectorau hyn wedi profi newid yn y farchnad ac mewn rheoleiddio. Felly, er bod y datganiadau cyfredol yn cyflawni'u dibenion statudol a gweithredol, mae'n awr yn amser priodol i adolygu ein hegwyddorion codi ffioedd a'r defnydd ohonynt i sicrhau y byddant yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Ar 26 Mawrth 2014, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad rhagarweiniol ar yr Adolygiad o Ddatganiad Egwyddorion Codi Ffioedd Ofcom ac mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/statementofchargingprinciples/?utm_source=updates&utm_medium=email&utm_campaign=socp-14

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad ail-gam mwy manwl a fydd yn adlewyrchu barn rhanddeiliaid am y materion a godwyd a'u hymgorffori, fel y bo'n briodol, mewn cynigion a dadansoddiadau mwy manwl, gyda'r newidiadau yn llifo drwodd i dariffau rhanddeiliaid yn 2016/17.

## Tariffau 2015/16

Ar 26 Mawrth 2015, cyhoeddodd Ofcom y Tablau Tariff ar gyfer 2015/16, a oedd wedi'u seilio ar amcangyfrif o £113.0m o alldro gwariant gweithredol ar gyfer 2014/15. Mae cyfanswm o £4m, y gwahaniaeth rhwng cyllideb 2014/15 o £117m a'r amcangyfrif o alldro'r gwariant gweithredol, eisoes yn cael ei roi yn ôl i randdeiliaid yn 2015/16, fel rhan o'r tariffau rheoleiddio neu i'r Llywodraeth – ac felly i'r trethdalwr – drwy lai o gymorth grant.

Bydd y swm o £2.3m, sef y gwahaniaeth rhwng yr alldro gweithredol gwirioneddol a'r amcangyfrif o'r alldro gweithredol, a ddefnyddiwyd i osod ffioedd a thaliadau ar gyfer 2015/16, yn cael ei roi yn ôl i randdeiliaid drwy dariffau ar gyfer 2016/17 yn unol â'n Datganiad Egwyddorion Codi Ffioedd.


£114.3m yw cyllideb Ofcom ar gyfer 2015/16, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond heb gynnwys dibrisiant ac amorteiddio. Mae hyn yn ostyngiad 3.4[7] y cant mewn termau real yng nghyfanswm cost flynyddol rheoleiddio.

Er bod lefel gyffredinol costau ar gyfer Ofcom yn parhau i ostwng, o fewn y cyfanswm costau hyn bydd symudiad o un flwyddyn i'r llall rhwng pob sector a reoleiddir, ac yng nghydbwysedd costau a ffioedd i'r diwydiant a'r trethdalwr trwy gymorth grant.

Yn benodol, bydd taliadau a ffioedd sectorau ar gyfer 2015/16 yn newid fel a ganlyn:

- gostyngiad 1.5 y cant ar gyfartaledd (gostyngiad 2.5 y cant mewn termau real) ar gyfer cwmnïau rhwydwaith a gwasanaeth;
- gostyngiad 1.5 y cant ar gyfartaledd (gostyngiad 2.5 y cant mewn termau real) ar gyfer y sector teledu;

**Ffigur 2: Patrymau cyllido**




[7] Ar sail RPI o 1.1% ym mis Ionawr 2015.

- gostyngiad 1.5 y cant ar gyfartaledd (gostyngiad 2.5% y cant mewn termau real) ar gyfer y sector radio; a
- cynnydd 75.4 y cant ar gyfartaledd (cynnydd 73.5% y cant mewn termau real) ar gyfer y sector gwasanaethau post. Y rheswm pennaf am hyn yw arbedion unwaith ac am byth o 2013/14 yn cael eu hymgorffori yn ffioedd 2014/15. Mae'r arbedion yn erbyn cyllideb 2014/15 gryn dipyn yn llai ac o'r herwydd mae taliadau 2015/16 yn gyfatebol uwch.

Mae Ffigur 2 yn dangos cyllid Ofcom dros y chwe blynedd diwethaf.

## Clirio sbectrwm a dyfarniadau

Roedd y gwariant yn 2014/15 ar glirio a dyfarnu sbectrwm yn £4.1m (2013/14: £5.8m) ac mae wedi lleihau ar ôl cwblhau'r rhaglen i glirio a dyfarnu'r bandiau 800MHz a 2.6GHz ym mis Gorffennaf 2014; ni chafodd grantiau ar gyfer y rhaglen hon eu talu ar ôl y dyddiad hwn.

Ym mis Tachwedd 2014, cyhoeddodd Ofcom ddatganiad yn nodi ein penderfyniad i ddarparu'r band 700MHz ar gyfer data symudol. I newid defnydd y band hwn rhaid symud rhannau o wasanaethau PMSE a theledu daearol digidol i amleddau eraill, ac mae costau ynghlwm wrth hyn.

Yng nghyllideb mis Mawrth 2015, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y byddai'n darparu hyd at £600m i gefnogi'r gwaith o newid defnydd y sbectrwm 700MHz erbyn 2022. Yn 2014/15, gwnaethom sefydlu astudiaethau ar allu'r seilwaith o ran clirio gwasanaethau teledu daearol digidol o'r band.

Mae'r gwaith o ddyfarnu'r bandiau 2.3GHz a 3.4GHz, o dan brosiect Diwygio Sbectrwm y Sector Cyhoeddus (PSSR), yn dal i fynd rhagddo ac ar gyfer arwerthu'r sbectrwm yn 2015/16. Ond mae'n sensitif i faterion cystadleuaeth a chydgyfeirio'r farchnad symudol.

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae costau'n ymwneud â'r rhaglen waith hon wedi cael eu gwahanu oddi wrth gyfrifoldebau craidd Ofcom yn y datganiadau ariannol.

## Pensiynau

Mae Ofcom yn darparu buddion pensiwn drwy lwfans pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio sydd ar gael i bob cydweithiwr. Mae cydweithwyr yn Ofcom wedi'u cyflogi ar delerau sy'n cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Gellir defnyddio'r lwfans i gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid Ofcom â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

Roedd gan gydweithwyr a ymunodd ag Ofcom o hen reoleiddwyr hawl i barhau i fod yn aelod o un o ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Mae'r ddau gynllun hwn ar gau i newydd-ddyfodiaid a daeth y drefn cronni buddion i ben ar 31 Mai 2011. O'r amser hwn, roedd yr holl aelodau cyfredol yn gallu ymuno â chynllun cyfranddeiliaid Ofcom. Mae nodiadau 1K a 21 i'r cyfrifon yn darparu rhagor o fanylion.

Roedd y prisiadau actiwaraidd diweddaraf ar gyfer y naill gynllun a'r llall, ar 31 Mawrth 2012 wedi amlygu diffyg cyllid cyfun gwerth £5.2m. Ers cwblhau'r prisiadau actiwaraidd, mae cyfanswm o £4.4m mewn perthynas â thaliadau adfer y diffyg wedi cael eu gwneud i'r cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio yn unol â'r cynlluniau adfer perthnasol.

Fodd bynnag, mae datganiadau ariannol 2014/15 yn dangos gwarged o £16.0m, yn rhannol oherwydd bod y rhwymedigaethau pensiwn dan y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod y rhwymedigaethau'n cael eu gostwng yn unol â'r elw ar fondiau o ansawdd uchel sydd, dan yr amodau marchnad cyfredol, yn wahanol iawn i'r dull sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau sylweddol mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad prisiadau'r actiwari a'r taliadau cywiro diffyg a wnaed gan Ofcom.

Gwnaeth Ofcom daliadau ariannol at Gynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ac at Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail y prisiadau actiwaraidd. Cynhwysir taliadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredol, fel y'u cyfrifir dan IAS19, yn alldro'r gwariant gweithredol a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffiau a godir ar randdeiliaid bob blwyddyn.

Ym mis Gorffennaf 2014 cafodd trafodiad blwydd-dal swmp gyda Legal & General (L&G) ei gwblhau ar gyfer adran Ofcom Cynllun Ofcom (cynllun ITC gynt). Mae Ofcom yn cyd-gyfrannu at y cynllun hwn gyda thri sefydliad arall: S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Roedd y trafodiad hwn yn dilyn adolygiad manwl a dwys o ddata dienw aelodau a'r cynllun lefel uchel, gydag ymddiriedolwr y Cynllun, i helpu i bennu rhagor o gyfleoedd sylweddol a fforddiadwy i leihau risg. O ganlyniad i'r trafodiad hwn gydag L&G, gwnaethom sicrhau gweddill holl rwymedigaethau heb eu hyswirio adran Ofcom o Gynllun Ofcom (cynllun ITC gynt). Roedd hyn yn dilyn dau bryniant-i-mewn rhannol blaenorol yn 2008 a 2012. I ariannu'r trafodiad hwn, trosglwyddwyd cyfraniadau cyflogwr o £8.0m o'r cyfrif Ymddiriedolaeth Bwydo.

Oherwydd y gwaith lliniaru ar risg hwn gan Ofcom ac Ymddiriedolwyr ac Actiwariaid y ddau gynllun pensiwn, mae 80 y cant o rwymedigaethau'r cynllun yn cael eu cefnogi bellach gan flwydd-daliadau (62 y cant yn 2013/14).

Cynhelir y gwerthusiad actiwaraidd bob tair blynedd ffurfiol nesaf ar 31 Mawrth 2015 a rhaid iddo ddod i ben erbyn 30 Mehefin 2016.

Fel rhan o'r gweithgarwch parhaus i reoli ac i liniaru ar risgiau'r cynlluniau, efallai y gellir ystyried rhagor o gynlluniau prynu buddion i mewn gyda chefnogaeth yswiriant yn y dyfodol ar gyfer aelodau sy'n bensiynwyr ochr yn ochr â chynlluniau lleihau costau a rheoli hylifedd posibl eraill.

# Sut rydyn ni'n gweithio a chyda phwy rydyn ni'n gweithio

## Statud sy'n pennu dyletswyddau a phwerau Ofcom

Gan mai Ofcom yw rheoleiddiwr annibynnol y diwydiannau cyfathrebu, rhaid i ni hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Bob blwyddyn, ar ôl ymgynghori, rydym yn cyhoeddi ein Cynllun Blynyddol, sy'n disgrifio cynlluniau newydd a gweithgareddau sy'n parhau y byddwn yn eu cyflawni i gefnogi'n dyletswyddau.

Cawn ein cyllido gan randdeiliaid drwy gasglu ffioedd trwyddedau darlledwyr teledu a radio a ffioedd gweinyddol i reoleiddio rhwydweithiau cyfathrebiadau a darparwyr post, a thrwy gymorth grant gan lywodraeth y DU. Mae rhagor o fanylion am ein trefniadau cyllido ar gael yn yr Adolygiad Ariannol ar dudalen 46.

### Mesur a rhannu canlyniadau

Yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2014/15, roeddem wedi nodi deg blaenoriaeth gydag ychydig dros 70 o brosiectau a rhaglenni wedi'u dyrannu oddi tanynt. Yn sail i hyn oedd y gofyniad i fodloni ein setliad o dan yr Adolygiad o Wariant gyda'r Trysorlys (a ddaeth i ben yn 2014/15) drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd ar draws y sefydliad. Fel y nodir yn yr Adroddiad hwn, mae Ofcom wedi gwneud cynnydd sylweddol yn cyflawni canlyniadau sy'n gysylltiedig â nifer o flaenoriaethau ei Gynllun Blynyddol a'i waith 'busnes yn ôl yr arfer' yn 2014/15.

Yn y pen draw, credwn y dylid barnu ein perfformiad drwy gyfeirio at y canlyniadau yr ydym wedi'u sicrhau i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr o ganlyniad i'n gwaith. Rydym yn mesur yn drwyadl y canlyniadau hyn mewn sawl ffordd gan ddefnyddio fframwaith cynhwysfawr a chadarn ar gyfer mesur ein perfformiad, adrodd arno a rhoi gwybod amdano yn fewnol ac yn allanol. Dros y pedair blynedd diwethaf rydym wedi canolbwyntio ar sut rydym yn rhannu'r canlyniadau hyn ag eraill, ac rydym wedi ceisio mesur ein perfformiad ein hunain wrth i ni symud drwy oes rhaglen waith. Mae'r tabl ar dudalennau 18 i 21 yn mesur ein perfformiad o ran y deg blaenoriaeth roeddem wedi'u gosod i ni'n hunain yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2014/15.

I helpu i fonitro a yw ein gwaith yn llwyddo i gyflawni'r canlyniadau a geisir, byddwn yn cynnal ymchwil defnyddwyr manwl o bryd i'w gilydd. Byddwn yn cyhoeddi'r ymchwil hon yn rheolaidd mewn arddull hwylus ar ein gwefan. Rydym yn cyhoeddi data yng nghyhoeddiadau amrywiol Ofcom gan gynnwys yr Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebiadau, Adroddiad y Farchnad Gyfathrebiadau Ryngwladol, Adroddiad Seilwaith y DU, Adroddiad Profiad Defnyddwyr, ein hadroddiadau llythrennedd yn y cyfryngau ac Adroddiad Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

### Pryd byddwn yn rheoleiddio

Yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 mae'n rhaid inni roi ystyriaeth i egwyddorion rheoleiddio gwell: y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson a dim ond wedi ei dargedu at achosion lle mae angen gweithredu yn eu cylch. Pan sefydlwyd Ofcom, buom yn ehangu'r egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion rheoleiddio a fyddai'n sail i'n gwaith beunyddiol. Am fod y sector cyfathrebu'n newid mor gyflym mae'n bwysig iawn fod gennym egwyddorion clir i'n tywys, fel y dangosir isod.

## Egwyddorion Rheoleiddio Ofcom

**Pryd byddwn yn rheoleiddio**

Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.

Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

**Sut rydym yn rheoleiddio**

Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ei amcanion.

Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw wrth eu hystyried ac o ran canlyniadau.

Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fydd wedi'i fynegi'n glir ac wedi'i adolygu'n gyhoeddus, ynghyd ag amcanion penodedig.

**Sut byddwn yn cefnogi rheoleiddio**

Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.

Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

## Lleihau rheoleiddio

Mae Ofcom yn canolbwyntio ar leihau rheoleiddio pan fo hynny'n bosibl. I ni mae 'rheoleiddio gwell' yn golygu sicrhau bod rheoleiddio'n cael ei dargedu'n briodol ac nad yw'n gosod beichiau gormodol ar randdeiliaid.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwnaethom nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig. Roedd rhai penderfyniadau'n dilyn patrwm parhaus tuag at lai o reoleiddio. Er mwyn diogelu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, roedd rhai penderfyniadau'n gofyn am reoleiddio ychwanegol neu reoleiddio cryfach. Mae Ffigur 3 yn rhoi trosolwg o'r ffordd y newidiodd y baich rheoleiddio ar randdeiliaid o ganlyniad i ddatganiadau a phenderfyniadau rheoleiddio Ofcom yn 2014/15.

## Perthynas â rhanddeiliaid

Mae swyddogaeth Ofcom fel rheoleiddiwr yn golygu ein bod yn gorfod ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau a chyrff y diwydiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, grwpiau defnyddwyr a defnyddwyr, Llywodraeth y DU a'r sefydliadau datganoledig, cyd-reoleiddwyr a rheoleiddwyr eraill. Rydym yn aelodau o Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU a Rhwydwaith Cystadleuaeth y DU, ac rydym mewn cysylltiad ag amryw o gyrff rheoleiddio a chyrff rhyngwladol.

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i sicrhau bod ei benderfyniadau'n ystyried safbwyntiau a buddiannau'r rheini sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r DU. Mae ein gweithrediadau yn y gwledydd yn cael eu harwain gan uwch gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Llundain, Glasgow a Belfast. Maent yn gweithio i sicrhau bod barn, anghenion ac amgylchiadau arbennig y gwledydd yn cael sylw'n uniongyrchol gan Ofcom.

**Ffigur 3: Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid: 2014/15**

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Llai o reoleiddio | 9 | 13 |
| Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio | 5 | 7 |
| Cymysg/dim newid/parhaus | 49 | 70 |
| Mwy o Reoleiddio/ Rheoleiddio newydd | 7 | 10 |

Mae trosolwg o'r datganiadau a'r penderfyniadau allweddol rydym wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ar gael yn y tablau yn yr Atodiad at dudalennau 116 i 121.

## Cyswllt â defnyddwyr a dinasyddion

Mae deall diddordebau ac ymddygiad defnyddwyr a dinasyddion yn hanfodol i'n gwaith. Mae Ofcom yn defnyddio ymchwil marchnad yn helaeth i ddeall patrymau sy'n ymwneud â'r nifer sy'n prynu ac yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu ac ymddygiad a phryderon defnyddwyr. Mae ein hadroddiadau blynyddol, Adroddiad Profiad Defnyddwyr ac Adroddiad y Farchnad Cyfathrebiadau, yn benodol, yn amlygu ac yn dadansoddi'r patrymau hyn. Mae Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom yn cael dros 70,000 o alwadau'n uniongyrchol gan ddefnyddwyr bob blwyddyn ac mae'r wybodaeth a gawn gan ddefnyddwyr yn ein helpu i dargedu ein polisïau a'n gwaith gorfodi. Gall defnyddwyr hefyd gysylltu â ni drwy ein gwefan. Er na allwn ddatrys cwynion unigol am wasanaethau telegyfathrebu, rydym yn cynghori'r rheini sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Ond, rydym yn delio â chwynion am raglenni teledu a radio.

Mae Pwyllgor Cynghori ymhob gwlad yn y DU yn rhoi gwybodaeth fanwl ac arbenigol i Ofcom am yr heriau penodol a wynebir gan ddinasyddion a defnyddwyr yng ngwahanol ardaloedd y DU. Mae buddiannau cenedlaethol hefyd yn cael eu cynrychioli gan Aelodau Bwrdd Cynnwys a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom. Mae'r Fforwm Defnyddwyr ar Gyfathrebiadau, sy'n cynnwys dros 50 o aelodau o gyrff defnyddwyr, yn cwrdd bob chwarter ag Ofcom i drafod testunau polisi sy'n berthnasol i ddefnyddwyr. Rydym hefyd yn cael cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda sefydliadau rhanddeiliaid a defnyddwyr, yn ogystal â chyfarfodydd ymgynghori ar destunau penodol.

## Ymgynghori

Drwy ymgynghoriadau, mae rhanddeiliaid yn gallu rhoi sylwadau ar ein cynigion cyn y gwneir penderfyniad, ac yn gallu ymateb iddynt. Os bydd cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, efallai na fydd gan y rheini sydd â barn bwysig i'w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Gallai hyn effeithio ar ein gallu i ddelio â mater mor fuan ag y byddai'r rhanddeiliaid dan sylw'n ei hoffi. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghoriad, mae angen inni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth hyn. Yn gyffredinol, ceir tri chategori o ymgynghoriad:

- **Categori 1:** ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynlluniau polisi o bwys a/neu sydd o ddiddordeb i amrywiaeth eang o randdeiliaid (yn enwedig y rheini y bydd angen mwy o amser arnynt efallai ar gyfer ymateb); yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am ddeg wythnos.
- **Categori 2:** ymgyngoriadau sy'n cynnwys cynigion polisi pwysig ond a fydd o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o randdeiliaid a fydd yn ymwybodol o'r materion; yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am chwe wythnos.
- **Categori 3:** cymgyngoriadau sy'n dod o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol, gyda'r cyfnod arferol ar gyfer ymgynghori yn fis:
  - materion technegol;
  - lle bydd angen cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill lle mae gofyn cwblhau'r prosiect mewn cyfnod byr;
  - bod y mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad;
  - lle na chaiff y cynnig fawr o effaith ar farchnad; neu
  - lle nad yw'r cynnig ond yn fân newid i bolisi neu reoliad sy'n bodoli eisoes.

Yn Ffigur 4 dangosir dadansoddiad o hyd ein hymgyngoriadau fesul sector.

Mae Ofcom yn casglu ystadegau ar nifer yr ymatebion i ymgyngoriadau, fel y gwelir yn Ffigur 5. Cawsom 10,519 o ymatebion i'n hymgynghoriadau, 852% o gynnydd ers 2013/14 (1,235). Y rheswm pennaf am y cynnydd hwn oedd ein hymgynghoriad: Adolygu Rhestr Ofcom o'r Prif Bleidiau Gwleidyddol ar gyfer yr Etholiadau a gynhelir ar 7 Mai 2015.

### Gwneud penderfyniadau'n brydlon

Rydym yn dadansoddi pa mor hir mae'n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben (gweler Ffigur 6). Yn 2014/15, cyhoeddwyd dros 83% o benderfyniadau cyn pen 20 wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad, y rhan fwyaf ohonynt cyn pen 10 wythnos.

## Asesiadau effaith

Mae asesiadau effaith yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol inni gynnal Asesiad Effaith pan rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a lle teimlwn fod y cynnig yn bwysig. Mae asesiadau effaith yn sicrhau, ymysg pethau eraill, yng nghyswllt ein penderfyniadau:

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys y dewis i beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod effeithiau posibl pob dewis yn cael eu dadansoddi'n ofalus; a
- bod y manteision yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig â'r dewis a ddewisir.

Rhaid i Ofcom gyhoeddi rhestr o'r Asesiadau Effaith sydd wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn; mae hon yn ymddangos yn yr Atodiad ar dudalennau 120 a 121.


Ym mis Gorffennaf 2005, gwnaethom gyhoeddi'r canllawiau: Arferion gorau wrth lunio polisïau: dull Ofcom o asesu effaith, a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses llunio polisïau gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal asesiadau ffaith ym mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi.

Dengys Ffigur 7 fod 61% o ymgyngoriadau yn 2014/15 wedi cynnal asesiad effaith, a oedd wedi'i osod mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori. Dan rai amgylchiadau efallai na fydd angen cynnal Asesiad Effaith neu efallai na fydd yn briodol ei gynnal. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.


**Ffigur 4: Dadansoddiad o hyd ymgyngoriadau: 2014/15**


| | Cyfnod ymgynghori o leiaf 10 wythnos o hyd | Cyfnod ymgynghori llai na 10 wythnos (gan gynnwys ymgyngoriadau categori 2 a chategori 3) |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 3 | 16 |
| Darlledu | 7 | 13 |
| Sbectrwm | 3 | 12 |
| Post | 1 | 0 |
| Arall | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **15 (=26%)** (yn 2013/14 24%) | **42 (=74%)** (yn 2013/14 76%) |

**Ffigur 5: Ymatebion i ymgyngoriadau: 2014/15**




**Ffigur 6: Dadansoddiad o'r amser a gymerwyd i gyhoeddi penderfyniad Ofcom ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben: 2014/15**







**Ffigur 7: Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd**

| Nifer y dogfennau ymgynghori | Cyfanswm | Asesiad Effaith yn rhan o'r ddogfen a gyhoeddwyd |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 19 | 14 |
| Darlledu | 20 | 9 |
| Sbectrwm | 15 | 11 |
| Post | 1 | 1 |
| Arall | 2 | 0 |
| **Cyfanswm** | **57** | **35 (=61%)** |

## Cyd-reoleiddwyr

Mae Ofcom yn rhannu cyfrifoldebau rheoleiddio mewn rhai meysydd â rheoleiddwyr eraill.

ATVOD (yr Awdurdod Teledu ar Alwad) yw ein cyd-reoleiddiwr ar gyfer cynnwys golygyddol gwasanaethau fideo ar alwad yn y DU. ATVOD sy'n gyfrifol am bennu pa wasanaethau sy'n dod o dan y diffiniad statudol o wasanaethau rhaglenni ar alwad, ac am ddelio â chwynion am y cynnwys ar y gwasanaethau hynny. Ofcom sy'n dal yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod darparwyr gwasanaethau fideo ar alwad yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol, a byddwn yn ystyried sancsiynau ac apeliadau y bydd ATVOD yn eu cyfeirio atom.

Mae gan Ofcom hefyd bartneriaeth gyd-reoleiddio gyda'r ASA (Awdurdod Safonau Hysbysebu). Yr ASA sy'n gyfrifol am hysbysebu ar wasanaethau darlledu a gwasanaethau fideo ar alwad. Ofcom sy'n dal yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod darlledwyr a gwasanaethau ar alwad yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol ar gyfer cynnwys hysbysebu. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r Codau Hysbysebu o dan eu trwyddedau darlledu a roddir gan Ofcom. Pan fydd yr ASA yn dyfarnu ar hysbyseb, bydd darlledwyr yn cydymffurfio â'r penderfyniadau ar unwaith o dan amodau eu trwyddedau. Fodd bynnag, pan fo angen, mae'r ASA yn gallu cyfeirio'r rheini sy'n dal trwyddedau at Ofcom.

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm, sy'n galluogi defnyddwyr i brynu nwyddau a gwasanaethau drwy godi'r gost ar eu biliau ffôn a'u cyfrifon talu ymlaen llaw. PhonepayPlus sy'n rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm o ddydd i ddydd ar ran Ofcom drwy ei waith yn gorfodi cod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom.

# Ein gweithwyr

### Cenhadaeth a gwerthoedd Ofcom

Mae Aelodau Bwrdd a chydweithwyr Ofcom yn rhannu'r un ymrwymiad i genhadaeth a gwerthoedd Ofcom ac maent yn cyflawni gwaith y sefydliad gan gyfeirio at y gwerthoedd craidd hyn. Yr oedd cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad yn allweddol wrth ddatblygu'r chwech o werthoedd sy'n adlewyrchu ein dymuniad i weithio mewn ffordd agored, effeithiol ac sy'n canolbwyntio ar bobl.

Rydym yn gwneud ein gorau glas i fod yn ddeinamig, yn ymatebol ac yn effro i'r sefyllfa fasnachol: mae meddwl yn bendant, dadansoddi'n drwyadl ar sail tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn allweddol i'n heffeithiolrwydd fel sefydliad.

## Dyma werthoedd Ofcom:

- cyfathrebu'n agored ac yn onest;
- gwrando â meddwl agored;
- gwneud gwahaniaeth;
- grymuso a blaenoriaethu;
- buddsoddi yn ein cydweithwyr a'u cefnogi; a
- cydweithio gwirioneddol

### Ymgynghori â chydweithwyr a'u cynnwys

Mae cynnwys cydweithwyr yn cael ei hybu'n frwd fel rhan o'n prosesau beunyddiol. Rydym yn rhoi gwybodaeth i gydweithwyr ac yn ymgynghori â nhw drwy:

- Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith cydweithwyr ar draws Ofcom ac sy'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Ymgynghori ar y Cyd (sy'n cynnwys dau aelod o'r undeb);
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfeydd Ofcom;
- cyflwyniadau a roddir gan uwch reolwyr lle bydd cynlluniau strategol newydd yn cael eu hegluro wrth gydweithwyr a phan ddarperir y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau sy'n parhau;
- cyfarfodydd grŵp rheolaidd er mwyn gwrando ar gydweithwyr a rhannu gwybodaeth; a
- negeseuon rheolaidd gan y Prif Weithredwr.

Rydym hefyd yn cynnal arolygon rheolaidd sy'n rhoi'r cyfle i gydweithwyr rannu eu safbwyntiau ar amrywiol bynciau. Mae'r canlyniadau o'r arolygon hyn yn rhoi sylfaen allweddol ar gyfer llawer o'n gwaith yn datblygu ein sefydliad.

### Datblygiad proffesiynol

Mae ansawdd ac ymrwymiad ein pobl yn ganolog i'n gallu i gyflawni ein dyletswyddau. Yn ystod 2014, cyflwynasom nifer o raglenni hyfforddiant ar gyfer y sefydliad cyfan, a oedd yn cynnwys hyfforddiant datblygu rheolwyr a sesiynau yn delio â'r sectorau penodol yn y diwydiant y mae Ofcom yn eu rheoleiddio. Mae gennym hefyd gynllun mentora mewnol ac rydym wedi noddi rhai o'n cydweithwyr uwch i ennill cymhwyster hyfforddi ffurfiol fel y gallant gefnogi datblygiad gyrfa cydweithwyr ar lefel is.

### Polisïau a phrosesau cyflogaeth

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff pob cydweithiwr ei drin yn deg a chydag urddas a pharch. Rydym yn adolygu ein polisïau a phrosesau AD yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd fel sefydliad, yn ogystal â gofynion cyfraith cyflogaeth.

Yn 2014, gwnaethom ddatblygu polisi newydd ar absenoldeb i rieni ar y cyd er mwyn galluogi gweithwyr sy'n dod yn rhieni i rannu amser i ffwrdd o'r gwaith i ofalu am eu babi newydd gyda'u partner.

### Absenoldeb

Mae Ofcom yn hybu diwylliant lle mae presenoldeb da yn ddisgwyliedig ac yn cael ei werthfawrogi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oes modd osgoi absenoldeb am resymau meddygol o bryd i'w gilydd. Nod Ofcom yw trin ei staff sy'n sâl yn deg a gyda chydymdeimlad a rhoi cefnogaeth iddynt lle bo hynny'n bosibl. Bydd hynny'n eu galluogi i wella ac i fynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn 2014/15, nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oedd 4.55 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr (2013/14: 4.97 diwrnod). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd yn y sector cyhoeddus, sef 7.9 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr yn 2014 (2013: 8.7 diwrnod)[8].

[8] CIPD Absence Management 2014: Public Sector, published October 2014.

# Cyfrifoldeb corfforaethol

**Ymrwymiad Ofcom i gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Fel cyflogwr, rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i bob cydweithiwr, ni waeth beth yw ei hil, ei anabledd, ei rywedd (gan gynnwys ailbennu rhywedd), ei oed, ei grefydd neu gred a'i gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r ymrwymiad hwn wrth galon ein polisïau cyflogaeth a'n dull gweithredu o ran hyfforddiant a datblygu gyrfa.

Yn 2014, gwnaethom gyhoeddi ein trydydd Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n disgrifio sut y byddwn yn sicrhau bod amrywiaeth a chydraddoldeb yn ganolog i'r ffordd rydym yn gweithredu. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl diweddaraf yn adeiladu ar yr hyn rydym eisoes wedi'i gyflawni.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae hwn yn nodi sut byddwn yn hybu cyfle cyfartal a chysylltiadau da ar draws grwpiau o bobl wrth gyflawni ein swyddogaethau sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon.

Dyma rai o'n cyflawniadau arbennig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- cael ein cynnwys yn y deg cyflogwr gorau yn y sector cyhoeddus ym mynegeion cydraddoldeb rhywiol a hiliol Busnes yn y Gymuned a chael ein cynnwys yn y 50 cyflogwr gorau i Fenywod am y drydedd flwyddyn yn olynol yn rhestr papur newydd y Times;
- parhau i wella ein sgôr ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithle Stonewall, sy'n edrych ar ein hagwedd at staff lesbiaidd, hoyw a deurywiol;
- treialu dwy brentisiaeth lwyddiannus yn y Grŵp Polisi Sbectrwm ac ymestyn y cynllun ar draws y sefydliad;
- noddi gwobr 'Peirianwraig Ifanc y Flwyddyn' y Sefydliad Peirianneg Trydanol, am y drydedd flwyddyn yn olynol; a
- gwneud cynnydd sylweddol yn rhoi'r gwelliannau a nodwyd yn ein cynllun gweithredu ar anabledd ar waith ac, o ganlyniad, cawsom le ar restr anrhydeddau'r Fforwm Anabledd Busnes a chael gwobr efydd. I ddatblygu rhagor ar ein hymrwymiad i hygyrchedd mewn technoleg, gwnaethom hefyd lofnodi Siarter Technoleg Hygyrch y Tasglu Technoleg.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu strwythur tâl teg a chyfartal yn Ofcom, gwnaethom gyhoeddi yn 2014 ein harchwiliad o gyflog cyfartal sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd. Roedd hwn yn dangos er bod rhai gwahaniaethau yn y lefelau cyflog ymysg gweithwyr sy'n gwneud rolau tebyg, nad oedd yn ymddangos bod rhagfarn o ran bod cydweithwyr o un rhyw yn cael mwy o dâl na'r rhyw arall ar gyfer gwaith cyfartal. Gwnaethom gyflwyno adroddiad hefyd ar gyfansoddiad amrywiaeth ein cydweithwyr a defnyddio'r canfyddiadau i'n helpu i ystyried beth allai fod angen inni ei wneud i recriwtio a chadw cymysgedd amrywiol o weithwyr.

**Cyfrifoldeb corfforaethol**

Mae Ofcom wedi ymrwymo i sicrhau nid yn unig ein bod yn gyflogwr cyfrifol i'n cydweithwyr ond ein bod hefyd yn rheoli ein heffaith ar y gymuned ehangach. Dyma ein dibenion cyfrifoldeb corfforaethol:

- trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb;
- lleihau ein hôl troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol; a
- cynnwys, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr wrth fynd ati'n rhagweithiol i geisio cefnogi ein cymuned leol.

Yn y gymuned ehangach rydym wedi rhedeg cynllun mentora darllen gydag ysgol gynradd leol yn Southwark, gan roi'r cyfle i gydweithwyr hyfforddi plant ifanc i wella eu sgiliau llythrennedd.

Ar ben hynny, rydym yn gweithio gyda Career Academies UK, gan fentora myfyrwyr 16 -17 oed a'u helpu i baratoi ar gyfer bywyd corfforaethol, ac yn ystod haf 2014 roeddem wedi rhoi lle i bedwar intern o academïau lleol. Rydym hefyd wedi hyrwyddo cyfleoedd i gydweithwyr siarad mewn ysgolion drwy ymgyrchoedd fel Inspiring Future, Inspiring Women a STEMNET.

# Adroddiad cynaliadwyedd



Mae'r adran hon yn rhoi golwg gyffredinol ar strategaeth cynaliadwyedd Ofcom a'n perfformiad yn y maes hwn. Mae'n cynnwys data cynaliadwyedd a chostau ariannol cysylltiedig, wedi'u cyflwyno mewn fformat sy'n cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer adrodd ar gynaliadwyedd a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ar gyfer 2014/15.

## Strategaeth cynaliadwyedd Ofcom

### Cyflwyniad

Comisiynodd Ofcom archwiliad carbon annibynnol yn 2007, ac wedyn ymrwymo i ostyngiad 25 y cant yn ei allyriadau carbon mewnol erbyn diwedd 2012/13 (o'i gymharu â gwaelodlin yn 2007). Cafodd prosiect Ôl Troed a Chynaliadwyedd Ofcom ei sefydlu i bennu camau gweithredu i sicrhau bod Ofcom yn diwallu ei ymrwymiad i leihau ei ddefnydd o garbon a bod ei arferion gweithredu'n gynaliadwy'n amgylcheddol, a rhoi'r camau hynny ar waith. Mae Ôl troed a Chynaliadwyedd yn un o'r tri llif gwaith yn rhaglen Cyfrifoldeb Corfforaethol cyffredinol Ofcom (gweler tudalen 44).



### Golwg gyffredinol ar dargedau lleihau

Roedd targed lleihau Ofcom o 25% yn berthnasol ar draws saith maes: gwasanaethau gwybodaeth, cyfleustodau, gwastraff, teithiau busnes, deunyddiau caffael, cyfalaf caffael a chymudo. Yn 2009, roedd Ofcom wedi comisiynu ail archwiliad carbon annibynnol a oedd yn cadarnhau bod gostyngiad o 15% mewn allyriadau carbon eisoes wedi cael ei gyflawni. Cadarnhaodd archwiliad arall yn 2012 fod gostyngiad 6% arall wedi'i gyflawni, gan ddod â chyfanswm y gostyngiad i 21%. Cafodd archwiliad carbon terfynol ei gynnal yn 2013 a gadarnhaodd fod Ofcom wedi sicrhau 30% o ostyngiad yn ei allyriadau carbon ac felly wedi rhagori ar y targed gwreiddiol ar gyfer lleihau carbon. Mae rhagor o fanylion am berfformiad Ofcom o ran cynaliadwyedd ar gael ar ein gwefan: www.ofcom.org.uk/about/footprint-and-sustainability/

### Llywodraethu

Mae'r prosiect Ôl Troed a Chynaliadwyedd yn adrodd i'r Grŵp Llywio Cyfrifoldeb Corfforaethol (CRSG). Mae gan aelodau o'r CRSG uwch swyddi rheoli yn Ofcom ac maent yn gosod cyfeiriad strategol y gwaith. Mae'r CRSG yn darparu adroddiadau cynnydd manwl bob chwe mis yn uniongyrchol i Bwyllgor Gwaith Ofcom.

## Perfformiad 2014/15

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Rydym wedi parhau i fonitro allyriadau nwyon tŷ gwydr ar draws amrywiol ffynonellau.

Mae gan Ofcom bolisi ynni sy'n tywys y gwaith o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag ynni ac sy'n cefnogi strategaeth rheoli ynni effeithiol.

Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith arbed ynni dros y blynyddoedd diwethaf, a byddwn yn adolygu gosodiadau gwresogi, oeri a goleuo'n rheolaidd.

Yn ddiweddar, rydym wedi uwchraddio ein cyfleusterau fideo-gynadledda yn ein holl swyddfeydd ar draws y DU ac rydym yn annog ein cydweithwyr i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn, er mwyn lleihau teithio. Mae ein polisïau treuliau a theithio hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd lleihau ein hôl troed carbon o fewn cyd-destun sicrhau gwerth am arian.

Mae gan Ofcom fflyd o gerbydau a ddefnyddir gan ein cydweithwyr Peirianneg a Gorfodaeth Sbectrwm, sydd wedi'u dewis, yn rhannol, oherwydd eu hallyriadau isel fesul milltir, a byddwn yn monitro faint o danwydd a ddefnyddir yn fisol. Penderfynwyd adnewyddu ein fflyd yn ystod 2014/15 ac ar hyn o bryd rydym yn newid ein cerbydau am fflyd o gerbydau newydd sy'n defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon.

Fel rhan o'n hymgyrch gyffredinol i leihau'r defnydd o bapur a chostau cludo, rydym wedi rhoi dyfeisiau electronig i aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau er mwyn gwella hygyrchedd ac effeithlonrwydd wrth ddosbarthu papurau.

### Lleihau a rheoli gwastraff

Mae gan Ofcom bolisi 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi' yn ei swyddfa yn Llundain. Rydym yn ailgylchu papur, cardfwrdd, caniau, plastigau, batris, cetris peiriannau argraffu a CDs. Mae'r broses o gael gwared ag unrhyw offer TGCh yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwastraff Offer Trydanol ac Electronig (WEEE).

### Defnyddio adnoddau cyfyngedig

Mae'r defnydd o ddŵr yn dod yn bennaf o ystafelloedd ymolchi a dŵr yfed ymhob swyddfa, yn ogystal â'r cyfleusterau arlwyo yn ein swyddfa yn Llundain. Mae Ofcom yn monitro faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio'n fisol.

### Cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth

Nid yw bioamrywiaeth yn ystyriaeth o bwys i Ofcom ac nid ydym yn casglu data yn y maes hwn.

### Caffael cynaliadwy

Mae Ofcom yn awyddus i hybu cynaliadwyedd ymysg ei gyflenwyr. Mae'r holiadur cyn-gymhwyso mae Ofcom yn ei ddefnyddio fel rhan o'i broses dendro i gaffael nwyddau a gwasanaethau gan sefydliadau allanol yn cynnwys y gofyniad canlynol: "Rhowch dystiolaeth o gydymffurfio â'r cynllun archwilio ecoreoli neu unrhyw safon amgylcheddol gydnabyddedig arall mae eich cwmni'n cydymffurfio ag ef sy'n berthnasol i bwnc y contract."

### Arall

Cafodd ardystiad Safon yr Ymddiriedolaeth Carbon ei adnewyddu am yr eildro yn 2013. Mae hyn yn dangos arfer da parhaus yng nghyswllt cyflawniadau a strategaeth lleihau carbon gan Ofcom.

### Cynlluniau at y dyfodol

Yn y blynyddoedd i ddod, bydd Ofcom yn parhau i fonitro ei allyriadau carbon yn rheolaidd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio ynni a rheoli gwastraff. Byddwn hefyd yn parhau i hybu ymddygiad cynaliadwy ymysg ein cydweithwyr.

Mae crynodeb o allyriadau Ofcom dros y pum mlynedd diwethaf ar gael yn Ffigur 8. Edrychwch ar yr Atodiad ar dudalennau 129 a 130 i gael rhagor o fanylion.

**Sharon White**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

16 Mehefin 2015

**Ffigur 8: Golwg gyffredinol ar berfformiad cynaliadwyedd**


| | | Blwyddyn perfformiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr (Cwmpasau 1,2) | tCO2e | 2,103 | 1,789 | 1,730 | 1,498 | **1,632** |
| | Gwariant | £623,059 | £486,769 | £457,486 | £442,226 | **£475,261** |
| Teithio Busnes[1] | tCO2e | 348 | 375 | 375 | 346 | **290** |
| | Gwariant | £627,606 | £713,021 | £705,867 | £628,340 | **£596,116** |
| Gwastraff | Tunelli | 150 | 159 | 166 | 173 | **168** |
| | Gwariant | £62,256 | £53,345 | £46,068 | £60,796 | **£45,500** |
| Defnyddio adnoddau cyfyngedig | Defnydd dŵr ($m^3$) | 10,495 | 7,715 | 9,492 | 10,498 | **10,298** |
| | Gwariant | £18,573 | £22,771 | £26,610 | £20,506 | **£24,931** |
| | Rimiau papur | 10,067 | 9,286 | 7,623 | 7,721 | **5,993** |

[1] Mae allyriadau'n ymwneud â theithiau busnes (teithiau hedfan) wedi cael eu hailddatgan ar gyfer 2010/11, 2011/12, 2012/13 a 2013/14 ar ôl cael data gwell gan ein cwmni teithio.

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Bwrdd Ofcom

**Mae Bwrdd Ofcom yn gadarn o blaid yr egwyddor o annibyniaeth, sydd wrth galon rheoleiddio effeithiol.**



Y fonesig Patricia Hodgson, DBE



Sharon White



Y Farwnes Noakes, DBE



Mike McTighe



Tim Gardam



Y Fonesig Lynne Brindley, DBE



Graham Mather



Stephen Hill



Jonathan Oxley



Dr Steve Unger

### Dame Patricia Hodgson, DBE

Penodwyd y Fonesig Patricia Hodgson, DBE yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Gorffennaf 2011 a daeth yn Ddirprwy Gadeirydd ar 1 Ebrill 2014. Roedd yn Gyfarwyddwr Polisi a Chynllunio yn y BBC (1993-2000), Prif Weithredwr y Comisiwn Teledu Annibynnol (2000-2003), cyfarwyddwr anweithredol yn y Comisiwn Cystadleuaeth (2004 - 2011) ac yn aelod o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (2005 -2011). Roedd yn Gadeirydd Bwrdd Adolygu Athrawon Ysgol rhwng 2012 a 2014 ac yn aelod o Ymddiriedolaeth y BBC ers ei sefydlu tan fis Mehefin 2011. Mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Enwebiadau Ofcom, yn Aelod o'r Pwyllgor Taliadau ac yn aelod o'r Pwyllgor Risg ac Archwilio.

### Sharon White

Daeth Sharon White yn Brif Weithredwr Ofcom ym mis Mawrth 2015. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd Sharon wedi cael gyrfa hir yn y gwasanaeth sifil. Roedd yn ail Ysgrifennydd Parhaol yn y Trysorlys gyda chyfrifoldeb am orchwylio cyllid cyhoeddus. Cyn hynny roedd ganddi swyddi ar lefel Bwrdd yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol ac mae wedi gweithio yn Uned Polisi'r Prif Weinidog ac yn Washington DC fel uwch economegydd ym Manc y Byd.

### Y Farwnes Noakes, DBE

Penodwyd y Farwnes Noakes i Fwrdd Ofcom ar 1 Mehefin 2014, fel Dirprwy Gadeirydd. Mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Taliadau Ofcom ac yn aelod o Bwyllgorau Taliadau a Risg ac Archwilio Ofcom. Mae Sheila Noakes yn gyfrifydd siartredig ac wedi treulio 30 mlynedd yn KPMG. Mae wedi bod yn Llywydd Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. Fe'i penodwyd i Dŷ'r Arglwyddi yn 2000 fel arglwydd am oes. Mae wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol nifer o gwmnïau rhestredig ac ar hyn o bryd mae'n gyfarwyddwr anweithredol Royal Bank of Scotland Group plc, lle mae'n cadeirio Pwyllgor Risg y Bwrdd.

### Mike McTighe

Daeth Mike McTighe yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Medi 2007. Mae'n Gadeirydd WYG plc. Yn flaenorol mae wedi bod yn Gadeirydd Volex plc, JJB Sports, Cadeirydd a Phrif Weithredwr Carrier 1 International SA a Chyfarwyddwr Gweithredol a Phrif Weithredwr Global Operations, Cable and Wireless plc. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Risg ac Archwilio Ofcom ac yn Aelod o'r Pwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau.

### Tim Gardam

Mae Tim Gardam wedi bod yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ers mis Ionawr 2008. Mae wedi bod yn Bennaeth Coleg St Anne, Rhydychen ers 2004 ac yn Gadeirydd Sefydliad Reuters ar gyfer Astudiaethau Newyddiaduraeth yn y brifysgol. Mae'n Gadeirydd Bwrdd Cynnwys Ofcom, yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Darlledu a'r Pwyllgor Etholiadau ac yn Aelod o'r Pwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau.

### Y Fonesig Lynne Brindley, DBE

Penodwyd y Fonesig Lynne Brindley, DBE yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Medi 2011. Daeth yn Feistr Coleg Pembroke, Rhydychen yn 2013. Mae hefyd yn aelod o Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, yn aelod o Fwrdd Rhwydwaith Trosglwyddo Gwybodaeth y Diwydiannau Creadigol, yn aelod o Gyngor y City University ac ar Lys cwmni Goldsmiths. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Gwledydd Ofcom ac yn Aelod o'r Pwyllgor Taliadau, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgor Enwebiadau.

### Graham Mather

Penodwyd Graham Mather yn aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Mehefin 2014. Bu'n aelod o Banel Defnyddwyr Ofcom rhwng 2004 a 2008. Mae wedi bod yn aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau, a rhwng 2000 a 2012, roedd hefyd yn aelod o'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth. Mae ar hyn o bryd yn Llywydd y Fforwm Polisi Ewropeaidd ac yn Gadeirydd ei Grŵp Arferion Gorau Rheoleiddio.

### Stephen Hill

Penodwyd Stephen Hill yn aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Hydref 2014. Mae wedi dal sawl uwch swydd ar lefel bwrdd gan gynnwys Prif Weithredwr y Financial Times, Prif Weithredwr Betfair a Chyfarwyddwr Anweithredol yn Channel 4. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd yr elusen Action on Hearing Loss ac yn Gadeirydd a Phrif Weithredwr D'Aval Limited, cwmni buddsoddi preifat.

### Jonathan Oxley

Ymunodd Jonathan Oxley ag Ofcom fel Cyfarwyddwr y Grŵp Cystadleuaeth ym mis Tachwedd 2014 ac fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Ionawr 2015. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn bartner ym mhractis Strategaeth ac Economeg PwC, yn arbenigo mewn telegyfathrebiadau, y cyfryngau a thechnoleg, ar ôl ymuno â PwC yn 1995.

### Dr Steve Unger

Steve Unger yw Cyfarwyddwr y Grŵp Strategaeth, Rhyngwladol, Technoleg ac Economegwyr, ac fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2015 ar ôl bod yn Brif Weithredwr dros dro ers mis Ionawr 2015 nes i Sharon White gychwyn yn y swydd ym mis Mawrth 2015. Mae wedi bod gydag Ofcom o'r cychwyn ac mae wedi dal sawl uwch rôl, yn fwyaf diweddar fel Prif Swyddog Technoleg Ofcom.

## Cofrestr buddiannau i'w datgelu

Ni chaiff aelodau'r Bwrdd, eu partneriaid na phlant dibynnol fod â buddiannau (gan gynnwys cyfranddaliadau, cyfarwyddiaethau a swyddi) mewn cwmnïau y gallai penderfyniadau Ofcom effeithio ar eu gweithgareddau busnes craidd (ac felly pris cyfranddaliadau). Mae gan Ofcom hefyd gofrestr o fuddiannau i'w datgelu, sydd ar gael ar ein gwefan yn:

www.ofcom.org.uk/about/how-ofcom-is-run/ofcom-board/members/register-of-disclosable-interests/

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynlluniau a'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau na chânt eu hariannu. Mae'r safon cyfrifyddu ar bensiynau, IAS 19 (2011) yn berthnasol i'r cyfrifon hon. Mae Nodyn 21 yn y Nodiadau i'r Cyfrifon yn rhoi manylion rhwymedigaethau buddion ymddeol Ofcom.

Mae manylion y lwfans pensiwn a dalwyd i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn ystod 2014/15 ar gael yn yr Adroddiad Taliadau ar dudalen 74.

## Gwaith nad yw'n gysylltiedig ag archwilio'r cofnodion ariannol

Mae Ofcom yn rhoi ei swyddogaeth archwilio mewnol ar gontract allanol i KPMG. Yn ystod 2014/15 cyflawnodd KPMG 3 phrosiect nad oeddynt yn gysylltiedig ag archwilio. Y ffioedd sy'n ddyledus i KPMG am y gwaith hwn yw £55,538.00.

Ni thalwyd ffioedd am waith nad yw'n gysylltiedig ag archwilio i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ystod 2014/15.

## Digwyddiadau'n ymwneud â data personol a ddiogelir

Ni chyflwynodd Ofcom unrhyw adroddiadau ar ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol a ddiogelir i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2014/15.

## Data absenoldeb salwch

Mae adroddiad ar ddata absenoldeb salwch ar gael yn adran Ein Gweithwyr yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 56.

## Datgeliadau cyfarwyddwyr

Hyd y gŵyr y Cyfarwyddwyr, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr wedi cael gwybod amdani. Mae pob cam rhesymol wedi cael ei gymryd gan y Cyfarwyddwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hon.

**Sharon White**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

16 Mehefin 2015









# Datganiad Llywodraethu

## Datganiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym wedi nodi blaenoriaethau a gweithgareddau Ofcom yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac rydym wedi rhoi braslun o'n rhaglen waith ar gyfer 2015/16 a'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â hi ac unrhyw faterion sy'n achosi ansicrwydd. Yn yr adran hon, rydym yn trafod y fframwaith llywodraethu yr ydym wedi'i roi ar waith i arwain y sefydliad ac i fod yn sylfaen ar gyfer cyflawni ein hamcanion, ond gan sicrhau hefyd ein bod yn diogelu arian cyhoeddus.

Mae'r fframwaith statudol sy'n sefydlu Ofcom yn datgan yn glir ei fod yn gorff annibynnol. Mae'r egwyddor hon o annibyniaeth wrth galon rheoleiddio effeithiol ac mae'n hanfodol i'n gwaith yn goruchwylio'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Mae'n sail i'n penderfyniadau, ac mae'n ein galluogi i gyflawni yn erbyn ein dyletswyddau statudol gan ddarparu eglurder a sicrwydd sy'n hybu llawer o'r gystadleuaeth a'r buddsoddi yn y sector. Mae Memorandwm Ariannol rhwng Ofcom a DCMS yn nodi sut y bydd Ofcom yn rheoli'r arian cyhoeddus y mae'n ei gael a'i berthynas yn y cyswllt hwn â DCMS.

Mae Bwrdd Ofcom yn gryf o blaid yr egwyddor annibyniaeth. Bwrdd Ofcom yw'r endid allweddol sy'n gwneud penderfyniadau yn Ofcom ac mae'n gweithio gyda Swyddog Cyfrifyddu Ofcom i sicrhau bod strwythur llywodraethu priodol ac effeithiol ar waith. Mae fframwaith llywodraethu corfforaethol Ofcom yn seiliedig ar system gadarn o reolaeth fewnol, rheoli risg a sicrwydd.

Mae'r Bwrdd yn parhau i ddatblygu ac mae ei aelodau'n cynnig cydbwysedd cryf o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Caiff ei gefnogi yn ei waith gan nifer o bwyllgorau gan gynnwys y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, y Pwyllgor Cynghori ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Anabl, y pedwar Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol a Phanel Cynghori Ofcom ar Sbectrwm. Mae gwaith y rhannau hyn o'r strwythur llywodraethu yn cynghori Bwrdd Ofcom a'r Pwyllgor Gwaith yn arbennig o werthfawr ac rydym yn diolch i holl aelodau'r cyrff hwn am eu cyngor a'u penderfyniadau heriol a threiddgar. Hoffem ddiolch yn arbennig i Ed Richards a Jill Ainscough, sydd wedi rhoi'r gorau i fod yn Aelodau Gweithredol o Fwrdd Ofcom ac y mae'r Cadeirydd yn talu teyrnged iddynt ar dudalen 6, a Glyn Mathias, a ymddeolodd yn ystod yr haf o'r Bwrdd Cynnwys.


Gyda phob rhan o'r strwythur llywodraethu'n ymwneud â gweithgareddau Ofcom, rydym yn sicrhau bod yr holl bolisïau strategol a weithredir gan Ofcom, ynghyd â phob maes perfformiad, cyfrifoldeb ac atebolrwydd arall, yn cael eu herio'n gadarn. Mae herio o'r fath yn arwain at benderfyniadau cryf ac o ansawdd sy'n cael eu gwneud ar sail gwybodaeth a thystiolaeth ar lefel y Bwrdd ac yn y sefydliad drwyddi draw.

**Y Fonesig Patricia Hodgson, DBE**
Cadeirydd

**Sharon White**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

16 Mehefin 2015

**Ffigur 9: Bwrdd a Phwyllgorau Ofcom**




## Y strwythur llywodraethu

Bwrdd Ofcom sy'n arwain y sefydliad, gan rannu ymrwymiad i'r genhadaeth a'r gwerthoedd sydd wedi'u disgrifio ar dudalen 56. Mae ei weithgareddau craidd yn cynnwys:

- gosod y strategaeth gyffredinol ar gyfer Ofcom;
- gweithredu fel yr awdurdod sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol;
- cael sicrwydd bod risgiau sylweddol i Ofcom yn cael eu pennu a bod systemau priodol ar gyfer rheoli risg yn bodoli er mwyn lliniaru ar risgiau o'r fath;
- diffinio archwaeth Ofcom am risg; a
- cynllunio olyniaeth y Bwrdd a rheolwyr gweithredol.

### Bwrdd Ofcom

Caiff Bwrdd Ofcom ei arwain gan y Cadeirydd sy'n rheoli'r Bwrdd i sicrhau:

- bod gan Ofcom amcanion priodol a strategaeth effeithiol;
- bod strwythur ar waith i alluogi pob aelod i gyfrannu'n effeithiol;
- bod y Prif Weithredwr a swyddogion gweithredol eraill yn gallu rhoi'r strategaeth ar waith;
- bod Pwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu sefydlu, a'u gweithredu'n iawn a'u bod yn cynnwys yr aelodau iawn;
- bod gweithdrefnau ar waith i hysbysu'r Bwrdd am berfformiad yn erbyn yr amcanion;
- bod Ofcom yn gweithredu yn unol â'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol.

Mae Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, am gyfnod rhwng tair a phedair blynedd. Caiff Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd eu penodi gan y Cadeirydd a'r holl Aelodau Anweithredol, ac mae penodiad y Prif Weithredwr yn galw am gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau wedi'u rhestru yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau, a chedwir Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau. Mae'r naill a'r llall ar gael ar wefan Ofcom. At ddibenion mabwysiadu prif egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU:

- mae'r Bwrdd yn ystyried bod yr holl Aelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau helaeth arnynt wrth wneud penderfyniadau. Ond, os bydd amgylchiadau arbennig yn codi, cymerir camau priodol i sicrhau bod annibyniaeth yn cael ei gynnal;

- mae'r Bwrdd o'r farn bod gan yr Aelodau, rhyngddynt, amrediad eang o brofiad sy'n sicrhau bod y Bwrdd yn effeithiol i arwain a rheoli Ofcom;
- Aelodau Anweithredol yw mwyafrif aelodau'r Bwrdd. Ystyrir mai'r Dirprwy Gadeirydd yw'r uwch Aelod Anweithredol at ddibenion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU; a
- bydd y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2014/15 cyfarfu'r Bwrdd 11 gwaith. Swyddogaeth y rheolwyr gweithredol yw gweithredu polisïau'r Bwrdd. Mae nifer o gyrff cynghori yn cyfrannu at waith y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd sydd ag awdurdodaeth a chylch gorchwyl wedi'i ddiffinio'n glir (gweler Ffigur 8). Disgrifir gweithgareddau a phrif swyddogaethau'r pwyllgorau pwysicaf hyn isod. Mae gan Ofcom nifer o bwyllgorau arbenigol eraill sydd â swyddogaeth lywodraethu neu swyddogaeth gynghori i'r Bwrdd. Fe'u disgrifir yn yr Atodiad ar dudalen 113.

## Y Pwyllgor Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Mae'r Pwyllgor yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar y broses ar gyfer dethol Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom ac yn gwneud argymhellion ynghylch penodiadau Aelodau Gweithredol.

## Y Pwyllgor Taliadau

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd ar wahoddiad y Pwyllgor Taliadau.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori Ofcom ynghylch y taliadau i'r Prif Weithredwr, Aelodau Gweithredol eraill y Bwrdd ac i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, yn ogystal â'u telerau ac amodau gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynghori Ofcom ar delerau ac amodau aelodau rhan amser y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, y Pwyllgor Cynghori ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Anabl, y pedwar Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol ac Aelodau Anweithredol eraill o gyrff eraill yn strwythur llywodraethu Ofcom.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r broses ar gyfer pennu telerau ac amodau holl gydweithwyr eraill Ofcom. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio ac yn penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn a sefydlwyd gan Ofcom ar gyfer holl gydweithwyr Ofcom.

Mae taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Petai angen i Ofcom ystyried unrhyw agwedd ar daliadau Aelodau Anweithredol, mae Pwyllgor Taliadau Aelodau Anweithredol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth, a fydd yn cwrdd ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel y bo'n briodol. O ganlyniad, nid oes dim un Aelod Bwrdd yn cyfrannu at bennu ei daliadau ei hun.

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae Ofcom yn parhau i ddangos arweinyddiaeth gref yn y ffordd mae'n rheoli risg drwy waith y Pwyllgor Risg ac Archwilio, a oruchwylir gan y Bwrdd. Mae Ofcom yn cynnal cofrestri risg ar gyfer pob maes allweddol o'i waith, sy'n cael eu hadolygu'n gyson. Y Pwyllgor Gwaith, y Bwrdd Gweithrediadau a'r Weithrediaeth Bolisi sy'n gyfrifol am reoli a lliniaru ar bob risg (pan fo hynny'n bosibl ac yn briodol) sy'n deillio o ddatblygiadau gweithredol, polisi a rheoleiddio penodol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys tri Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ac Aelod Anweithredol allanol annibynnol. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Rheolydd Cyllid, yn ogystal â'r archwilwyr mewnol ac allanol, i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd yn ôl i Fwrdd Ofcom ar ganlyniadau cyfarfodydd y Pwyllgor. Caiff swyddogaethau'r Pwyllgor eu disgrifio yn ei gylch gorchwyl, sydd ar gael ar wefan Ofcom.

Mae Ofcom yn rhoi'r swyddogaeth archwilio mewnol i'r cwmni allanol KPMG. Gwneir penderfyniadau ynghylch gofyn i KPMG ddarparu gwasanaethau eraill fesul achos unigol. Cyflawnir y swyddogaeth archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## Y Bwrdd Cynnwys

Mae'r Bwrdd Cynnwys yn un o bwyllgorau prif Fwrdd Ofcom, gyda chyfrifoldeb cynghori a dirprwyedig dros ystod eang o faterion sy'n ymwneud â chynnwys, gan ddelio'n bennaf â darlledu. Mae wedi'i sefydlu o dan statud, yn benodol adran 12(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Bydd Bwrdd Ofcom yn gofyn am gyngor ac argymhellion gan y Bwrdd Cynnwys ar unrhyw agweddau ar benderfyniadau sy'n ymwneud â chynnwys y mae wedi'u cadw iddo ef ei hun. Caiff yr holl benderfyniadau eraill sy'n ymwneud â chynnwys eu dirprwyo i'r Bwrdd Cynnwys.

Y Bwrdd Cynnwys yw prif fforwm Ofcom ar gyfer rheoleiddio ansawdd a safonau teledu a radio. Mae'n gyfrifol am ddeall, dadansoddi a hyrwyddo lleisiau a buddiannau'r gwylwyr, y gwrandawyr a dinasyddion.

Mae aelodau'r Bwrdd Cynnwys hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu Darlledu a'r Pwyllgor Etholiadau.

**Bwrdd Ofcom a Phwyllgorau'r Bwrdd**

| | Bwrdd Ofcom | Pwyllgor Taliadau | Pwyllgor Risg ac Archwilio | Pwyllgor Enwebiadau | Bwrdd Cynnwys | Pwyllgor Trwyddedu Darlledu | Pwyllgor y Gwledydd | Pwyllgor Etholiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd** | **11** | **7** | **4** | **4** | **9** | **20** | **3** | **1** |
| | | | | **Presenoldeb** | | | | |
| Y Fonesig Patricia Hodgson, DBE | 11 | 7 | 4 | 4 | – | – | – | – |
| Sharon White[1] | – | – | – | – | – | – | – | – |
| Y Farwnes Noakes DBE[2] | 9 | 6 | 3 | 4 | – | – | – | – |
| Jill Ainscough[3] | 5 | – | – | – | – | – | – | – |
| Y Fonesig Lynne Brindley DBE[4] | 11 | 6 | – | 4 | 7 | – | 3 | – |
| Tim Gardam | 10 | 6 | – | 4 | 7 | 19 | – | 1 |
| Stephen Hill[5] | 5 | 3 | – | 3 | – | – | – | – |
| Graham Mather[6] | 8 | 5 | – | 3 | – | – | 2 | – |
| Stuart McIntosh[7] | 2 | – | – | – | – | – | – | – |
| Mike McTighe | 9 | 5 | 4 | 3 | – | – | – | – |
| Jonathan Oxley[8] | 3 | – | – | – | – | – | – | – |
| Ed Richards[9] | 8 | – | – | – | – | – | – | – |
| Dr Stephen Unger[10] | 3 | – | – | – | – | – | – | – |

1 Penodwyd Sharon White i'r Bwrdd fel Aelod Gweithredol, gan gychwyn ar 23 Mawrth 2015.
2 Penodwyd y Farwnes Noakes, DBE yn Aelod Anweithredol o'r Bwrdd ac yn Ddirprwy Gadeirydd y Bwrdd, i gychwyn ar 1 Mehefin 2014, ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau ym mis Medi 2014.
3 Ymddiswyddodd Jill Ainscough o'r Bwrdd, yn weithredol o 16 Medi 2014.
4 Cadeiriodd y Fonesig Lynne Brindley DBE y Pwyllgor Taliadau ym mis Mai 2014 a mis Gorffennaf 2014.
5 Penodwyd Stephen Hill yn Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, yn weithredol o 1 Hydref 2014 .
6 Penodwyd Graham Mather yn Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, yn weithredol o 1 Mehefin 2014.
7 Ymddiswyddodd Stuart McIntosh o'r Bwrdd, yn weithredol o 31 Mai 2014.
8 Penodwyd Jonathan Oxley i'r Bwrdd fel Aelod Gweithredol, yn weithredol o 1 Ionawr 2015.
9 Ymddiswyddodd Ed Richards o'r Bwrdd, yn weithredol o 31 Rhagfyr 2014.
10 Cafodd Steve Unger ei benodi yn Brif Weithredwr Dros Dro ar 1 Ionawr 2015 ac yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd o 23 Mawrth 2015 ymlaen.

### Bwrdd Ofcom a Phwyllgorau'r Bwrdd

Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd Ed Richards yn ffurfiol y byddai'n rhoi'r gorau i fod yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu ym mis Rhagfyr 2014. Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2014, sefydlodd Ofcom Bwyllgor, yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Gadeirydd, Sheila Noakes, ac a oedd yn cynnwys y Dirprwy Gadeirydd a dau aelod anweithredol o Fwrdd Ofcom. Gan weithio gydag Ysgrifennydd y Gorfforaeth a oedd yn darparu adroddiad i'r Pwyllgor bob mis, cylch gwaith y Pwyllgor oedd sicrhau nad oedd gan Mr Richards fuddiannau a oedd yn gwrthdaro yn ystod y cyfnod hwn. Dywedodd y Pwyllgor wrth Fwrdd Ofcom ym mis Rhagfyr 2014 nad oedd dim gwrthdaro mewn buddiannau wedi dod i'r amlwg ar yr adeg pan oedd Mr Richards yn gadael.

Penodwyd Sharon White yn Brif Weithredwr newydd Ofcom ym mis Rhagfyr 2014 yn dilyn proses benodi gyhoeddus ffurfiol; cymeradwywyd ei phenodiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Dechreuodd ei dyletswyddau fel Prif Weithredwr ym mis Mawrth 2015. Rhwng mis Ionawr a Mawrth 2015, penododd Bwrdd Ofcom Dr Steve Unger, Cyfarwyddwr Grŵp Ofcom ar gyfer Strategaeth, Rhyngwladol, Technoleg ac Economegwyr yn Brif Weithredwr dros dro. Ar ôl i Ms White ymuno ag Ofcom, penododd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom Steve Unger yn Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom.

### Pwyllgorau Gwaith

Y Pwyllgor Gwaith yw'r uwch dîm gweithredol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli Ofcom. Ei brif ffocws yw pennu cyfeiriad i'r sefydliad, gwneud penderfyniadau am faterion ariannol a gweinyddol, a monitro. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Ysgrifennydd y Gorfforaeth, y Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau ac uwch swyddogion gweithredol eraill yn mynychu drwy wahoddiad. Mae ei gyfrifoldebau am lunio polisïau wedi'u cyfyngu i bolisi rheoli.

Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn cadeirio cyfarfod wythnosol o'r Weithrediaeth Bolisi, sy'n cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ac uwch swyddogion gweithredol eraill drwy wahoddiad. Nod y Weithrediaeth Bolisi yw bod yn fforwm mewnol ar gyfer uwch swyddogion gweithredol i oruchwylio datblygiad mewnol agenda polisi Ofcom, a chraffu ar y gwaith hwnnw. Mae'r Bwrdd Gweithrediadau'n cwrdd bob pythefnos a chaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr y Grŵp Gweithrediadau. Mae'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob rhan o Ofcom ac mae'n delio â phob mater gweithredol ar gyfer y sefydliad. Mae'n adrodd i'r Pwyllgor Gwaith bob mis.

**Aelodau'r Pwyllgor Gwaith**

| Enw | Rôl |
|---|---|
| Sharon White[1] | Prif Weithredwr |
| Ed Richards[2] | Prif Weithredwr |
| Jill Ainscough[3] | Prif Swyddog Gweithredol |
| Philip Marnick | Cyfarwyddwr Grŵp, Polisi Sbectrwm a Chyfarwyddwr Grŵp Dros Dro, Gweithrediadau |
| Jonathan Oxley[4] | Cyfarwyddwr Grŵp, Cystadleuaeth |
| Stuart McIntosh[5] | Cyfarwyddwr Grŵp, Cystadleuaeth |
| Claudio Pollack | Cyfarwyddwr Grŵp, Cynnwys, Materion Defnyddwyr ac Allanol |
| Dr Steve Unger | Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth, Rhyngwladol, Technoleg ac Economegwyr |
| Polly Weitzman | Cwnsler Cyffredinol |

1 Penodwyd Sharon White i'r Pwyllgor ar 23 Mawrth 2015.
2 Ymddiswyddodd Ed Richards o'r Pwyllgor ar 31 Rhagfyr 2014.
3 Ymddiswyddodd Jill Ainscough o'r Pwyllgor ar 27 Hydref 2014.
4 Ymunodd Jonathan Oxley â'r Pwyllgor, yn weithredol o 24 Tachwedd 2014.
5 Ymddiswyddodd Stuart McIntosh o'r Pwyllgor, yn weithredol o 31 Mai 2014

## Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd; mae'n cael diweddariadau strategol rheolaidd, papurau gwybodaeth am y marchnadoedd y mae Ofcom yn eu rheoleiddio, gweithgareddau rhanddeiliaid allweddol, ac adroddiadau am weithgareddau gweithredol a pholisi Ofcom. Ar ben hynny, mae pob Aelod yn gallu mynd at Ysgrifennydd y Gorfforaeth i'w helpu gyda darparu gwybodaeth a llunio trefniadau ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol gyda swyddogion gweithredol yn Ofcom i gael gwell dealltwriaeth o faterion penodol. Dengys Ffigur 10 nifer y papurau a gafodd eu hystyried yng nghyfarfodydd y Bwrdd rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015.


Bydd perfformiad pob aelod unigol o'r Bwrdd yn cael ei asesu gan y Cadeirydd a bydd pob aelod yn cael adolygiad perfformiad bob blwyddyn.

## Atebolrwydd

Anfonir Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ofcom at DCMS, sy'n gosod copïau ohono gerbron dau Dŷ'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r ffordd y mae Ofcom yn rheoli'r arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn, a'i berthynas â DCMS yn y cyswllt hwn, yn cael ei disgrifio mewn Memorandwm Ariannol.

**Ffigur 10: Nifer y papurau a ystyriwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd: Ebrill 2014 – Mawrth 2015**




Prif Weithredwr/Cyllid/Gweithrediadau

Llywodraethu

UE /Rhyngwladol

Polisi Rheoleiddio

Diweddariadau am y Farchnad Gyfathrebu

Eraill

### Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Nid yw Ofcom yn rhwym wrth God Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddir gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol.

Fodd bynnag, mae egwyddorion y Cod yn rhoi meincnod defnyddiol i'r holl gyrff sy'n dymuno gwneud datganiad am eu perfformiad o ran llywodraethu corfforaethol. I'r diben hwn, bydd Ofcom yn parhau i fabwysiadu egwyddorion y Cod lle mae'n briodol gwneud hynny. I'r perwyl hwn mae Ofcom wedi cydymffurfio ag egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.

### Tryloywder

Mae Ofcom yn parhau i adolygu ei gynllun cyhoeddi ac yn darparu ystod ehangach o wybodaeth ar ei wefan sy'n hawdd cael ati.

Yn ystod 2014/15, derbyniodd Ofcom 459 cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Pan oedd gennym wybodaeth berthnasol, gwnaethom ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu ran ohoni, mewn 72% o achosion. Cedwir gwybodaeth yn ôl dim ond os yw wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth.

Cafodd Ofcom wyth cais hefyd am wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, a phan oeddem yn dal gwybodaeth berthnasol, darparwyd y wybodaeth y gofynnwyd amdani gennym mewn 100% o'r achosion.

## Ymgysylltu

Bydd gweithredoedd Ofcom yn effeithio ar bobl ac ar sefydliadau ledled y DU. O'r herwydd, mae'n bwysig iawn ei fod yn gwneud penderfyniadau ar yr adeg iawn ac yn y ffordd iawn. Rhaid i'r penderfyniadau hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac wrth wneud y penderfyniadau hyn mae angen i Ofcom ystyried safbwyntiau'r rheini sydd â diddordeb yn y canlyniad.

Mae ymgynghori'n chwarae rhan bwysig er mwyn cael gafael ar y dystiolaeth hon. Mae'n caniatáu i'r rheini y gallai mater penodol effeithio arnynt neu sy'n pryderu am fater penodol gyflwyno eu safbwyntiau i ni cyn i ni benderfynu ar gamau gweithredu.

O ganlyniad, bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ei holl flaenoriaethau strategol mawr cyn gwneud penderfyniadau. Mae rhagor o fanylion am ddull ymgynghori Ofcom a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi'u nodi ar dudalennau 53 a 54.

Mae Ofcom yn derbyn cyngor oddi wrth bob rhan o'i strwythur llywodraethu yn ystod ymgynghoriadau. Mae swyddogion gweithredol Ofcom yn mynychu cyfarfodydd priodol i amlinellu a thrafod prosiectau sydd naill ai'n cael eu hystyried ar gyfer ymgynghoriad neu sy'n destun ymgynghoriad, a chroesawir cyngor a sialens. Bwriad aelodaeth y cyrff sy'n ffurfio'r strwythur llywodraethu yw cynnig lefelau penodol o arbenigedd er mwyn gallu profi a herio polisïau a phrosiectau Ofcom yn gadarn cyn gwneud penderfyniadau. Mae'r ymgysylltu hwn yn fwyfwy pwysig yng ngwledydd datganoledig y DU, lle mae swyddogaeth aelodau gwledydd y DU ar y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol yn eithriadol o werthfawr ar gyfer helpu Ofcom i ystyried materion penodol wrth iddo lunio a gweithredu ei bolisïau.

Mae Ofcom hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill (gan gynnwys Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU), sefydliadau Ewropeaidd a chyrff byd-eang er mwyn sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn fforymau rhyngwladol yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y DU.


# Y fframwaith risg a rheolaeth

Mae fframwaith risg a rheoli Ofcom yn sail i'r strwythur llywodraethu a'i fwriad yw helpu Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a'i amcanion gan ddiogelu arian cyhoeddus yr un pryd. Mae'r fframwaith rheoli yn canolbwyntio ar dair colofn cyfrifoldeb:

- rheoli a rheolaeth fewnol;
- rheoli risg; a
- sicrwydd annibynnol.

Mae pob un o'r meysydd cyfrifoldeb hyn wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad ac maent yn dod ynghyd i roi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Weithrediaeth ac i'r Bwrdd er mwyn rheoli'r busnes yn effeithiol (gweler Ffigur 11). Mae'r fframwaith risg a rheoli yn gyson â'r arweiniad ar gydymffurfio ag 8fed Cyfarwyddeb Cyfraith Cwmnïau'r UE a ddarperir gan FERMA (Ffederasiwn Cymdeithasau Rheoli Risg Ewrop).

**Ffigur 11: Fframwaith rheolaeth Ofcom**




## Rheoli a rheolaeth fewnol

Caiff y cyfrifoldeb dros weithredu a monitro'r system rheolaeth fewnol ei dirprwyo gan Fwrdd Ofcom drwy Fyrddau a Phwyllgorau i Gyfarwyddwyr Grŵp ac uwch reolwyr. Disgrifir y cynllun dirprwyo hwn yn y Fframwaith Awdurdodau Ariannol, a gafodd ei adolygu yn 2014 i sicrhau ei fod yn gydnaws â blaenoriaethau'r sefydliad a'i archwaeth am risg. Gofynnir i Gyfarwyddwyr Grŵp ddarparu sicrwydd bod y system o reolaeth fewnol yn gweithio'n effeithiol yn eu maes cyfrifoldeb drwy gwblhau datganiad sicrhau rheolaeth fewnol blynyddol. Ar ben hynny, ceir sicrwydd drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dimau arbenigol ar draws y sefydliad, gan gynnwys y Pwyllgor Gwarchodaeth, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, y Gweithgor Amrywiaeth a Chydraddoldeb a'r Grŵp Parhad Busnes.

Drwy gynnal asesiadau effaith (fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau) sy'n gwerthuso effaith unrhyw benderfyniad rheoleiddio posibl ar draws yr ystod o randdeiliaid, mae ystyried risg wrth galon ein gweithgareddau.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi darlun cryno o rywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i wella rhagor ar y fframwaith rheolaeth.

### Memorandwm Ariannol

Lluniwyd ein Memorandwm Ariannol presennol gan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) mewn ymgynghoriad â'r Adran dros Ddiwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a ninnau ac mae'n disgrifio'r trefniadau ariannol rhwng Ofcom a'r Llywodraeth yng nghyswllt arian cyhoeddus a chyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifyddu BERR (BIS erbyn hyn) a DCMS a Phrif Weithredwr Ofcom. Llofnodwyd y Memorandwm Ariannol ym mis Ionawr 2008 a bydd yn dal mewn grym nes y cytunir ar Ddogfen Fframwaith newydd rhwng Ofcom a DCMS.

### Rhaglen clirio a dyfarnu sbectrwm

Yn ystod 2014/15, gwnaethom gau'n ffurfiol y prosiectau a oedd yn weddill a oedd wedi cefnogi'r gwaith o ddyfarnu'r sbectrwm 800MHz a 2.6GHz (sbectrwm 4G) ym mis Mawrth 2013. Cyfarfu'r Pwyllgor Cyllid Clirio Sbectrwm, a oedd wedi'i sefydlu gan Fwrdd Ofcom i oruchwylio'r gwaith o ddyfarnu grantiau i glirio'r band sbectrwm 800MHz, am y tro olaf ym mis Gorffennaf 2014. Mae unrhyw dasgau sydd heb eu cwblhau yn cael eu rheoli gan Grŵp Polisi Sbectrwm Ofcom fel rhan o'i weithgareddau busnes yn ôl yr arfer.

Ym mis Tachwedd 2014, gwnaethom gyhoeddi ein cynlluniau i adael i gwmnïau rhwydwaith symudol ddarparu band eang symudol dros y band sbectrwm 700MHz. Mae'r band sbectrwm hwn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer teledu daearol digidol (DTT) a gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE). Rydym wedi cytuno â'r Llywodraeth y bydd Ofcom yn rhedeg cynllun grant, yn debyg i'r un a roddwyd ar waith ar gyfer clirio'r band 800MHz, i ariannu'r newidiadau a fydd yn ofynnol i'r seilwaith DTT y bydd yn rhaid eu wneud i glirio'r band 700MHz. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd, gyda Bwrdd a Phwyllgor Gwaith Ofcom i gytuno ar sut i weithredu'r rhaglen gyllido, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'n profiadau yn clirio'r band 800MHz.

### Paratoi ar gyfer dyfarnu'r bandiau sbectrwm 2.3GHz a 3.4GHz

Fel rhan o raglen y Llywodraeth i ryddhau sbectrwm y Sector Cyhoeddus, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhyddhau 190 MHz o sbectrwm yn y bandiau 2.3GHz a 3.4GHz ar gyfer defnydd sifil. Bydd Ofcom yn dyfarnu'r sbectrwm drwy arwerthiant. Mae'n debyg y bydd y sbectrwm yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau symudol. Gwnaethom gyhoeddi Cais am Fewnbwn ym mis Hydref 2013 yn gofyn barn am ddefnyddio sbectrwm yn y dyfodol, gwnaethom ymgynghori ar faterion technegol ym mis Chwefror 2014 ac ar ddyluniad yr arwerthiant ym mis Tachwedd 2014, a chyhoeddi diweddariad technegol ym mis Rhagfyr 2014.

Wrth gynllunio ar gyfer yr arwerthiant, cynhaliodd tîm y prosiect ddadansoddiad manwl o'r gwersi a ddysgwyd o'r chwe arwerthiant sbectrwm blaenorol y mae Ofcom wedi'u cynnal, yn ogystal â gofyn am gael cyfeiriad clir gan y Pwyllgor Gwaith ynghylch archwaeth risg y sefydliad ar gyfer y prosiect hwn. Hefyd, mae'r prosiect wedi gofyn am gyngor gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio ynghylch y sicrwydd annibynnol gofynnol. Cynhaliwyd adolygiad archwilio mewnol ym mis Mai 2014 a gofynnwyd am gyngor arbenigol ar fesurau diogelwch ym mis Mawrth 2015. Bwriedir cynnal dau archwiliad arall, a fydd yn canolbwyntio ar ba mor barod yr ydym ar gyfer yr arwerthiant ac ar ddiogelwch, oddeutu dau fis cyn i'r arwerthiant gychwyn.

### Sicrhau ansawdd modelau hanfodol-i-fusnes

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi ymgymryd â rhaglen waith i sicrhau bod y fframweithiau sicrhau ansawdd sydd gennym ar gyfer ein modelau hanfodol-i-fusnes yn gydnaws â'r argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiad Syr Nicholas Macpherson, Review of quality assurance of Government analytical models. Mae Grŵp Llywio wedi cael ei sefydlu, a gadeirir gan Bennaeth Modelu Economaidd Ariannol Ofcom, a noddir gan aelod o'r Pwyllgor Gweithredol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sefydliad. Yn ogystal â hybu arferion da, bydd y Grŵp Llywio yn cynnal rhestr o fodelau pwysig i'r busnes a gaiff ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn gan y Pwyllgor Gweithredol. Mae arweiniad ar fodelu ar gael i bob cydweithiwr drwy'r fewnrwyd ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno pecyn hyfforddiant ar draws y sefydliad. Mae pob model pwysig i fusnes yn cael ei oruchwylio gan uwch berchennog cyfrifol a bydd yn mynd drwy adolygiad sicrhau ansawdd priodol.

### Rhagor o gynlluniau

Hefyd, mae nifer o gynlluniau wedi cael eu cychwyn neu eu rhoi ar waith fel rhan o'r rhaglen barhaus i adolygu a gwella'r fframwaith rheolaeth fewnol presennol. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- strwythur llywodraethu newydd ar gyfer y Cynlluniau Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio, i liniaru ar y risg ariannol a lleihau'r costau parhaus;
- adolygiad o Bolisi Treuliau Ofcom, a fydd yn dod i ben ddechrau 2015/16;
- adolygiad o'r Fframwaith Awdurdodau Ariannol;
- adolygiad o'r Cod Ymddygiad a'r Polisi Buddiannau sy'n Gwrthdaro;
- gweithredu system rheoli asedau newydd i ddelio â Pheirianneg Sbectrwm a gorfodaeth, ac asedau cyfleusterau;
- darparu hyfforddiant ar ymchwilio i dwyll i weithwyr allweddol ar draws y sefydliad;
- adolygiad mewnol ac allanol annibynnol o'r trefniadau diogelu ffisegol yn swyddfeydd Ofcom;
- cyhoeddi arweiniad ar reoli contractau ar wefan Ofcom;
- adolygiad manwl o'r broses gwahanu dyletswyddau i ddatrys unrhyw wrthdaro posibl mewn hawliau mynediad at ein systemau;
- cyflwyno rheolau ymgysylltu â rhanddeiliaid, i osgoi gwrthdaro mewn buddiannau, yng nghyswllt gweithgareddau dyfarnu trwyddedau allweddol gan gynnwys teledu lleol a'r drwydded amlblecs radio cenedlaethol; a
- rhagor o waith i wella ein trefniadau parhad busnes.

### Rheoli risg

Mae Ofcom yn parhau i ddangos arweinyddiaeth gref yn y ffordd mae'n rheoli risg drwy waith y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Wrth roi cymorth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith, mae'r Bwrdd Gweithrediadau a'r Weithrediaeth Bolisi'n gyfrifol am ddarparu arweiniad ar reoli risgiau sy'n deillio o ddatblygiadau rheoleiddio a gweithredu penodol.

I sicrhau bod ein fframwaith rheoli risg yn effeithiol ac yn gydnaws â gofynion y sefydliad, mae adolygiad blynyddol o'n fframwaith rheoli risg yn cael ei gynnal fel rhan o'n cynllun archwilio mewnol. Mae'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad yn ffurfio rhan o raglen barhaus i wella ein fframwaith rheoli risg.

Mae polisi a gweithdrefnau rheoli risg Ofcom yn diffinio'n glir ei ddull o reoli risg, ei amcanion a'i brosesau, yn ogystal â phennu'r swyddogaethau, yr atebolrwydd a'r cyfrifoldebau rheoli risg penodol sy'n bodoli ar draws y sefydliad.


Mae'r Pwyllgor Gwaith yn adolygu cofrestr risgiau strategol Ofcom yn fisol a bob chwarter gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio. Caiff risgiau lefel grŵp eu hadolygu gan Gyfarwyddwyr y Grwpiau, eu timau o uwch reolwyr a'r Rheolwr Risg ac Yswiriant fesul mis, a'u cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Strategol pan fo'n briodol.

Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gan gydweithwyr y sgiliau priodol i ganfod, i asesu ac i reoli risg yn unol â pholisi Ofcom i wreiddio a chefnogi diwylliant o reoli risg yn dda. Wrth gefnogi rôl uwch reolwyr yn hyrwyddo'r broses risg, mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant, ynghyd â thîm o Reolwyr Portffolio Grŵp, yn gweithio ar draws pob adran yn y sefydliad i hyrwyddo ac integreiddio'r broses rheoli risg, ac i gefnogi a hysbysu cydweithwyr.

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd Bwrdd a Phwyllgor Gwaith Ofcom ddatganiadau archwaeth risg y sefydliad. Cafodd y datganiadau archwaeth risg diweddaraf eu cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2015. Yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaethpwyd yn yr adolygiad archwilio mewnol o'r fframwaith rheoli risg, mae gwaith yn parhau i wreiddio'r broses o ystyried archwaeth risg ym mhrosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau'r sefydliad.

Mae'r tabl ar dudalennau 44 a 45 yn dangos rhai o'r prif risgiau sy'n cael eu rheoli gan y sefydliad.

**Ffigwr 12: Hierarchaeth risg Ofcom**




## Sicrwydd annibynnol

Mae Ofcom yn rhoi ei swyddogaeth archwilio mewnol ar gontract allanol i KPMG. Mae KPMG yn cyflawni ei waith yn unol â'r Cynllun Archwilio Blynyddol, sy'n seiliedig ar asesiad o'r gofrestr risgiau strategol, trafodaethau gyda rheolwyr a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac ystyriaeth barhaus o'r amgylchedd y mae Ofcom yn gweithredu ynddo. Caiff y Cynllun ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio. Yn ystod 2014/15, cafodd 15 archwiliad mewnol eu cwblhau, gan gynnwys adolygiadau o'r rhaglen Rhyddhau Sbectrwm Sector Cyhoeddus, y prosiect Rhifau Daearyddol, gwasanaethau galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol, cyflawni gwaith PMSE yn fewnol ac ailgaffael gwasanaethau TGCh sydd ar gontract allanol.

Lle y bo'n briodol, mae Ofcom wedi gofyn am sicrwydd annibynnol, trydydd parti ar gyfer prosesau busnes allweddol. Er enghraifft, fel rhan o'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm, roedd Deloitte a BDO wedi cael y contract i ddarparu sicrwydd ar y prosesau a ddilynir gan drydydd partïon sy'n gysylltiedig â'r broses clirio sbectrwm.

## Datgelu er lles y cyhoedd

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr yn erbyn cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr am ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn wybodaeth sydd er lles y cyhoedd. Mae Ofcom yn 'berson rhagnodedig' fel y'i diffinnir o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014. Felly, gall unigolion sy'n gweithio y tu allan i Ofcom, ond yn y sector cyfathrebiadau, gysylltu ag Ofcom os oes ganddynt bryderon bod rhywbeth o'i le yn eu sefydliad eu hunain. Yn ystod 2014/15, ni chafodd Ofcom unrhyw ddatgeliadau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

## Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu

Fel y Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Y Cyfarwyddwyr Grwpiau sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Y fframwaith hwn yw sail gwaith y drefn Archwilio Mewnol a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i adolygu a goruchwylio mewn modd strategol y trefniadau rheolaeth fewnol a rheoli risg drwy adroddiadau rheolaidd gan gyfarwyddwyr ar eu meysydd cyfrifoldeb a thrwy adroddiadau penodol i'w trafod gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio a chyfarfodydd y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ystyried:

- adroddiadau archwilio mewnol unigol, ymatebion rheolwyr a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yng nghyswllt unrhyw gamau a nodwyd;
- adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol a'i farn ar ddigonolrwydd ein system rheolaeth fewnol;
- adroddiadau ac argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- adroddiadau rheolaidd ar gofrestr risgiau strategol Ofcom, gan gynnwys pennu'r risgiau i system rheolaeth fewnol y sefydliad a gwybodaeth am y rheolaethau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau hyn; ac
- unrhyw adroddiadau ychwanegol am sicrwydd y mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi gofyn amdanynt.

Hyd y gwn i, ac ar sail y cyngor yr wyf wedi'i dderbyn gan y rheolwyr hynny sydd â chyfrifoldebau dynodedig dros reoli risgiau a'r system rheoli risgiau, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ganfyddiadau o bwys yng nghyswllt rheolaeth fewnol ar gyfer 2014/15.

**Sharon White**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

16 Mehefin 2015

# Datganiad cyfrifoldebau

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Dan delerau Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad Cyfrifon at y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Caiff y Datganiad Cyfrifon hwn ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, ar sail gronnus ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a gaiff eu derbyn yn gyffredinol. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr busnes Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r datganiad cyfrifon ar sail busnes byw.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cyfathrebiadau 2006. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

## Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd, sy'n dirprwyo iddi'r cyfrifoldeb dros reoli Ofcom o ddydd i ddydd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom. Mae'r penodiad yn cynnwys dyletswyddau cyfrifoldeb o ran rheoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a rheolaeth ariannol dda, a diogelu arian cyhoeddus.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Memorandwm Ariannol presennol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (a bydd yn parhau i wneud hynny o dan y Ddogfen Fframwaith newydd pan fydd yn dod i rym). Rhaid iddi hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw a rhaid iddi lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei chyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'i chyfrifoldebau fel Aelod Bwrdd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei dyletswyddau.

# Adroddiad taliadau

Wrth baratoi'r adroddiad taliadau, a sefydlu ei bolisi taliadau, mae'r Bwrdd wedi ystyried darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac wedi mabwysiadu'r darpariaethau, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol, ac yn cydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Nid oes raid i Ofcom gydymffurfio ag Atodlen 8 i Reoliadau Grwpiau a Chwmnïau Bach a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 fel y'u diwygiwyd ym mis Awst 2013 ond mae wedi paratoi'r adroddiad hwn i gydymffurfio i'r graddau y mae hynny'n briodol ac yn ymarferol.

## Cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau

Mae cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau i'w weld ar dudalen 67.

### Cynghorwyr

Pan fo angen, mae'r Pwyllgor Taliadau'n cael cyngor a/neu wasanaethau gan sefydliadau allanol arbenigol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael cyngor gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Ofcom. Gan amlaf, mae'r Pwyllgor Taliadau'n gwahodd y Prif Weithredwr i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Ni fydd dim un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## Polisi cyffredinol

Wrth bennu polisi taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Taliadau y dylai Ofcom, o fewn y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â bod yn gorff cyhoeddus, gynnig gwobrau a fydd yn denu ac yn cadw'r rheolwyr o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol. Ni ddisgwylir newid yng nghyfeiriad y polisi cyffredinol dros y flwyddyn i ddod.

## Elfennau taliadau

Dyma brif elfennau taliadau'r Aelodau Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Grŵp:

### Cyflog a buddion hyblyg

Pennir cyflog sylfaenol pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr ynghyd â thueddiadau'r farchnad. Hefyd, darperir lwfans buddion hyblyg i bob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp sy'n caniatáu i'r unigolyn dan sylw brynu buddion penodol. Caiff pob cyflog sylfaenol ei adolygu'n flynyddol ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn.

### Buddion safonol

Mae pob un o'r Aelodau Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Grŵp yn derbyn rhai buddion safonol: yn benodol yswiriant bywyd, amddiffyniad incwm grŵp a'r cyfle i gael archwiliad iechyd blynyddol. Nid yw cyfanswm gwerth yr amddiffyniad incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol wedi cael ei ddatgelu yn y rhestri taliadau gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn ei drin fel enillion trethadwy.

### Taliadau sy'n ymwneud â pherfformiad

Mae pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cymryd rhan mewn cynllun bonws perfformiad blynyddol, a gaiff ei gyfrifo fel canran o'r cyflog ar sail perfformiad yr unigolyn, hyd at uchafswm o 20% o'r cyflog, yn dibynnu ar yr unigolyn dan sylw. Mae hyn yn galluogi Ofcom i gydnabod cyfraniad y rheini sy'n perfformio'n arbennig o dda yn ystod unrhyw flwyddyn heb godi lefelau cyflog sylfaenol.

Nid oes dim un elfen o'r bonws perfformiad yn bensiynadwy. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi cymeradwyo'r bonysau perfformiad a nodir ar gyfer unigolion yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015, a'u cronni ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Nid yw Ofcom yn darparu cynllun bonws perfformiad hirdymor ar gyfer ei gyflogeion.

### Datgeliad cyflog teg

Rhaid i sefydliadau sector cyhoeddus ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn y sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad. Tâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn Ofcom yn ystod y flwyddyn ariannol 2014/15 oedd £317,782 (£336,394 yn 2013/14). Roedd hyn 5.79 gwaith (6.32 gwaith yn 2013/14) tâl canolrif gweithlu Ofcom a oedd yn £54,971 yn 2014/15 (£53,190 yn 2013/14). Ni dderbyniodd yr un gweithiwr dâl a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf. Yn 2014/15, roedd y taliadau'n amrywio rhwng £13,401.12 a £317,782 ac yn 2013/14 rhwng £14,890 a £336,394. Er mwyn gallu cymharu, mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad, buddion hyblyg a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys unrhyw lwfans pensiwn, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys.

### Trefniadau pensiwn

Dan drefniadau pensiwn Ofcom, mae pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cael lwfans, a bennir fel canran o'r cyflog sylfaenol, y gall yr unigolyn ei gymryd fel cyflog ychwanegol neu ei fuddsoddi mewn cynllun pensiwn o'i ddewis.

Mae'r Cadeirydd, Patricia Hodgson, yn cael pensiwn o Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC yn flaenorol). Ni chafodd yr un Aelod Anweithredol arall fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## Arweiniad i'r rhestri taliadau

Mae manylion y taliadau a dderbyniodd y Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgor Gwaith, sydd wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar gael yn y tablau a'r nodiadau canlynol.

Mae'r rhestri hyn yn cyfeirio at y taliadau yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r rhestr yn adlewyrchu'r taliadau am y rhan honno o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n aelodau o'r Bwrdd neu'r Bwrdd Cynnwys neu'n aelodau o'r Pwyllgor Gwaith. Roedd yr unigolion â'r nodyn '+' wrth eu henw yn y rhestri yn eu rolau am ran yn unig o 2013/14 neu 2014/15. Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 75 a76) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y rhestrau taliadau, a rhestrir yr holl Aelodau Gweithredol dan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r pwyntiau â rhif wrth ymyl enwau unigolion yn cyfeirio at y nodiadau ar dudalennau 76 a 77.

Oherwydd y newidiadau i'r aelodaeth yn 2013/14 ac yn 2014/15, rhoddir ffigur ar sail blwyddyn lawn o dan bob tabl, er mwyn darparu cymhariaeth gliriach o'r cyfanswm costau.

Mae'r tablau hyn yn cael eu harchwilio.

**Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom: 2014/15**

| Enw | Cyfeirnod nodyn cyfarwyddyd | Ffioedd 14/15 £ | Ffioedd 13/14 £ |
|---|---|---|---|
| Norman Blackwell | 1,3 | - | 42,519 |
| Y Fonesig Colette Bowe DBE | 1,3 | - | 180,000 |
| Y Fonesig Lynne Brindley DBE | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Tim Gardam | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Stephen Hill + | 1,3 | 21,260 | - |
| Y Fonesig Patricia Hodgson DBE | 1,3 | 142,500 | 70,000 |
| Graham Mather + | 1,3 | 35,433 | - |
| Mike McTighe | 1,2 | 42,519 | 35,433 |
| Y Farwnes Noakes DBE + | 1,3 | 58,333 | - |
| | | **385,082** | **412,990** |

Roedd y costau ar sail blwyddyn yn £425,095 ar gyfer 2014/15 ac yn £420,076 ar gyfer 2013/14.

**Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom: 2014/15**

| Enw | Cyfeirnod nodyn cyfarwyddyd | Ffioedd 14/15 £ | Ffioedd 13/14 £ |
|---|---|---|---|
| Andrew Chitty | 1 | 10,800 | 5,774 |
| Juan Andrew Colman | 1 | 10,800 | 5,774 |
| David Levy | 1 | 10,800 | 10,800 |
| Anthony Lilley OBE | 1 | - | 4,500 |
| Lesley Mackenzie | 1 | 10,800 | 5,774 |
| Iseabail Mactaggart + | 1,5 | 2,700 | 10,800 |
| Glyn Mathias | 1,4 | 15,900 | 12,300 |
| Dr Paul Moore | 1 | - | 4,500 |
| Philip Schlesinger + | 1,5 | 3,600 | - |
| Mary Ann Sieghart + | 1,5 | 6,300 | - |
| Joyce Taylor | 1 | - | 6,625 |
| Janey Walker | 1,4 | 20,100 | 14,975 |
| | | **91,800** | **81,822** |

Roedd y costau ar sail blwyddyn yn £91,500 ar gyfer 2014/15 ac yn £80,700 ar gyfer 2013/14.

**Taliadau Aelodau Pwyllgor Gwaith a Bwrdd Cynnwys Gweithredol Ofcom: 2014/15**

| Enw | Cyfeirnod y Nodyn Cyfarwyddyd | Cyflog 14/15 £ | Hawl pensiwn/ lwfans 14/15 £ | Lwfans buddion hyblyg 14/15 £ | Buddion o fath arall 14/15 £ | Bonws Perfformiad 14/15 £ | Cyfanswm taliadau 14/15 £ | Cyfanswm taliadau 13/14 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Jill Ainscough | 6,7 | 140,279 | 22,884 | 11,135 | 1,557 | – | 175,855 | 262,977 |
| Philip Marnick | 6,8,9 | 198,542 | 29,781 | 15,000 | 2,226 | 20,000 | 265,549 | 88,469 |
| Stuart McIntosh | 6,7 | 40,833 | 6,125 | 2,500 | 346 | – | 49,804 | 316,723 |
| H Nwana | 6,9 | – | – | – | – | – | – | 119,185 |
| Jonathan Oxley | 6,8 | 91,026 | 13,654 | 5,462 | 842 | – | 110,984 | – |
| Claudio Pollack | 6,8 | 190,625 | 28,594 | 15,000 | 2,226 | 20,000 | 256,445 | 246,889 |
| Ed Richards | 6,7,10,11 | 295,600 | 59,120 | 19,956 | 2,226 | – | 376,902 | 393,204 |
| James Thickett | 6,8 | 155,813 | 23,372 | 15,000 | 2,226 | 10,500 | 206,911 | 202,749 |
| Steve Unger | 6,8 | 206,016 | 30,902 | 15,000 | 2,226 | 40,000 | 294,144 | 246,889 |
| Polly Weitzman | 6,8 | 224,500 | 33,675 | 15,000 | 2,226 | 30,000 | 305,401 | 288,145 |
| Sharon White | 6,8 | 22,917 | 4,583 | 1,250 | 223 | – | 28,973 | – |
| | | **1,566,151** | **252,690** | **115,302** | **16,324** | **120,500** | **2,070,968** | **2,165,230** |

Roedd y costau ar sail blwyddyn yn £1,981,305 ar gyfer 2014/15[12] a £2,195,965 ar gyfer 2013/1413[13].

## Nodiadau i'r tablau taliadau

**1.** Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod llawn eu penodiad. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli'r flwyddyn lawn sy'n cael ei hadolygu. Mae'r ffi sylfaenol i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) wedi bod yn £42,519 y flwyddyn ers 1 Ebrill 2008. Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys. Mae'r ffioedd a ddangosir am flwyddyn gyfan neu, lle bo'n briodol, ran o'r flwyddyn, os gwnaeth yr Aelod Anweithredol perthnasol ymuno â'r Bwrdd Cynnwys neu ymddeol ohono, neu ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau yn ystod y cyfnod dan sylw. £10,800 y flwyddyn yw'r ffi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (ac eithrio'r ffi a delir i Janey Walker sef £15,900 y flwyddyn i adlewyrchu ei gwaith a'i chyfrifoldeb ychwanegol am waith safonau). Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys daliadau ychwanegol ar ben eu ffioedd (heblaw am y symiau y cyfeirir atynt yn nodyn 4 isod), heblaw'r hawl i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn unig gael offer TG. Ni wnaeth pob un o Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom fanteisio ar yr hawl hwn yn ystod y cyfnod dan sylw.

**2.** Mae'r ffioedd ar gyfer Mike McTighe am 2013/14 yn adlewyrchu'r ffaith iddo gael caniatâd i fod yn absennol o Fwrdd Ofcom yn ystod y cyfnod hwnnw ac ni dderbyniodd unrhyw ffioedd yn ystod yr absenoldeb hwnnw.

**3.** Ymunodd Graham Mather a'r Farwnes Noakes â Bwrdd Ofcom ar 1 Mehefin 2014 ac ymunodd Stephen Hill â Bwrdd Ofcom ar 1 Hydref 2014; ymddeolodd Colette Bowe a'r Arglwydd Blackwell o Fwrdd Ofcom ar 31 Mawrth 2014. Daeth y Fonesig Patricia Hodgson yn Gadeirydd Bwrdd Ofcom ar 1 Ebrill 2014.

**4.** Yn ystod y cyfnod 2014/15, derbyniodd Glyn Mathias a Janey Walker ffioedd ychwanegol am yr amser ychwanegol a roesant i Ofcom (yn ychwanegol at eu hymrwymiad amser yn eu contract) fel rhan o'r broses trwyddedu teledu lleol, lle buont yn eistedd (am gyfnodau gwahanol) ar y Pwyllgor Trwyddedu Darlledu.

**5.** Ymddiswyddodd Iseabail Mactaggart o'r Bwrdd Cynnwys ar 30 Mehefin 2014; ymunodd Mary Ann Sieghart â'r Bwrdd Cynnwys ar 1 Medi 2014 a Philip Schlesinger ar 1 Rhagfyr 2014.

**6.** Mae cyfanswm y taliadau blynyddol a ddangosir ar gyfer swyddogion gweithredol Ofcom, y maent i gyd yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, heblaw am James Thickett sy'n aelod gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys, yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad, lwfans arian ar gyfer buddion hyblyg a chanran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn. Mae'r golofn 'buddion o fath arall' yn adlewyrchu'r gost i Ofcom o ddarparu yswiriant meddygol preifat i bob swyddog gweithredol.

**7.** Ymddiswyddodd Ed Richards o fod yn Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom ac o'r Pwyllgor Gwaith ar 31 Rhagfyr 2014 gan ymadael â'r sefydliad ar 4 Mai 2015. Ymddiswyddodd Stuart McIntosh o fod yn Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom ac o'r Pwyllgor Gwaith ar 31 Mai 2014, ac ymddiswyddodd Jill Ainscough o fod yn Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom ar 16 Medi 2014 ac o'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Hydref 2014, ac ymadael â'r sefydliad ar 31 Rhagfyr 2014.

**8.** Ymunodd Steve Unger â Bwrdd Ofcom fel Prif Weithredwr dros dro ar 1 Ionawr 2015 tan 22 Mawrth 2015; ac wedyn cafodd ei benodi'n Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom ar 23 Mawrth; mae wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith gydol y cyfnod. Mae Philip Marnick, Polly Weitzman a Claudio Pollack wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith gydol y cyfnod; mae Claudio Pollack a James Thickett wedi bod yn Aelodau Gweithredol o'r Brwdd Cynnwys gydol y cyfnod. Ymunodd Jonathan Oxley â'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Tachwedd 2014 a daeth yn Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2015; ymunodd Sharon White â'r sefydliad ar 2 Mawrth 2015 ac ar ôl cyfnod sefydlu â thâl, fe'i penodwyd yn Brif Weithredwr a daeth yn Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom ar 23 Mawrth 2015.

**9.** Gadawodd H Nwana y sefydliad ar 30 Medi 2013. Ymunodd Philip Marnick â'r sefydliad ar 18 Tachwedd 2013.

**10.** Parhaodd Ed Richards i dderbyn tâl gan Ofcom am y cyfnod rhwng ymddiswyddo o Ofcom ar 31 Rhagfyr 2014 a gadael y sefydliad ar 4 Mai 2015; y cyfnod hwn oedd cyfnod y rhybudd ffurfiol ar gyfer ymadael ag Ofcom ac yn ystod y cyfnod hwn fe'i gosodwyd ar 'absenoldeb garddio'.

**11.** Mae Ed Richards yn cael £48,000 y flwyddyn mewn ffioedd am wasanaethau fel Cyfarwyddwr Anweithredol Thames Water Utilities Ltd, y cafodd £24,000 (a TAW) eu talu'n uniongyrchol i Ofcom yn ystod y flwyddyn ariannol a chadwyd y gweddill gan Mr Richards yn ystod ei 'absenoldeb garddio' y disgrifir uchod; mae Jill Ainscough yn cael £20,000 y flwyddyn am wasanaethau fel Cyfarwyddwr Anweithredol y British Medical Journal; telir y ffioedd hyn yn uniongyrchol iddi hi gyda gostyngiad pro rata yn cael ei wneud i gyflog sylfaenol Ms. Aincough a dalwyd iddi gan Ofcom yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae Polly Weitzman yn cael £12,120 y flwyddyn fel Cyfarwyddwr Anweithredol Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Prifysgol Homerton; telir y ffioedd hyn yn syth i Ofcom ac nid yw Ms. Weitzman yn derbyn dim ohonynt.

**12.** Ar 31 Mawrth 2015, roedd gan y Pwyllgor Gwaith 6 aelod (7 aelod ar 31 Mawrth 2014) ar ôl i Jill Ainscough ymddiswyddo ar 16 Medi 2014.

**13.** Mae'r costau ar sail blwyddyn ar gyfer 2013/14 wedi cael eu hailddatgan i gynnwys taliadau i James Thickett.

## Contract cyflogaeth

Ac eithrio'r Prif Weithredwr, sydd â chyfnod rhybudd o 12 mis, nid oes gan unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd dros naw mis. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi ystyried y cyfnod rhybudd a'r trefniadau terfynu yng ngoleuni Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, ac mae o'r farn eu bod yn briodol.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi'u penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am Colette Bowe a neilltuodd hyd at dri diwrnod yr wythnos a Patricia Hodgson a neilltuodd hyd at ddau ddiwrnod a hanner yr wythnos).

Ni roddwyd dim taliadau na dim iawndal am golli swydd yn ystod 2014/15.

## Iawndal terfynu'n gynnar

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys neu Gyfarwyddwr Grŵp, y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r Cyfarwyddwr Grŵp perthnasol. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

## Ymgymryd â swyddogaeth cyfarwyddwr allanol

Ni chaiff unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom dderbyn penodiad anweithredol heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Bwrdd i sicrhau na fydd hyn yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau. Bydd unrhyw ffioedd a delir i Aelod Gweithredol am benodiad o'r fath yn cael ei gadw gan y Weithrediaeth dim ond yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Taliadau

Nid oes neu nid oedd neb ar y Bwrdd yn dal unrhyw gyfarwyddiaethau neu fuddiannau sylweddol a oedd yn gwrthdaro â'u dyletswyddau

Ar ran Ofcom,

**Sharon White**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

16 Mehefin 2015

**Y Farwnes Noakes, DBE**
Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau

16 Mehefin 2015

# Datganiadau Ariannol






# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau Incwm a Gwariant, Sefyllfa Ariannol, Llifoedd Arian, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi dan y polisïau cyfrifyddu sydd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau sy'n cael ei disgrifio yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi cael ei harchwilio.

### Cyfrifoldebau perthnasol y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad am Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Bu imi gynnal fy archwiliad yn unol â r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau sylweddol, boed hynny drwy dwyll neu wallau.

Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau ac a ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol y mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau wedi'u gwneud; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny, byddaf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn canfod anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol archwiliedig, ac i ganfod unrhyw wybodaeth sy'n sylweddol anghywir ar sail y wybodaeth a gesglais wrth imi gyflawni'r archwiliad, neu wybodaeth sy'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth honno. Os byddaf yn dod ar draws unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylweddol byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif.

Rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg teg a gwir o gyflwr materion y Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2015 a'r gwarged gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau Ysgrifenyddion Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Ysgrifenyddion Gwladol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Swyddfa Cyfathrebiadau 2002; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Strategol ac yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gydnaws â'r datganiadau ariannol.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i gyflwyno adroddiad arno mewn perthynas â'r materion canlynol y cyflwynaf adroddiad yn eu cylch i chi os, yn fy marn i:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan y canghennau nad oedd fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

### Adroddiad

Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

24 Mehefin 2015

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain SW1W 9SP

# Datganiad Incwm a Gwariant

## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Nodiadau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | **111,208** | 112,131 |
| Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau | 3 | **4,290** | 6,101 |
| **Cyfanswm incwm** | | **115,498** | **118,232** |
| **Gwariant gweithredol** | | | |
| Costau Staff | 4 | **(62,678)** | (60,920) |
| Costau gweithredol eraill | 6 | **(49,737)** | (49,629) |
| Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau | 4,6 | **(4,054)** | (5,844) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | | **(116,469)** | **(116,393)** |
| **Gwarged / (diffyg) gweithredol** | | **(971)** | **1,839** |
| Incwm eiddo gwag | 7 | **170** | 26 |
| Incwm cyllid | 8 | **61** | 76 |
| Costau cyllid | | **–** | – |
| Incwm cyllid arall | 17,21 | **881** | 1,143 |
| **Gwarged/(diffyg) ar weithgareddau arferol am y flwyddyn ariannol cyn treth** | | **141** | **3,084** |
| Trethiant | 9 | **(46)** | (19) |
| **Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol ar ôl treth** | | **95** | **3,065** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 84 i 112 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad Sefyllfa Ariannol

## ar 31 Mawrth 2015

| | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 | Ar 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | **6,621** | 8,702 |
| Asedau anniriaethol | 11 | **3,212** | 3,733 |
| Asedau treth gohiriedig | 9 | **2,415** | 2,461 |
| Symiau Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 13 | **745** | 967 |
| Asedau buddion ymddeol | 21 | **15,994** | 21,969 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **28,987** | **37,832** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | **6,557** | 10,805 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod | 14 | **14,279** | 10,547 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **20,836** | **21,352** |
| **Cyfanswm asedau** | | **49,823** | **59,184** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau Masnach a symiau taladwy eraill | 15 | **19,930** | 21,201 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | **204** | 507 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **20,134** | **21,708** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill – symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn | 16 | **4,362** | 5,355 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | **466** | 696 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **4,828** | **6,051** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **24,962** | **27,759** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **24,861** | **31,425** |
| **Ecwiti** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | **24,861** | 31,425 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **24,861** | **31,425** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 84 i 112 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.
Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 16 Mehefin 2015.

**Y fonesig Patricia Hodgson, DBE**
Cadeirydd

**Sharon White**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

# Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti

## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Nodiadau | Cronfa wrth gefn £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2013 wedi'i ailddatgan** | | **35,575** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2013/14** | | |
| Ailfesur pensiynau | 21 | (7,215) |
| Gwarged / diffyg am y flwyddyn | | 3,065 |
| **Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer 2013/14** | | **(4,150)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | | **31,425** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2014/15** | | |
| Ailfesur pensiynau | 21 | (6,659) |
| Gwarged / diffyg am y flwyddyn | | 95 |
| **Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer 2014/15** | | **(6,564)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | | **24,861** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 84 i 112 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad Llifoedd Arian

## am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Nodiadau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwarged / (diffyg) gweithredol | | **(971)** | 1,839 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | | | |
| Amorteiddio | 11 | **908** | 2,072 |
| Dibrisio | 10 | **3,368** | 3,222 |
| Colled ar waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 6 | **110** | 244 |
| Lleihau (impairment) | 6 | **624** | – |
| Lleihad/(Cynnydd) mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12,13 | **4,470** | (1,750) |
| (Lleihad)/Gostyngiad mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 15,16 | **(2,264)** | (13,471) |
| (Lleihad)/cynnydd mewn darpariaethau | 17 | **(389)** | (974) |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn asedau pensiwn | 21 | **223** | (1,971) |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredol** | | **6,079** | **(10,789)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a gafwyd | 8 | **61** | 76 |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | **(1,002)** | (841) |
| Prynu eitemau anniriaethol | 11 | **(1,407)** | (1,527) |
| Elw ar werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar | | **1** | 1 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(2,347)** | **(2,291)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Ad-dalu benthyciadau | | **–** | – |
| **All-lif arian net o weithgareddau cyllido** | | **–** | – |
| **Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **3,732** | **(13,080)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 14 | **10,547** | 23,627 |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn | | **3,732** | (13,080) |
| **Cronfeydd net terfynol** | **14** | **14,279** | **10,547** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 84 i 112 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i’r Cyfrifon

## am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

### 1. Y sail dros gyflwyno a’r prif bolisïau cyfrifyddu

Mae’r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yn gorff sydd wedi’i leoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae’n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau rheoleiddio. Cafodd datganiadau ariannol y Sefydliad ar gyfer 31 Mawrth 2015 eu paratoi’n unol â’r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â’r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), fel y’u cymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd drwy brisio rhai asedau anghyfredol, ar sail busnes byw, yn unol â’r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Paratoir y datganiadau ariannol ar sail holl ddehongliadau a safonau cyfrifyddu IFRS ac yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2006 sy’n berthnasol i gwmnïau sy’n llunio adroddiadau o dan IFRS ac Erthygl 4 o Reoliad IAS yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio pan fydd Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 yn eu dirymu. Paratoir y datganiadau ariannol hyn yn unol â’r cyfarwyddyd ar gyfrifon a gyhoeddwyd ar 16 Ionawr 2008 gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a’r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy’n rhan o’r Memorandwm Ariannol fel y’i cymeradwywyd gan yr adrannau hynny.

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu datgan mewn punnoedd sterling, sef yr arian y mae’r sefydliad yn delio ag ef.

#### a) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae rhai safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond heb gael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom. Bydd yr holl safonau isod yn berthnasol i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol.

- IAS19 Buddion Gweithwyr (Diwygio) yn weithredol o 1 Chwefror 2015 ac sy’n berthnasol i gyfnodau blynyddol yn dechrau ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2014.
- Gwelliannau blynyddol i gylch 2010-2012 yr IFRS (Mae mân newidiadau i’r safonau canlynol yn berthnasol i gyfnodau blynyddol yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2014):
- Dyma’r safonau: IFRS 3 Cyfuniadau Busnes, IFRS 8 Segmentau Gweithredu, IFRS13 Mesur Gwerth Teg, IAS16 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar ac IAS 38 Asedau Anniriaethol, IAS 24 Datgeliadau Partïon Cysylltiedig) yn weithredol o 1 Chwefror 2015.
- Gwelliannau blynyddol i gylch 2011-2013 yr IFRS (Mae mân newidiadau i’r safonau canlynol yn berthnasol i gyfnodau blynyddol yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2014):

  Dyma’r safonau: IFRS 3 Cyfuniadau Busnes ac IFRS13 Mesur Gwerth Teg, yn weithredol o 1 Ionawr 2015.

#### b) Cydnabod incwm

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd neu sydd i’w derbyn yn ystod gweithgarwch arferol Ofcom. Dangosir incwm yn net o dreth ar werth, enillion, ad-daliadau a gostyngiadau.

Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd yr incwm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy a’i bod yn debygol y bydd buddion economaidd yn llifo i’r endid yn y dyfodol.

**Cymorth grant**

Mae’r incwm hwn yn cynnwys cymorth grant gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i dalu costau rheoli sbectrwm, dyfarnu sbectrwm, clirio sbectrwm, gorfodi cyfraith gystadleuaeth, budd y cyhoedd, asesiadau cyfryngau lleol, rhwystro gwefannau, cyd-fentrau, galwadau niwsans ac amddiffyn defnyddwyr. Caiff cymorth grant a geir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei ddyrannu a’i gyfateb i’r costau yn y flwyddyn sy’n berthnasol iddo.

Mae’r Rhaglen Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau (SCAP) yn goruchwylio’r gwaith o glirio’r sbectrwm (gan gynnwys lleihau unrhyw ymyriant posibl). Mae’r gwaith clirio’n cael ei wneud gan drydydd partïon sy’n cael eu hariannu drwy grant cyfalaf sydd wedi cael ei ystyried a’i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid Clirio Sbectrwm. Mae SCAP yn cael ei ariannu gan grant.

Mae’r rheini sy’n cael grantiau ar gyfer y rhaglen SCAP yn gofyn am gyllid gan Ofcom unwaith y bydd amodau’r grant wedi cael eu bodloni. Mae Ofcom yn cydnabod y costau grant ar ôl derbyn y cais am gyllid neu ar ôl cwblhau’r adolygiad cysoni o’r costau gwirioneddol

a wynebwyd.  Mae'r holl gostau eraill yn cael eu cydnabod wrth i weithgarwch gael ei gyflawni gan Ofcom.

**Ffioedd gweinyddu gwasanaethau, rhwydweithiau a gwasanaethau post**

Rhoddir cyfrif am incwm sy'n cynnwys ffioedd gweinyddol a anfonebwyd gan Ofcom ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian rhwydweithiau a gwasanaethau a gwasanaethau post ei nodi fel incwm gohiriedig ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel symiau derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**Ffioedd trwyddedau darlledu**

Mae incwm o ffioedd trwyddedau darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebwyd i'r rheini sy'n dal trwyddedau, a rhoddir cyfrif amdano ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian darlledu ei drin fel incwm gohiriedig ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel symiau derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**Ffioedd ymgeisio**

Ni ellir ad-dalu ffioedd ymgeisio darlledu a rhwydweithiau na gwasanaethau un-tro, ac felly cânt eu cofnodi fel incwm adeg derbyn cais y rhanddeiliad.

**Incwm arall**

Rhoddir cyfrif am incwm arall ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb â'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

## c) Derbyniadau a gasglwyd gan Ofcom o fewn cwmpas Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, bydd Taliadau Ychwanegol dan y Ddeddf Darlledu, derbyniadau Rhifau Daearyddol a Chosbau Ariannol y mae Ofcom yn eu codi yn cael eu had-dalu i'r Gronfa Gyfunol. Hefyd, caiff ffioedd trwyddedau y mae Ofcom yn eu codi, sy'n deillio o gyhoeddi neu adnewyddu trwyddedau dan y Deddfau Telegraffiaeth Ddi-wifr, eu had-dalu i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w talu i'r Gronfa Gyfunol.

Ni wneir unrhyw gofnodion yn y Datganiadau Ariannol hyn o ran trafodion sy'n gysylltiedig ag Adran 400, onid yw'r taliadau a'r ffioedd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Dangosir y rhain fel symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yn y Symiau Taladwy sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

Mae Ofcom yn paratoi set o gyfrifon ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron y Senedd.

## d) Lesoedd

Bydd lesoedd lle bydd y lesddaliwr yn agored i gyfran sylweddol o'r risgiau a'r manteision sydd ynghlwm wrth berchnogaeth yn cael eu trin fel lesoedd gweithredol. Caiff taliadau a wnaed ac a gafwyd dan lesoedd gweithredol eu cydnabod fel Incwm neu Wariant ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Caiff cymhellion lesoedd eu cydnabod fel rhan greiddiol o gyfanswm gwerth y les, dros gyfnod y les pan na ellir ei chanslo.

## e) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli asedau cyfredol.

Mae arweiniad gan y Trysorlys ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn caniatáu i Ofcom ddefnyddio costau hanesyddol dibrisiedig i gynrychioli gwerth presennol asedau nad ydynt yn eiddo sydd ag oes ddefnyddiol fer neu werth isel. Mae holl asedau Ofcom yn perthyn i'r categori hwn. Mae cost hanesyddol yn cynnwys gwariant a gaiff ei briodoli'n uniongyrchol i gaffael yr eitemau.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi ar sail cost neu gost dybiedig, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar gwerth dros £2,500 eu cyfalafu.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yng ngwerth llyfr yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff gwerth llyfr y darn a ddisodlir ei ddadgydnabod. Caiff yr holl waith atgyweirio a chynnal a chadw arall ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant yn ystod y cyfnod ariannol y mae'n daladwy.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth llyfr dros eu hamcan oes ddefnyddiol. Wrth asesu amcan oes ddefnyddiol, a gaiff ei adolygu'n flynyddol, rhoddir ystyriaeth i unrhyw drefniadau contract a gofynion gweithredol sy'n ymwneud ag asedau penodol.

Caiff dibrisiant ei gyfrifo o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith dros amcan oes ddefnyddiol yr ased. Oni bai fod gofynion gweithredol yn pennu fel arall, nodir yn y tabl isod, yn gyffredinol, y cyfnodau dibrisiant ar gyfer y prif gategorïau eiddo, peiriannau a chyfarpar:

| | |
|---|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau – Gwelliannau Les | Cyfnod y les |
| Gosodiadau a Ffitiadau – Dodrefn | 7 mlynedd |
| Cyfarpar Swyddfa a Maes | 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau Modur | 5 mlynedd |

Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Pennir enillion a cholledion ar yr hyn a werthir drwy gymharu'r elw â'r gwerth llyfr, a chânt eu cydnabod yn 'Colledion/ (Elw) ar waredu asedau anghyfredol' yn yr adran 'Costau gweithredol eraill' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

### f) Asedau anniriaethol

Nodir asedau anniriaethol ar yr union gost, llai amorteiddiad cronedig, gan ddefnyddio'r model ailbrisio lle caiff yr ailbrisiad effaith sylweddol. Cânt eu hadolygu'n flynyddol i weld a oes amhariad. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau datblygu a rhaglenni meddalwedd a ffioedd trwyddedau cysylltiedig.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod dim ond os gellir adnabod yr ased a grëwyd; os yw'n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn creu buddion economaidd yn y dyfodol; ac os gellir mesur cost datblygu'r ased yn ddibynadwy. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff gwariant datblygu ei gofnodi fel cost yn y cyfnod y wynebwyd y gwariant. Nid yw gwariant datblygu a gydnabuwyd yn flaenorol fel cost yn cael ei gydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae costau a briodolir yn uniongyrchol sy'n cael eu cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol.

Caiff amorteiddiad ar gostau datblygu a gyfalafwyd ei godi ar y datganiad incwm ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased. Amcangyfrifir mai rhwng tair a phum mlynedd yw'r oes ddefnyddiol.

Mae gwariant datblygu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu systemau cyfrifiadurol a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu'n cynnwys cyfarpar maes technegol sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Caiff gwariant ar ymchwil ei ddiddymu fel gwariant a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant. Nid yw amorteiddiad na dibrisiant yn effeithio ar asedau sydd wrthi'n cael eu datblygu neu eu hadeiladu.

### g) Amhariad ar asedau (impairment of assets)

Caiff amhariad ar asedau ei gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr yr ased a'i swm adferadwy, os yw'n llai.

Diffinnir swm adferadwy fel y gwerth teg uchaf, llai costau gwerthu, ac amcangyfrif o'i werth mewn defnydd ar ddyddiad yr adolygiad o amhariad. At ddibenion asesu amhariad, caiff asedau eu grwpio ar y lefelau isaf lle y mae llifoedd arian y gellir eu hadnabod ar wahân ar eu cyfer (unedau cynhyrchu arian).

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth llyfr asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod amhariad wedi digwydd i werth llyfr yr asedau.

Caiff gwerth llyfr ased ei briodoli'n syth, fel colled amhariad, i'w swm adferadwy os yw gwerth llyfr yr ased yn fwy na'i swm adferadwy amcangyfrifiedig.

Caiff amhariadau sylweddol eu datgelu ar wahân yn y nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant (nodyn 6) a'r Datganiad Sefyllfa Ariannol (nodiadau 10 ac 11). Caiff asedau sydd wedi bod yn destun amhariad eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r amhariad.

### h) Symiau masnach derbyniadwy

Symiau masnach derbyniadwy yw'r arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod i gychwyn yn ôl eu gwerth teg llai darpariaeth ar gyfer amhariad.

### i) Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian sy'n cael ei gadw yn y banc a thaliadau rhent.

### j) Symiau masnach taladwy

Symiau masnach taladwy yw rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr yn ystod busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gwaith arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

## k) Buddion gweithwyr

### Cynlluniau Pensiwn

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio, a chynllun nad yw'n cael ei ariannu.

### Cynlluniau â'r cyfraniadau wedi'u diffinio

Cynllun buddion ar ôl cyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae Ofcom yn talu cyfraniadau penodedig i endid ar wahân ac nid oes ymrwymiad cyfreithiol nac adeiladol arno i dalu symiau ychwanegol.

Mae'r rhwymedigaethau o dan gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio Ofcom yn cael eu cydnabod o fewn costau staff fel gwariant yn y datganiad incwm a gwariant fel y'u hwynebwyd.

Gall staff newydd ymuno â chynllun pensiwn rhanddeiliaid, sy'n gynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

### Cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio

Cynllun buddion ar ôl cyflogaeth yw cynllun â'r buddion wedi'u diffinio lle mae'r buddion y bydd gan aelodau hawl iddynt yn cael eu pennu ymlaen llaw gan fformiwla. Mae rhwymedigaeth net Ofcom yng nghyswllt cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio yn cael ei chyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd ar gyfer y dyfodol y mae cyflogeion wedi'i ennill tra oeddynt yn aelodau o'r cynllun. Mae'r budd hwnnw'n cael ei ddisgowntio i bennu ei werth presennol ac mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei ddidynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion ar y dyddiad adrodd o'r bondiau ansawdd uchel sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau ymrwymiadau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull credydu unedau rhagamcanol.

Pan fydd y cyfrifo yn dwyn budd i Ofcom, mae'r ased cydnabyddedig yn cael ei gyfyngu i werth presennol unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol. Caiff colledion ac enillion actiwaraidd eu cydnabod yn llawn yn y Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti yn y cyfnod y byddant yn codi. Mae costau ac incwm llog, a chostau gweinyddu'r cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn y cyfnod cyfredol.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio sy'n gysylltiedig â staff a drosglwyddodd i Ofcom o sefydliadau blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cau i aelodau newydd ac ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun mae wedi cael ei gau ar gyfer croniadau i'r dyfodol er 1 Mehefin 2011.

Mae Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom yn darparu buddion sy'n gyfwerth fwy neu lai â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC yn flaenorol). Dyma gynllun ar gyfer sawl cyflogwr, a'r cyflogwyr sy'n cyfrannu yw Ofcom, ASA ac S4C. Caiff asedau'r ddau gynllun eu dal mewn ymddiriedolaethau a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol dan IAS19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl tybiaethau IAS19, na ellir cydnabod y gwarged ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd "ar gael" iddo yn sgil y gwarged.

### Cynlluniau heb eu cyllido

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i dri chyn-Gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau gyn-Gadeirydd yr Awdurdod Radio, dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau a dau gyn-Gadeirydd Postcomm. Rhoddir cyfrif am y buddion hyn nad ydynt yn cael eu hariannu o dan IAS19 drwy ddarpariaeth ym mantolen Ofcom sydd yr un fath â gwerth actiwaraidd y rhwymedigaethau hyn.

### Buddion eraill gweithwyr
### Costau ymddeol yn gynnar

Mae'r taliad iawndal blynyddol yn rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil. O'r dyddiad ymddeol yn gynnar hyd at yr oed ymddeol, bydd y cydweithiwr yn derbyn tâl iawndal blynyddol sydd yr un faint â'r pensiwn a gedwir. Caiff hwn ei dalu bob mis mewn ôl-daliadau, yn yr un modd â phensiwn. Mae'n dechrau cronni ar y diwrnod ar ôl y dyddiad ymddeol, ac yn parhau i gronni nes bydd y pensiwn sydd wedi'i gadw yn cael ei dalu, a bydd yn dod i ben bryd hynny.

### Rhwymedigaeth yng nghyswllt gwyliau gweithwyr

Dan IAS 19 Buddion Gweithwyr, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel gwariant cyn gynted â chyfyd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan gydweithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth hyd at uchafswm o ddeg wythnos. Caiff croniad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflog a chyfraddau trosiant (churn rates), ei gynnwys fel rhan o'r croniadau. O 1af Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

### l) Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar, darpariaethau cyfreithiol ac eiddo gwag eu cydnabod: pan fo gan Ofcom rwymedigaeth adeiladol neu gyfreithiol gyfredol yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol; pan fo'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; a phan gafwyd amcangyfrif dibynadwy o'r swm. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Mae Ofcom yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n ymwneud â lle dros ben yn ei eiddo y mae'n ei lesio, llai cyfradd y disgownt a gyhoeddwyd gan y Trysorlys. Mae'r darpariaethau'n cynrychioli gwerth presennol net amcan gostau yn y dyfodol ar ôl cydnabod yr incwm rhent eithaf sicr yn y dyfodol. Wrth i'r disgownt ddirwyn i ben, mae hwn wedi'i gynnwys o fewn y costau cyllid eraill yn y datganiad Incwm a Gwariant.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried categori cyfan y rhwymedigaethau. Caiff darpariaeth ei chydnabod hyd yn oed os yw'n bur annhebygol y caiff all-lif unrhyw un eitem ei chynnwys yn yr un categori rhwymedigaethau.

### m) Setlo hawliadau

Gwneir darpariaeth ar gyfer iawndal ac amcan gostau cyfreithiol trydydd parti o ran herio penderfyniadau rheoleiddiol Ofcom a'i sefydliadau blaenorol os bernir ei bod yn debygol y bydd y rhain yn daladwy.

### n) Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

### o) Offerynnau ariannol a risg credyd

#### Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau a thaliadau rhent. Caiff incwm llog sydd i'w dderbyn ar arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

#### Symiau masnach derbyniadwy

Ni cheir llog ar symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, ac fe'u nodir ar eu gwerth teg. Gwneir darpariaeth os oes tystiolaeth na chaiff yr arian sy'n weddill ei dalu'n llawn.

#### Symiau masnach taladwy

Ni cheir llog ar symiau masnach taladwy ac fe'u nodir ar eu gwerth teg.

### p) Treth incwm gyfredol a gohiriedig

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant a wynebir fel rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Gellir asesu Treth Gorfforaeth ar log a dderbynnir, ac yng nghyswllt incwm rhent net ar ôl talu treuliau, sy'n deillio o osod eiddo dros ben.

Ar y dyddiad adrodd, yr oedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol. Daw'r colledion hyn o ganlyniad i ddarpariaethau les beichus ar eiddo a etifeddwyd oddi wrth gyrff blaenorol nad oedd mo'u hangen pan ymgorfforwyd Ofcom.

#### Treth ohiriedig

Darperir treth incwm ohiriedig, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar bob gwahaniaeth dros dro ar y dyddiad adrodd rhwng sylfaen trethi asedau a rhwymedigaethau sy'n berthnasol i weithgareddau trethadwy, a'u gwerth llyfr at ddibenion adroddiadau ariannol.

Cydnabyddir asedau treth ohiriedig ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro y gellir ei didynnu, asedau treth heb eu defnyddio sy'n cael eu dwyn ymlaen a cholledion treth heb eu defnyddio, i'r graddau y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir ei ddefnyddio yn eu herbyn.

### Cydnabod asedau treth ohiriedig

Caiff gwerth llyfr asedau treth ohiriedig ei adolygu ar bob dyddiad adrodd. Wrth asesu'r tebygolrwydd y bydd elw trethadwy yn deillio ohono, rhoddir ystyriaeth i ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol, canlyniadau rhagolygon i'r dyfodol, ac eitemau achlysurol sy'n annhebygol o godi yn y dyfodol. Gan hynny, mae'r asesiad o allu'r Sefydliad i ddefnyddio'r colledion treth a ddygwyd ymlaen yn seiliedig ar farn i raddau helaeth. Os bydd canlyniadau trethadwy yn y dyfodol yn wahanol iawn i'r rheini a ddisgwylir, bydd gwerth llyfr asedau treth ohiriedig yn cael ei gynyddu neu ei leihau, ac mae'n bosibl y caiff hynny effaith sylweddol ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Incwm a Gwariant.

Caiff asedau treth ohiriedig eu mesur yn ôl y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i Ofcom pan gaiff yr ased ei wireddu yn seiliedig ar y cyfraddau treth sydd ar waith neu y disgwylir iddynt fod ar waith erbyn diwedd y cyfnod adrodd.

### q) Dadansoddiad fesul segment

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgarwch mewn segment daearyddol na segment busnes, gan y cynhelir holl weithgarwch Ofcom yn y DU ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

### r) Meysydd y rhoddir barn arnynt a phrif ffynonellau ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, datgeliadau o ran rhwymedigaethau ac asedau wrth gefn, a'r refeniw a'r treuliau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am farnau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisïau cyfrifyddu neu'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif rai isod.

Dyma'r meysydd y rhoddir barn arnynt sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Cydnabod refeniw ac asesu refeniw nas biliwyd – polisi cyfrifyddu (b)
- Defnyddio asedau treth ohiriedig o ran elw trethadwy a fydd ar gael yn y dyfodol – polisi cyfrifyddu (p)

Dyma'r prif feysydd lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i werth llyfr asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu (k)

## 2. Dadansoddiad Sectoraidd

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015, ynghyd â'r costau a briodolir. Paratoir y dadansoddiad hwn yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011 ac nid yng nghyswllt Adroddiad Segmentaidd 8 IFRS, yn unol â pholisi cyfrifyddu 1 (q).

| | Sbectrwm rheoli £'000 | Clirio Sbectr wm £'000 | Dyfarnu sbectrwm £'000 | Rhwydweithiau a gwasanaethau £'000 | Darlledu £'000 | Rheoleiddio Post £'000 | Incwm arall £'000 | Cyfanswm 31 Mawrth 15 £'000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | | | | | |
| Ffioedd trwyddedau a gweinyddu | – | – | – | 35,664 | 17,999 | 5,053 | – | **58,716** | 59,631 |
| Ffioedd ymgeisio | – | – | – | 110 | 893 | – | – | **1,003** | 582 |
| Cymorth grant | 52,519 | 3,495 | 2,003 | – | – | – | 3,907 | **61,924** | 64,423 |
| Incwm arall | – | – | – | – | – | – | 330 | **330** | – |
| Incwm Cronedig/ (Gohiriedig) | (1,038) | (837) | (371) | (1,586) | (2,219) | (316) | (402) | **(6,769)** | (6,903) |
| **Cyfanswm refeniw** | **51,481** | **2,658** | **1,632** | **34,188** | **16,673** | **4,737** | **3,835** | **115,204** | **117,733** |
| Rhent ac Incwm arall | 136 | – | – | 91 | 44 | 13 | 10 | **294** | 499 |
| **Incwm Gweithredol** | **51,617** | **2,658** | **1,632** | **34,279** | **16,717** | **4,750** | **3,845** | **115,498** | **118,232** |
| Llog derbyniadwy | 28 | – | – | 19 | 9 | 3 | 2 | **61** | 76 |
| **Cyfanswm incwm** | **51,645** | **2,658** | **1,632** | **34,298** | **16,726** | **4,753** | **3,847** | **115,559** | **118,308** |
| Ad-daliadau benthyciad | – | – | – | – | – | – | – | **–** | – |
| Llog taladwy | – | – | – | – | – | – | – | **–** | – |
| **Incwm gweithredol net** | **51,645** | **2,658** | **1,632** | **34,298** | **16,726** | **4,753** | **3,847** | **115,559** | **118,308** |
| Eiddo beichus ac incwm rhent cronedig | 1,166 | – | – | 774 | 378 | 107 | 82 | **2,507** | 1,349 |
| **Incwm Ariannol** | **52,811** | **2,658** | **1,632** | **35,072** | **17,104** | **4,860** | **3,929** | **118,066** | **119,657** |
| **Cyfanswm costau** | **(52,811)** | **(2,658)** | **(1,632)** | **(35,072)** | **(17,104)** | **(4,860)** | **(3,929)** | **(118,066)** | **(119,657)** |
| **Gwarged ar sail cost ariannol** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** |
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | | | |
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015** | **(52,811)** | **(2,658)** | **(1,632)** | **(35,072)** | **(17,104)** | **(4,860)** | **(3,929)** | **(118,066)** | |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 | (53,715) | (4,760) | (1,341) | (34,747) | (17,060) | (4,392) | (3,642) | **(119,657)** | |

Mae rheoli sbectrwm hefyd yn cynnwys arian a gafwyd gan Lywodraeth yr Alban mewn perthynas â Gemau'r Gymanwlad.

Mae incwm arall yn cynnwys:

- cymorth grant yn ymwneud â gwariant amddifad yng nghyswllt dyletswyddau ar gyfer ymholiadau cystadleuaeth, gwaith lythrennedd yn y cyfryngau, gweithgarwch profion budd y cyhoedd, asesiadau cyfryngau lleol, galwadau niwsans, diogelu defnyddwyr a mentrau ar y cyd;
- gwaith yn ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein a ariennir drwy gymorth grant;
- incwm beirniaid;
- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyrraeth ar y sbectrwm; ac
- incwm rhent drwy is-osod gofod mewn eiddo gwag.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn nodyn 1(b) y cyfrifon hyn, rhoddir cyfrif am gymorth grant yn y cyfnod y'i derbynnir.

Cafodd y tabl uchod ei baratoi ar sail arian a addaswyd, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiant.

Mae ffioedd gweinyddol a thrwyddedau Ofcom yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian yn unol â'i Ddatganiad Egwyddorion Codi Tâl. Pan geir fwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid perthnasol ac yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom. Pan geir fwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, caiff y diffyg ei gasglu gan randdeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

### Cysoni'r gwariant gweithredol â'r alldro gweithredol gwirioneddol

| | Nodiadau | 2015<br>£'000 | 2014<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredol - Datganiad Incwm a Gwariant** | | **116,469** | **116,393** |
| Addasiadau o ran atebolrwydd ac asedau pensiwn | | **(305)** | 1,887 |
| Costau eiddo gwag | 17 | **379** | 876 |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisio | | **(1,867)** | (2,924) |
| Taliadau rhent gwirioneddol llai gwariant | | **1,262** | 1,423 |
| Addasiadau eraill | | **2,128** | 2,003 |
| Elw o asedau sefydlog | | **–** | (1) |
| **Gwariant arian gweithredol** | | **118,066** | **119,657** |
| Clirio Sbectrwm | | **(2,658)** | (4,760) |
| Dyfarnu Sbectrwm | | **(1,632)** | (1,341) |
| Incwm Anweithredol | | **(3,061)** | (1,923) |
| **Alldro Costau Gweithredol Gwirioneddol** | | **110,715** | **111,633** |

# 3. Incwm

| | Ofcom £'000 | Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau £'000 | Cyfanswm 2015 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau £'000 | Cyfanswm 2015 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Grant yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon** | | | | | | |
| Rheoli Sbectrwm | 50,637 | – | **50,637** | 52,134 | – | 52,134 |
| Dyfarnu Sbectrwm | – | 1,632 | **1,632** | – | 1,341 | 1,341 |
| Clirio Sbectrwm | – | 2,658 | **2,658** | – | 4,760 | 4,760 |
| Gorfodi'r gyfraith gystadleuaeth | 2,459 | – | **2,459** | 2,328 | – | 2,328 |
| Prawf diddordeb y cyhoedd | – | – | **–** | – | – | – |
| Asesu cyfryngau lleol | – | – | **–** | – | – | – |
| Cyd-fentrau (masnach symudol) | – | – | **–** | – | – | – |
| Galwadau niwsans | 1,090 | – | **1,090** | 1,055 | – | 1,055 |
| Amddiffyn defnyddwyr | 87 | – | **87** | 103 | – | 103 |
| Torri Hawlfraint Ar-lein | – | – | **–** | – | – | – |
| Llythrennedd yn y cyfryngau | – | – | **–** | 95 | – | 95 |
| **Cymorth grant Llywodraeth yr Alban** | – | – | **–** | – | – | – |
| Gemau'r Gymanwlad | 844 | – | **844** | 671 | – | 671 |
| **Cyfanswm cymorth grant gan y llywodraeth** | **55,117** | **4,290** | **59,407** | **56,386** | **6,101** | **62,487** |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau | 34,188 | – | **34,188** | 34,158 | – | 34,158 |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | 16,673 | – | **16,673** | 16,770 | – | 16,770 |
| Rheoleiddio gwasanaethau post | 4,737 | – | **4,737** | 4,318 | – | 4,318 |
| Incwm arall | 493 | – | **493** | 499 | – | 499 |
| **Cyfanswm incwm** | **111,208** | **4,290** | **115,498** | **112,131** | **6,101** | **118,232** |

Mae incymau Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i incwm craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

# 4. Costau Staff

| | Ofcom £'000 | Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau £'000 | Total 2015 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau £'000 | Cyfanswm 2014 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr oedd y costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn: | | | | | | |
| Cyflogau a buddiannau | 50,562 | 896 | **51,458** | 49,094 | 1,051 | 50,145 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 6,007 | 105 | **6,112** | 6,094 | 129 | 6,223 |
| Costau Pensiwn | 5,375 | 79 | **5,454** | 5,530 | 87 | 5,617 |
| Costau ailstrwythuro | 734 | – | **734** | 202 | 72 | 274 |
| **Cyfanswm costau staff** | **62,678** | **1,080** | **63,758** | **60,920** | **1,339** | **62,259** |

Mae'r costau ailstrwythuro yn 2015 yn ymwneud â gweithgareddau ailstrwythuro a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ac yn cynnwys croniad ar gyfer y costau hynny nad ydynt wedi'u talu ar ddiwedd y flwyddyn yn ymwneud â dau (2014: 5) weithiwr

Ceir gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn y cyfarwyddwyr a'r uwch weithredwyr yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 74 i 77.

Yn ystod y flwyddyn cafod saith (2014: 4) gweithiwr eu secondio i sefydliadau eraill, felly mae'r credyd hwn wedi'i gynnwys ar y llinell costau staff yn y tabl uchod.

Mae costau Clirio a Dyfarnu'r Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau staff craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

# 5. Nifer y gweithwyr

| | 2015 | 2014 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd | **787** | 785 |

Ar 31 Mawrth 2015, yr oedd gan Ofcom 783 o weithwyr (2014: 790).

Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, Pwyllgorau Ymgynghori na gweithwyr sydd wedi'u secondio i Ofcom.

## 6. Costau gweithredol eraill

| | Ofcom<br>£'000 | Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau<br>£'000 | Cyfanswm 2015<br>£'000 | Ofcom<br>£'000 | Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau<br>£'000 | Cyfanswm 2014<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Talu archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | 76 | – | **76** | 75 | – | 75 |
| Talu archwilwyr – Adran 400 | 13 | – | **13** | 14 | – | 14 |
| Ffioedd proffesiynol | 5,832 | 588 | **6,420** | 5,796 | 1,486 | 7,282 |
| Gwasanaethau a ddarperir yn allanol | 12,146 | 60 | **12,206** | 11,450 | – | 11,450 |
| Ymchwil i'r gynulleidfa a'r defnyddwyr | 5,273 | – | **5,273** | 5,275 | – | 5,275 |
| Ymchwil technolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm | 1,007 | 1,586 | **2,593** | 1,074 | 35 | 1,109 |
| Cynllun clirio sbectrwm | – | 47 | **47** | – | 2,312 | 2,312 |
| Staff dros dro a recriwtio | 3,126 | 499 | **3,625** | 2,708 | 536 | 3,244 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,178 | 51 | **1,229** | 1,020 | 33 | 1,053 |
| Costau eiddo | 5,914 | 15 | **5,929** | 6,786 | – | 6,786 |
| Costau gweinyddol a chostau swyddfa | 6,433 | 122 | **6,555** | 6,172 | 46 | 6,218 |
| Costau Technoleg a gwybodaeth | 3,350 | 3 | **3,353** | 3,288 | 2 | 3,290 |
| Cerbydau | 273 | – | **273** | 480 | – | 480 |
| Dyledion gwael ac amheus | 109 | – | **109** | 8 | – | 8 |
| Amorteiddio | 908 | – | **908** | 2,065 | 7 | 2,072 |
| Dibrisio | 3,365 | 3 | **3,368** | 3,174 | 48 | 3,222 |
| Colled ar waredu asedau anghyfredol | 110 | – | **110** | 244 | – | 244 |
| Lleihau | 624 | – | **624** | – | – | – |
| **Cyfanswm costau gweithredol eraill** | **49,737** | **2,974** | **52,711** | **49,629** | **4,505** | **54,134** |
| Mae'r costau uchod yn cynnwys: | | | | | | |
| Les gweithredol – tir ac adeiladau | 4,737 | – | **4,737** | 5,857 | – | 5,857 |
| Les gweithredol – cerbydau | 136 | – | **136** | 341 | – | 341 |
| Les gweithredol – arall | 246 | – | **246** | 237 | – | 237 |

